Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15



# Cofrestrfa Tir EM
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 Atodlen 1, paragraff (6A), (b).

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 7 Gorffennaf 2015.

HC 119

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio os datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Os oes gennych chi ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch ein tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gsi.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543.

Print ISBN 9781474119993

Gwe ISBN 9781474120005

ID 22051506      07/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 75 y cant o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad gan y Cadeirydd | 5 |
| Rhagair gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 7 |
| Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud | 9 |
| Ffigurau'r flwyddyn hon | 10 |
| Golwg ar y flwyddyn hon | 13 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid | 17 |
| Adroddiad strategol | 21 |
| (a) Strategaeth | 21 |
| (b) Newidiadau pwysig | 21 |
| (c) Adroddiad cynaliadwyedd | 21 |
| (ch) Busnes cyfrifol | 28 |
| (d) Incwm a pherfformiad busnes | 29 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 33 |
| (a) Rhwymedigaethau pensiwn | 33 |
| (b) Manylion y cyfarwyddwyr ac aelodau Bwrdd | 33 |
| (c) Data absenoldeb salwch a cholli gwybodaeth | 35 |
| (ch) Gwybodaeth i'r archwilwyr | 35 |
| Gwybodaeth yn gryno | 37 |
| Cyfrifon | 47 |
| Datganiad llywodraethu | 47 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 55 |
| Adroddiad tâl | 57 |
| Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol | 67 |
| Datganiadau ariannol | 69 |
| Atodiad A<br>Maint o waith a llwythi gwaith | 99 |
| Atodiad B<br>Ymateb i'r hinsawdd economaidd | 100 |
| Atodiad C<br>Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannu Tir a Chredydau Amaethyddol | 103 |
| Atodiad Ch<br>Cofnod y Trysorlys | 104 |



# Datganiad gan y Cadeirydd

Dwy o brif themâu'r 12 mis diwethaf oedd atgyfnerthu a datblygu - atgyfnerthu trwy ganolbwyntio ar ein busnes craidd wrth i'r farchnad dai gadarnhaol arwain at gynnal lefelau uchel o weithgarwch a datblygu trwy barhau i adeiladu ar sylfeini model gweithredu mwy digidol.

Bu'n flwyddyn o lwyddiannau, gyda gostyngiad sylweddol mewn ffioedd, pasio deddfwriaeth alluogi ar gyfer Pridiannau Tir Lleol a datblygu mentrau arobryn. Bu hefyd yn flwyddyn lle y llwyddom i ychwanegu adnoddau hanfodol ar lefel y weithrediaeth ac ar lefel weithredol i gryfhau'r sefydliad ac adeiladu'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i'w yrru ymlaen yn y dyfodol.

Yng Ngorffennaf 2014, ar ôl misoedd lawer o ystyriaeth ofalus, cyhoeddodd y Llywodraeth na fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniad ar newid ein model masnachol. Roedd parhau fel cronfa fasnachu wedi dileu rhywfaint o'r ansicrwydd a chadarnhau ein bwriad i ganolbwyntio ar gydrannau craidd y Strategaeth Fusnes - effeithlonrwydd, data, sicrwydd a gallu.

Croesawyd yr adfywiad yn y farchnad dai a olygai cynnydd yn y llwyth gwaith, yn enwedig ym meysydd mwy cymhleth o'n gwaith. Mae'n falch gennyf adrodd ein bod wedi ymateb i'r cynnydd hwn gyda'r un lefel o adnoddau a heb gyfaddawdu ansawdd ein perfformiad fel y dangosir gan ganlyniadau ein dangosydd perfformiad allweddol.

Rydym wedi parhau i adeiladu ein gallu digidol, gan dderbyn niferoedd cynyddol o drafodion yn electronig, mudo ein gwefan i GOV.UK a datblygu gwasanaethau newydd i wneud y defnydd mwyaf posibl o'n data er budd ein cwsmeriaid a'r economi ehangach. Yn hyn o beth rydym wedi cael ein cynorthwyo gan ein cysylltiad agos â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, perthynas sy'n parhau i fod yn hollbwysig i lwyddiant ein cynlluniau yn y dyfodol.

O ran cyflawniadau, roedd y cynnydd yn ein heffeithiolrwydd yn golygu ein bod yn gallu dychwelyd £117 miliwn i gwsmeriaid ar ffurf ffioedd is, gostyngiad o ryw 29 y cant. Roedd y trefniadau ffioedd newydd hyn wedi cymell cwsmeriaid i ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein, ac mae'n arwyddocaol bod bron pob cais am wybodaeth a mwy na hanner y cofrestriadau yn cael eu hanfon yn electronig.

Carreg filltir bwysig oedd pasio'r Mesur Seilwaith a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror sy'n ein galluogi i ddatblygu gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol digidol sengl. Bydd gweithredu'r prosiect Pridiannau Tir Lleol yn ategu blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth i hwyluso trawsgludo tir ac eiddo a gwneud data cyhoeddus yn fwy hygyrch er budd yr economi yn gyffredinol.


Mark Boyle

Roedd ein mentrau digidol wedi parhau i gael cydnabyddiaeth allanol, yn fwyaf nodedig y gwasanaeth Property Alert a enillodd yn y categori Arloesi mewn Busnes Gwobrau Real IT. Cawsom nifer o enwebiadau eraill am wobrau hefyd mewn gwahanol feysydd yn amrywio o wella gwasanaeth ar gyfer ein gwasanaeth Online Owner Verification i'n cynllun prentisiaeth.

Cyhoeddwyd bod Graham Farrant wedi cael ei benodi fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn weithredol o 1 Mehefin, gan gymryd lle Ed Lester a ymddiswyddodd yn gynharach yn y flwyddyn.

Hoffwn i ddiolch i Ed am ei gyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r Gofrestrfa Tir, cyfnod lle y llwyddom i ymdopi â'r cynnydd mewn gweithgarwch a gosod y seiliau ar gyfer ein dyfodol digidol.


Mae Graham wedi bod yn Brif Weithredwr Cyngor Thurrock a hefyd Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain. Bydd yn dod â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i'r sefydliad er mwyn ein harwain trwy gamau nesaf y broses drawsnewid, ac rwy'n falch iawn i'w groesawu i'r tîm.

Mae'r cyfnod cyn i Graham ddechrau yn ei swydd wedi cael ei orchwylio'n llwyddiannus iawn gan John Peaden, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a ymgymerodd â'r rôl o Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro a sicrhau ffocws agos ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd gan bwysleisio cyfathrebu a gweithio fel tîm ar draws y sefydliad yr un pryd.

Rydym wedi cryfhau'r tîm gweithredol hefyd, gyda Catherine Vaughan wedi'i phenodi fel y Cyfarwyddwr Cyllid parhaol newydd ar ddechrau Ionawr. Ers hynny mae hi wedi gwneud cyfraniadau pwysig i sawl maes gwaith, yn enwedig Pridiannau Tir Lleol, lle mae ei chefndir yn PwC a Chyngor Dinas Brighton & Hove yn arbennig o berthnasol.

Yn olaf rydym wedi croesawu 80 o brentisiaid newydd i'n swyddfeydd yn Telford, Caerlŷr a Nottingham. Mae'r prentisiaid wedi cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol a bwriadwn adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y dyfodol.

Hoffwn nodi bod y Bwrdd yn gwerthfawrogi cymorth ac ymdrechion parhaus y tîm gweithredol sydd, ar y cyd â'n staff ar draws y Gofrestrfa Tir, wedi sicrhau ein bod wedi llwyddo yn ein tasg gyhoeddus o gynnal y marchnadoedd eiddo a thrawsgludo ac ar yr un pryd adeiladu sylfeini sefydliad mwy digidol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd a minnau yn edrych ymlaen yn hyderus at y dyfodol hwn



**Mark Boyle**
Cadeirydd
Bwrdd y Gofrestrfa Tir

# Rhagair gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

Fy nhasg gyntaf bron fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yw cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon. Ond mae'n bleser o'r mwyaf gallu gwneud hynny oherwydd maent yn adrodd hanes blwyddyn heriol ond llwyddiannus, blwyddyn a welodd fy nghydweithwyr newydd yn rhagori yn eu gwaith.

Yn wir dyma'r flwyddyn fwyaf llwyddiannus o bosib yn hanes y Gofrestrfa Tir. Cafwyd blynyddoedd lle rydym wedi lansio mwy o gynhyrchion a gwasanaethau newydd a chofrestru mwy o adeiladau nodedig. Ond yr hyn a wnaeth y flwyddyn hon yn un i'w chofio oedd y ffordd rydym wedi ymdopi â'r cynnydd mawr yn y farchnad eiddo.

Mae ein llwyth gwaith cofrestru wedi cynyddu am y bumed flwyddyn yn olynol, sy'n arwydd bod mwy o hyder economaidd yn parhau i gael ei adlewyrchu yn y farchnad tir ac eiddo. Mae nifer y cofrestriadau wedi cynyddu 23 y cant dros y ddwy flynedd flaenorol a'u nodweddu gan gofrestriadau o brydlesi, a throsglwyddiadau o ran o deitlau cofrestredig, sy'n 'adeiladau newydd' yn bennaf. Roedd y categorïau hyn o geisiadau yn 10 y cant yn uwch nag yn 2013/14.

Rydym wedi ymateb i'r her honno gyda'r lefelau uchaf erioed o gynhyrchiant, wedi'i fesur gan yr unedau o waith sy'n cael eu prosesu fesul person fesul dydd, ac mae'r gost gyfartalog o gynhyrchu pob un o'r unedau hyn wedi gostwng. Erbyn hyn mae'r mwyafrif helaeth o'r ceisiadau am wybodaeth yn cael eu prosesu'n ddigidol, heb yr angen am ymyrraeth â llaw, ac mae manteision cynnig gwasanaeth electronig ar gyfer ein gwaith achos safonol wedi cyfrannu at ein perfformiad.

Ym Mawrth 2014 cyflwynwyd Gorchymyn Ffi newydd gan haneru'r raddfa ffioedd ar gyfer cofrestriadau sy'n effeithio ar y cyfan o deitlau cofrestredig, penderfyniad statudol sydd wedi gostwng ein refeniw gan £117m, gan drosglwyddo'r arbedion effeithlonrwydd hynny yn uniongyrchol i'n cwsmeriaid trwy ffioedd rhatach.

Derbyniwn tua 17,000 o'r ceisiadau hyn bob dydd, mwy nag 80 cant ohonynt yn electronig, gan leihau nifer o'r gorbenion sy'n gysylltiedig â thrafodion papur. Erbyn Medi 2014, roedd un filiwn wedi cael ei derbyn trwy e-DRS (y Gwasanaeth Cofrestru Dogfennau electronig). Yn Nhachwedd 2014, cyflwynwyd Ystafell Bost Rithwir, sef gwasanaeth sganio pen blaen sy'n dal pob cais papur gweddilliol, gan gynnig modd i'r holl brosesau busnes craidd weithredu mewn amgylchedd di-bapur.

Rwy'n falch i gyhoeddi bod dwy garreg filltir gofrestru: ymestyn ehangdir cofrestredig Cymru a Lloegr i 85 y cant a chwblhau cofrestru ein 24 miliynfed teitl. I roi hynny mewn persbectif, mae cofrestru tir wedi bodoli am 153 o flynyddoedd ac erbyn Mawrth 2005 dim ond



Graham Farrant

48 y cant oedd wedi cael ei gwmpasu. Mae hyn yn dangos llwyddiant ymestyn ysgogiadau ychwanegol i gymell cofrestru gorfodol, a chyflymdra'r newid dros y 10 mlynedd diwethaf. Ychydig cyn diwedd y flwyddyn, cyrhaeddwyd pwynt canran ychwanegol, gan ein cymryd i 86 y cant o'r ehangdir.

Gwyddom fod rhaid i ni adeiladu ar y cyflawniadau hyn, gan ymateb i'r galw gan gwsmeriaid am systemau sydd hyd yn oed yn haws i'w defnyddio trwy barhau i gyflwyno newidiadau sy'n lleihau costau ac yn cynyddu effeithlonrwydd trafodion.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cydweithio'n agos â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i adeiladu sylfeini ein gwasanaethau trawsnewidiol Digidol yn Ddiofyn.

Erbyn hyn gall benthycwyr awdurdodedig ddileu eu morgeisi a ad-dalwyd o'r gofrestr dros rwydwaith diogel, system awtomataidd a elwir yn e-ryddhau. Erbyn hyn mae'r broses hon yn cael ei defnyddio i ddileu mwy na 4,000 o forgeisi bob dydd o'r gofrestr, mewn modd cyflym a syml.

Bydd y cyntaf o'n gwasanaethau beta trafodaethol yn estyniad naturiol o hyn; system ddiogel sy'n galluogi cofrestru pridiannau newydd o fusnes i fusnes. Mae methodoleg ddatblygu 'Agile' yn golygu y gallwn gydweithio'n agos â defnyddwyr er mwyn iteru prosesau pen-i-ben y bydd cwsmeriaid yn eu dewis yn hytrach na sianeli eraill.

Byddwn yn parhau â'r dull gweithio cydweithredol hwn sy'n cynnwys prototeipio a mireinio ein systemau ymhellach. Disgwyliwn i e-bridiannau ragflaenu datblygu trafodion electronig wedi'u bwndelu eraill, fel trosglwyddiadau.

Mae argaeledd system yn her amlwg i unrhyw sefydliad sy'n anelu at roi ei wasanaethau ar-lein. Mae'n bleser gennyf adrodd argaeledd e-wasanaethau allanol o 99.9 y cant ar gyfartaledd, sy'n rhagori cryn dipyn ar ein targed o 96 y cant.

Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r stôr gyfoethog o ddata sy'n cael ei ddal o fewn y gofrestr teitl. Rydym wedi cefnogi agenda'r Llywodraeth i ailddefnyddio'r data hwnnw i'r eithaf er budd yr economi ehangach, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae ail linyn y gwaith beta rydym yn ei wneud gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn wasanaeth gwybodaeth i'r dinesydd, gyda'r posibilrwydd o integreiddio elfennau o'r Gofrestr Tir â gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â thir ac eiddo.

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf ar gyfer ceisiadau gwybodaeth amser-sensitif sy'n diogelu blaenoriaeth ceisiadau; y gwasanaethau hynny sydd ar lwybr hanfodol y broses drawsgludo gyn-gwblhau. Ar gyfartaledd derbyniom fwy na 60,000 o geisiadau y dydd a chafodd 98 y cant o ganlyniadau eu darparu o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Cydnabyddwn, fodd bynnag, er bod 80 y cant o'r holl gofrestriadau wedi cael eu cwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith (gan gynnwys y rhai â diffygion), roedd rhai ceisiadau cymhleth wedi cymryd llawer yn hwy.

I ymateb i hyn, rydym yn moderneiddio ein gweithlu, rydym wedi cyflogi 80 o brentisiaid, ac rydym wrthi'n cyflogi 60 arall, ac rydym wedi cychwyn ar yr ymgyrch recriwtio gweithredol cyntaf ers mwy nag wyth mlynedd. Bydd hyn, ar y cyd ag arbedion effeithlonrwydd digidol, yn lleihau amserau cwblhau cofrestru cymhleth.

Roedd ein rhiant-adran, Busnes, Arloesi a Sgiliau, wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o fodel masnachol ar gyfer y Gofrestrfa Tir. Er bod ein statws wedi parhau'n ddigyfnewid bydd yr ansicrwydd canfyddedig wedi cyfrannu at ganlyniadau ymgysylltu â staff gweddol isel. Gyda Thîm Gweithredol newydd sydd wedi ymsefydlu rydym yn gweithio'n galed i lunio gweledigaeth a fydd yn helpu i wella bodlonrwydd staff, rhywbeth sy'n allweddol i sicrhau bod newid cyflym yn gweithio.

Mae'r Senedd wedi dangos hyder yn y Gofrestrfa Tir drwy roi Cydsyniad Brenhinol i'r pwerau deddfwriaethol ehangach y mae eu hangen arnom i fod yn ddarparwr statudol canlyniadau chwilio Pridiannau Tir Lleol; rydym wedi gweld adfywiad yn y farchnad eiddo sydd yn agos at gyrraedd y lefelau gweithgarwch a welwyd cyn y cwymp, ac ymdopwyd â'r rhan fwyaf o'r llwyth gwaith hwnnw gyda llawer llai o staff; rydym yn manteisio ar welliannau digidol ac wedi ymrwymo i drawsnewid digidol.

Dyma rai o uchafbwyntiau blwyddyn lwyddiannus, ond gwyddom fod heriau pellach o'm blaenau. Yn ogystal â pharhau i wella cynhyrchiant, mae'n rhaid i ni hefyd chwilio am arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill a chynnal y cyflymdra newid i wasanaeth digidol.

Mae fy nghydweithwyr bwrdd a minnau yn hyderus y byddwn yn achub ar y cyfle i arwain y newid trawsnewidiol hwnnw, gan ddangos i'r llywodraeth, ac i fyd busnes a'r gymdeithas ehangach, ein bod ni'n gallu arwain newid trawsnewidiol. Gwnawn hynny trwy adeiladu ar lwyddiant yr hyn sydd eisoes ar gael ar-lein, a heb gyfaddawdu cywirdeb y gofrestr sy'n sail i'r ffydd sydd gan weithwyr proffesiynol eiddo a dinasyddion yn ein gwasanaethau a statws y diwydiant eiddo yng Nghymru a Lloegr.



**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015

# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir) yn 1862. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn gronfa fasnachu ac yn asiantaeth weithredol nad yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

O dan ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi, y Swyddfa Feteorolegol ac Arolwg Ordnans) 2011, trosglwyddwyd rhai swyddogaethau statudol yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir a oedd wedi'u breinio'n flaenorol yn yr Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ar wahân i'n prif fusnes ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Ein prif swyddogaeth yw cadw cofrestr o deitl i dir a phridiannau rhydd-ddaliol a phrydlesol yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan fydd wedi'i gofrestru. Ar ran y Goron rydym yn gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir.

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau uchelfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r pŵer i ni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a hwn yw ein prif statud llywodraethol.

O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Seilwaith 2015, y Gofrestrfa Tir yw'r unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol. Bydd y Gofrestrfa Tir yn darparu gwasanaeth digidol sengl ar gyfer Pridiannau Tir Lleol a bydd pwerau ehangach ganddi na'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cofrestru Tir 2002 i ddatblygu gwasanaethau newydd er budd y farchnad eiddo yn gyffredinol.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar ffiniau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein *Dogfen Fframwaith 2012*.

Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 57 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgais mwyaf gweithgar yn y byd. Mae mwy nag 86 y cant o ehangdir Cymru a Lloegr wedi'i gofrestru, gan ychwanegu hyd at fwy na 13.2 miliwn hectar. Mae mwy na 24 miliwn o deitlau wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Tir.

Gweithredwn trwy nifer o swyddfeydd a leolir yng Nghymru a Lloegr. Mae ein Prif Swyddfa a Swyddfa Croydon yn rhannu Trafalgar House yn Croydon. Mae ein Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth, Swyddfa Plymouth a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn rhannu Seaton Court yn Plymouth.

# Ffiguarau'r flwyddyn hon

## Nifer y gweithwyr

4,428

gan gynnwys

80

o brentisiaid




## Sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid

94%

## Gwobrau ar gyfer y gwasanaeth am ddim Property Alert

2

## Nifer y ceisiadau

Cyfanswm 27,411,908

Electronig 25,005,663

## Ceisiadau deliad a anfonwyd yn electronig ym mis Mawrth

83.9%


Teitlau cofrestredig

24.1 miliwn



Cynnydd mewn cynhyrchiant ers 2012/13

24.5%



Incwm



£297.1 m

Costau gweithredu



£249.5 m

Difidend gan gynnwys difidend arbennig



£119.1 m

Gwarged cyn difidendau



£36.6 m




Llun gan Paul Heartfield

Enillodd ein gwasanaeth am ddim Property Alert yn y categori Arloesi yng Ngwobrau'r Gwasanaeth Sifil.  Yn y llun mae'r Pennaeth Strategaeth Data Lynne Nicholson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Alasdair Lewis, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus Jessica Prasad a'r Rheolwr Cynnyrch Tracey Salvin gyda'r Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet ar y pryd Francis Maude (ar y chwith) a Daniella Goldman, Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus a Chysylltiadau Llywodraeth gyda noddwr y categori Huawei Technologies (ar y dde).



Datblygwyd gwasanaethau digidol newydd ar y cyd â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth

# Golwg ar y flwyddyn hon

Yn sail i'r flwyddyn hon oedd cyhoeddiad y Llywodraeth na fyddai'n gwneud unrhyw newid i'n model masnachol. Golygai hyn y gallem ni ganolbwyntio ar weithredu'r Strategaeth Fusnes bum mlynedd sydd wedi bod yn llywio ein datblygiad ers 2013. Crëwyd rhaglen newid newydd o'r enw LR Connect i gyflenwi'r strategaeth a chyrraedd ein nod o fod yn sefydliad cwbl ddigidol.

Penderfynodd y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Ed Lester gamu i lawr er mwyn i'w olynydd allu arwain y Gofrestrfa Tir trwy gamau nesaf y strategaeth. Ymunodd Graham Farrant â ni i ymgymryd â'r dasg honno ar 1 Mehefin. Yn ystod y misoedd cyn hynny roedd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau - a gweithiwr gydol oes y Gofrestrfa Tir - John Peaden wedi camu i mewn fel y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir dros dro.

Er bod LR Connect yn canolbwyntio ar y dyfodol nid oedd unrhyw beth i dynnu sylw o fusnes y dydd. I'r gwrthwyneb - 2014/15 oedd y flwyddyn brysuraf yn ein hanes. Dringodd gwerthiannau eiddo i'w lefel uchaf ers y cwymp yn y farchnad eiddo yn 2008, gan wthio nifer y cofrestriadau i fyny 7 y cant i tua 18,500 y dydd. Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y cofrestriadau mwy cymhleth fel blociau fflatiau newydd eu hadeiladu; cynyddodd cofrestriadau o brydlesi gan 11.6 y cant.

Ymatebwyd i'r niferoedd mwyaf erioed o waith gyda'r lefel uchaf o gynhyrchiant. Gweithiodd ein staff yn galetach ac yn fwy effeithlon nag erioed, gan ymateb yn gadarnhaol i'r angen i weithio goramser ac, i weithwyr rhan-amser, y cyfle i gynyddu eu horiau. Cafodd gwaith fel cofrestriadau cyntaf a phrosesu copïau swyddogol a chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) ei ganoli, gan greu mwy o arbenigedd o fewn y timau hyn, tra bo ein timau cwsmeriaid yn parhau i wasanaethu eu trawsgludwyr a'u cyfreithwyr.

Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem ni wedi prosesu 12.22 uned o waith fesul person fesul dydd yn erbyn ein dangosydd perfformiad allweddol o 12, gwelliant o 1.5 y cant ers 2013/14 a bron 25 y cant yn fwy nag yn 2012/13.

Ar yr un pryd roedd ein gwasanaethau electronig wedi anfon ceisiadau atom a rhoi canlyniadau i'n cwsmeriaid mewn modd cyflym, cywir a chost-effeithiol. Cyrhaeddodd naw deg wyth y cant o geisiadau gwasanaethau gwybodaeth, gan gynnwys archebu copïau swyddogol a chwiliadau o'r map mynegai, trwy'r e-wasanaethau Busnes electronig. Ymdriniwyd â thua 63,000 o geisiadau o'r fath bob dydd, gyda mwy na 98 y cant wedi'u prosesu o fewn 48 awr a dim ond 9 y cant yn gofyn am unrhyw lefel o ymyrraeth â llaw.

Erbyn hyn rydym hefyd yn derbyn bron tri chwarter o'r ceisiadau safonol yn electronig gan ragori'n hawdd ar ein targed o gynyddu nifer y deliadau â'r cyfan o deitl cofrestredig a anfonwyd yn electronig i 65 y cant erbyn mis Mawrth, gan gyflawni bron 84 y cant.

Yn yr hydref derbyniodd ein Gwasanaeth Cofrestru Dogfennau (e-DRS) ei filiynfed cais gan un o'i 3,000 o gwsmeriaid. Mae ein gwasanaeth Business Gateway awtomataidd i gwsmeriaid sydd â systemau rheoli achosion cydnaws wedi ffynnu hefyd, gan ddenu 25 o gwsmeriaid newydd a chynhyrchu £15.2 miliwn mewn refeniw. Roedd poblogrwydd parhaus ein gwasanaeth ar-lein MapSearch wedi lleihau'n sylweddol nifer y ceisiadau am chwiliadau o'r map mynegai.

Rydym yn parhau i dderbyn nifer o geisiadau trwy'r post ond erbyn hyn rydym yn eu troi'n ddogfennau electronig. Mae ein Hystafell Bost Rithwir newydd yn anfon pob cais papur i Swyddfa Coventry lle y cânt eu sganio i'w dosbarthu ar hyd y sefydliad, sy'n golygu y gallwn fod yn fwy hyblyg ac effeithlon o ran y ffordd rydym yn ymdrin â nhw.

Un ffactor yn llwyddiant yr e-wasanaethau Busnes oedd y gostyngiad ffi o 50 y cant a gyflwynwyd ym mis Mawrth ar gyfer rhai trafodion electronig, gan arbed cyfanswm o £117 miliwn i'n cwsmeriaid. Roedd y gorchymyn ffi yn un ffordd o drosglwyddo buddion ariannol ein rhaglen effeithlonrwydd i'n cwsmeriaid. Mae ein gweddillion arian parod iach yn golygu ein bod wedi talu difidend arbennig unwaith eto i'r Trysorlys ac rydym yn parhau i adolygu ein hymagwedd at osod ffioedd.

Ym mis Ionawr croesawyd ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol cyntaf, Jon Parry, i oruchwylio ein nod o fod yn ddigidol yn ddiofyn. Aethpwyd ati i weithio mewn timau 'ystwyth' gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar amryw o fentrau a allai drawsnewid y ffordd y mae gwybodaeth eiddo yn cael ei harddangos a'i gweld. Cafodd prosiectau penodol i greu tudalennau gwe eiddo unigol a dylunio golwg digidol hygyrch o gofrestri eiddo eu cymeradwyo trwy basio asesiad safonol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. Roedd y ddau brosiect wedi cyrraedd cam datblygu 'Beta preifat' erbyn diwedd y flwyddyn. Gwnaethpwyd cynnydd da hefyd ar ddatblygu pridiannau digidol. Yn y cyfamser roedd ein gwefan wedi 'mudo' i dudalennau gwefan ganolog GOV.UK, unwaith eto mewn partneriaeth â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth.

Chwaraeodd recriwtio ei ran wrth i ni geisio ymdopi â'r cynnydd yn ein llwyth gwaith. Cyrhaeddodd nifer o bobl newydd am y tro cyntaf ers 2007, pan ddechreuon ni gau swyddfeydd a diswyddo staff a bron haneru ein gweithlu i 4,500 o bobl. Byddai wedi bod rhaid i ni weithredu hyd yn oed pe bai ein llwyth gwaith wedi aros yr un fath wrth i nifer cynyddol o'n gweithlu ffyddlon



Ymunodd wyth deg o bobl ifanc, gan gynnwys Valentina Biuso, Ryan Topping a Chantel Hughes â'r Gofrestrfa Tir yn yr hydref o dan ein cynllun prentisiaethau peilot.

a phrofiadol gyrraedd oedran ymddeol. Yn ystod y flwyddyn dathlodd tri chydweithiwr y garreg filltir o weithio 50 mlynedd gyda'r Gofrestrfa Tir, arwydd o ba mor hir y mae cynifer o'n pobl wedi bod yn gweithio gyda ni

Y rhai cyntaf i gyrraedd oedd ein 80 o brentisiaid o dan gynllun peilot ein rhaglen brentisiaethau gyntaf erioed. Daeth y bobl ifanc 16 i 24 oed â'u brwdfrydedd, eu sgiliau a'u mewnwelediad newydd i swyddfeydd Telford, Caerlŷr a Nottingham ac ymhen dim o amser roeddent yn mynd i'r afael â gwaith achos wrth iddynt weithio tuag at ennill Diploma BTEC mewn gweinyddu busnes. Mae'r broses recriwtio a'r rhaglen ei hun wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau.

Daeth hwb arall o'r Swyddogion Cofrestru a ymunodd â'r tîm copïau swyddogol canolog yn Swyddfa Durham. Yn yr un modd â'r prentisiaid, roedd y cyfnod o amser ers i ni recriwtio diwethaf yn golygu bod rhaid i ni lunio prosesau ymsefydlu newydd a gafodd eu mireinio'n ddiweddarach gyda phrofiad wrth i bob grŵp newydd o recriwtiaid gyrraedd. Y grwpiau nesaf fydd 120 o Swyddogion Gweithredol Cofrestru a 15 o gyfreithwyr y disgwylir iddynt gyrraedd yn y flwyddyn ariannol newydd.

Er gwaethaf ein holl ymdrechion i gadw i fyny â'r cynnydd yn y farchnad dai, cynyddodd ein cyflymdra gwasanaeth cyfartalog o saith niwrnod ym mis Ebrill i 10.5 diwrnod ym mis Mawrth. Y mwyaf cymhleth yw'r gwaith achos, yr hwyaf y bydd rhaid aros. Er hynny, roedd o leiaf 80 y cant o gofrestriadau yn parhau i gael eu cwblhau o fewn 12 diwrnod ac wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen cafodd ein stociau gwaith eu lleihau'n sylweddol.

Ymestyn amserau cofrestru oedd un o'r ddau brif reswm dros y lleihad yng nghyfradd bodlonrwydd ein cwsmeriaid (cyfran y cwsmeriaid sy'n dweud bod ein gwasanaethau yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog) o 96 y cant i 94 y cant. Anhapusrwydd rhai cwsmeriaid â'r wefan newydd oedd y prif ffactor arall ac rydym yn rhoi sylw i'w pryderon.

Yn ystod y flwyddyn cyrhaeddwyd dwy garreg filltir gofrestru: y 24 miliynfed teitl yn y gofrestr ac 85 y cant o ehangdir Cymru a Lloegr wedi'i gwmpasu. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd yr olaf wedi codi i 86 y cant.

Ymysg ein prosiectau cofrestru mwyaf cymhleth oedd y twnneli Crossrail a gorsafoedd yn Llundain. Cofrestrwyd ystadau Coleg y Drindod a Choleg Santes Catherine yng Nghaergrawnt hefyd.

Cafodd ein rhaglen recriwtio ei hategu gan ailstrwythuro ein gwasanaeth Adnoddau Dynol (AD) er mwyn gallu ateb anghenion y sefydliad yn well. Cafodd AD flwyddyn brysur yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer y cynllun prentisiaeth, gan adolygu ein prosesau rheoli perfformiad, cyrraedd targed absenoldeb salwch is o 6.6 diwrnod (a gafodd ei ragori gyda 6.3 diwrnod) a helpu i recriwtio'r Cyfarwyddwr Cyllid parhaol newydd, Catherine Vaughan. Roedd y tîm hefyd wedi rheoli'r gwaith o roi ôl-daliadau dyledus i staff yn dilyn penderfyniad tribiwnlys ar ddilyniant awtomatig.

Roeddem yn siomedig bod ein sgôr ymgysylltu â staff wedi codi ychydig yn unig i 49 y cant. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith bod dangosyddion eraill fel perfformiad, trosiant ac absenoldeb salwch yn awgrymu bod staff yn ymgysylltu â'r gwaith a wnânt, â'u cydweithwyr ac â'u cwsmeriaid.

Gwneir ymdrechion o'r newydd yn y flwyddyn i ddod i ailgysylltu staff ag uwch reolwyr, tasg a ddylai gael ei chyflawni'n haws diolch i'r penodiadau parhaol diweddar ar frig y sefydliad. Mae amrywiaeth o fentrau yn cael eu llunio i ddatblygu deialog ffres ac iach.



Barry Wilson o Swyddfa Croydon, un o dri gweithiwr a fu'n dathlu gweithio 50 o flynyddoedd gyda'r Gofrestrfa Tir, yn derbyn ei dystysgrif gwasanaeth hir gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Ed Lester.

Cyntaf arall i AD a'r Gofrestrfa Tir oedd trosglwyddo 10 o bobl i'r sefydliad o'r cwmni technoleg gwybodaeth Steria o dan y rheoliadau Trosglwyddo Ymrwymiadau (Diogelu Cyflogaeth) neu TUPE. Symudodd y bobl hyn pan gafodd ein contract allanol DITI (Seilwaith TG Gwasgaredig) ei symud yn fewnol ym Mehefin 2014 gydag arbedion ariannol sylweddol.

Arbedwyd miliynau o bunnoedd am yr eildro wrth i ni uwchraddio ein prif-ffrâm TG. Mae ein system gyfrifiadurol brif-ffrâm wrth wraidd pob un o'n gwasanaethau TG gwaddol, gan gynnwys y Gofrestr Tir gyfrifiadurol, ac mae'n rhan hollbwysig o'n seilwaith am y blynyddoedd nesaf. Trafodwyd telerau boddhaol iawn â'n partner TG IBM ar gyfer y brif-ffrâm a'r meddalwedd ategol.

Wedi'u storio yn ein systemau mae'r data sy'n cael ei gynnig am ddim i ddatblygwyr, busnesau a'r cyhoedd, gyda'r nod o greu twf cymdeithasol ac economaidd. Rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Grŵp Data Cyhoeddus, gan gynnwys Arolwg Ordnans ar ein Her Dai ar y cyd GeoVation. Ymunwyd â'r Open Data Institute a chynhaliwyd heriau data mewnol i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc ymysg ein staff.

Roedd setiau data y codir tâl amdanynt yn cynnwys Perchnogaeth Fasnachol a Chorfforaethol, a Dilysu Perchnogion Ar-lein wedi cyfrannu at enillion o fwy na £4.6 miliwn o'n gwasanaethau masnachol dros y flwyddyn, ynghyd â chynhyrchion seiliedig ar ddata fel Polygonau. Cafodd y set ddata Dilysu Perchnogion Ar-lein ei rhoi ar y rhestr fer yng nghategori Gwella Gwasanaeth Gwobrau Real IT.

Mae data yn ganolog i'r hyn sydd efallai ein menter unigol fwyaf arwyddocaol y flwyddyn hon - ein rhaglen i greu cofrestr Pridiannau Tir Lleol ganolog, ddigidol. Bydd hyn yn disodli'r cofnodion a gedwir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnig mynediad gwell, amserau cwblhau gwaith cyflymach a ffioedd safonedig.

Roedd ein tîm ymgysylltu wedi cysylltu â phob cyngor perthnasol er mwyn cael gwybod sut y maent yn cadw eu data a'r ffordd orau i ni weithio gyda nhw wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Cafwyd trafodaethau helaeth hefyd â'r holl fuddgyfranogwyr eraill, gan gynnwys y diwydiant chwilio eiddo a thrawsgludwyr, gyda'n tîm o eiriolwyr arbenigol yn darparu sylwadau a chymorth.

Ar ddiwedd y flwyddyn rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Seilwaith, gan droi'n gyfraith y ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer y rhaglen a'r pwerau ehangach sy'n caniatáu i ni gyflawni hyn a phrosiectau eraill yn y dyfodol. Mae llawer iawn o waith i'w wneud eto ond yn ôl yr amserlen bydd y data cyntaf yn cael ei fwydo trwyddo yn 2017 a bydd y gofrestr wedi'i chwblhau erbyn 2023.

Roedd cefnogi taith y ddeddfwriaeth trwy'r Senedd yn gofyn am lawer o adnoddau ac ymdrech, nid lleiaf gan ein tîm Gwasanaethau Cyfreithiol. Roedd ein cyfreithwyr hefyd yn brysur gyda'n hachosion cyntaf yn y Llys Apêl am bum mlynedd. 'Collwyd' yr achos cyntaf ond drwy wneud hynny sefydlwyd pwynt cyfreithiol allweddol ynghylch troseddoli sgwatwyr ac a yw hyn yn effeithio ar hawliadau o feddiant gwrthgefn yn seiliedig ar feddiannaeth barhaus. Roedd y penderfyniad yn yr ail achos, yn ymwneud ag indemniad, wedi mynd yn ein herbyn hefyd ac rydym yn ystyried goblygiadau hyn.

Rydym wedi parhau i fod yn rhagweithiol yn y frwydr yn erbyn twyll. Roedd ein gwasanaeth am ddim Property Alert, sy'n rhoi rhybudd cynnar i berchnogion o weithgarwch amheus yn eu cofrestri, wedi cael 17,000 o danysgrifiadau ac wedi ennill dwy wobr yn y categori Arloesi mewn Busnes Gwobrau Real IT a'r categori newydd Arloesi yng Ngwobrau'r Gwasanaeth Sifil. Cynigiwyd diogelwch ychwanegol i gwmnïau drwy'r fenter ffurflen RQ(Co), gwasanaeth am ddim arall sy'n helpu i'w diogelu yn erbyn gwerthu neu forgeisio eu heiddo yn dwyllodrus.

Unwaith eto cawsom flwyddyn brysur ar y llwyfan rhyngwladol, gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Alasdair Lewis yn ei ail flwyddyn fel Llywydd Cymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop, y Cyfarwyddwr Strategaeth dros dro Paul Dowse yn cael ei ethol yn aelod o Gomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pwyllgor Ewrop ar Reoli Tai a Thir, a'r Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol Julie Barry yn cael ei hethol yn Is-gadeirydd Biwro'r Gweithgor ar Weinyddu Tir. Cynhaliodd yr Uned Ryngwladol genadaethau cwmpasu a chefnogi prosiectau yn Rwanda, Malawi a Thiriogaethau Meddianedig Palestina ymysg lleoliadau eraill, a chroesawyd nifer o ymweliadau astudio.

Cyfnewidiwyd contractau ar gyfer gwerthu rhan o gyn safle Swyddfa Nottingham ar gyfer datblygiad tai newydd wrth i ni barhau i ad-drefnu ein hystad, gan gynnwys rhannu lle dros ben gydag adrannau eraill o'r llywodraeth.



Roedd timau o'r Gofrestrfa Tir - ac yn benodol Swyddfa Hull - wedi serennu unwaith yn rhagor yn Her Gerdded flynyddol yr Elusen i Weision Sifil. Hull oedd lleoliad ein diwrnod mabolgampau blynyddol ac roedd Her y Gofrestrfa Tir, sef penwythnos o gerdded gwledig, wedi ymweld â Swydd Gaer.

Roedd gwaith gwirfoddol a chodi arian i elusennau unwaith eto yn dyst i ysbryd cymunedol ein staff gydag "ymrwymiad eithriadol" y gwirfoddolwr Elusen i Weision Sifil Carole Waterworth yn cael ei gydnabod gan wobr genedlaethol.

# Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid


## Refeniw

Roedd ein cyfanswm refeniw yn £297.1m (2013/14: £381.3m), i lawr 22 y cant neu £84.2m flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd niferoedd trafodion yn 11.6m uned (2013/14: 11.7m uned) ac i lawr 1 y cant ar y flwyddyn flaenorol (mae hyn yn cynnwys diweddariadau cofrestr swmpus mwy anwadal). Mae niferoedd yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio system o bwysoli sy'n cynnig modd cymharu gwahanol gynhyrchion a mathau o wasanaeth yn uniongyrchol a'u hagregu. Ar 17 Mawrth 2014 daeth Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013 i rym, a'i brif bwrpas oedd cyflwyno gostyngiad o 50 y cant ar gyfer rhai ceisiadau er mwyn cymell anfon cofrestriadau safonol yn electronig. Dyma'r prif reswm dros y gostyngiad mewn refeniw ac amcangyfrifir y byddai ein refeniw ar gyfer 2014/15 wedi bod £117m yn uwch o dan ddarpariaethau'r gorchymyn ffi blaenorol.


Catherine Vaughan

**Incwm y Gofrestrfa Tir ers dirywiad y farchnad dai 2008**

**£'000**




## Costau gweithredu

Mae costau gweithredu o £249.5m (2013/14: £239.9m) yn cynnwys costau cyflogau o £165.2m (2013/14: £154.1m). Cododd costau cyflogau gan £11.1m, er bod nifer y staff amser llawn parhaol cyfatebol wedi disgyn i 3,964 o 4,020 dros y flwyddyn. Roedd y cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i ôl-daliad o'r taliadau dilyniant i staff oedd yn ofynnol yn dilyn dyfarniad y tribiwnlys cyflogaeth bod taliadau o'r fath yn gytundebol.

Mae costau gweithredu wedi'u gostwng gan gredyd o £2.8m yn dilyn y gostyngiad i'r Gronfa Indemniad ac wedi'u cynyddu gan y cynnydd o £11.5m yn y ddarpariaeth IBNR (gweler isod). Roedd taliadau prydles cyllid o £0.9m (2013/14: £0.9m) a chostau amorteiddio a dibrisio o £6.6m (2013/14: £7.8m). Cafodd costau eu gosod yn erbyn incwm buddsoddi o £1.9m (2013/14: £1.6m).

Y cyfanswm costau yw £260.5m (2013/14: £246.2m). Mae hyn yn gynnydd o 5.8 y cant. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu gweithgarwch datblygu ar Bridiannau Tir Lleol a'r costau cyflogau ychwanegol a nodwyd uchod. Heb ystyried y costau un-tro hyn, mae'r tuedd cyffredinol yn adlewyrchu ymdrech i sicrhau effeithlonrwydd, ac yn 33.2 y cant cronnus o 2008/9 ar y gost gwasanaeth gan anwybyddu chwyddiant (41 y cant ar ôl cyfrif am chwyddiant). Y gwarged cyn difidend ar gyfer y flwyddyn yw £37m (2013/14: £135.1m).

Mae'r gwarged gostyngol hwn yn adlewyrchu'n bennaf yr effaith ar refeniw o'r Gorchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013. Ein henillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd oedd 8.5 y cant (2013/14: 30.7 y cant) yn erbyn gofyniad o 4.6 y cant.

## Y Gronfa Indemniad

Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni indemnio trydydd partïon yn erbyn colledion a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a cholli dogfennau. Mae'r rhan fwyaf o'n hawliadau indemniad yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau fel pridiannau. Darparwn ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ein Cronfa Indemniad, ar gyfer hawliadau hysbys ac am yr atebolrwydd ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Mae adolygiad a phrisiad allanol o'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol gan Lane Clark & Peacock LLP, ein hactiwarïaid.

**Taliadau'r Gronfa Indemniad**
Roedd taliadau indemniad yn gyfanswm o £8.4m (2013/14: £11.2m) ond roedd taliadau'n codi o dwyll a ffugio o £5.2m ac eithrio costau cysylltiedig (2013/14: £6.4m ac eithrio costau cysylltiedig). Adenillwyd £0.1m o dan ein hawliau digolledu. Mae rheolaethau yn ymwneud ag atal twyll a'n mesurau atal twyll yn parhau i gael eu gwella i ddiogelu cwsmeriaid yn erbyn twyll cofrestru.

**Darpariaeth y Gronfa Indemniad ar gyfer hawliadau cyfredol**
Mae gwerth darpariaeth y Gronfa Indemniad y flwyddyn hon ar gyfer hawliadau cyfredol wedi gostwng i £8.4m (2013/14: £11.2m). Effaith y gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth oedd rhyddhau £2.8m i'n gwarged gweithredu. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd, i'w gweld yn nodyn 17.2 yn y cyfrifon.

**Darpariaeth IBNR y Gronfa Indemniad**
Mae gwerth darpariaeth IBNR y Gronfa Indemniad y flwyddyn hon wedi cynyddu i £65.2m (2013/14: £53.7m). Effaith y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth oedd tâl o £11.5m i'n costau gweithredu. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur amcangyfrifedig yr atebolrwydd IBNR a bod y ddarpariaeth yn gallu codi a gostwng, i'w gweld yn nodyn 17.2 yn y cyfrifon.

## Difidendau

Mae difidend o £19.1m (2013/14: £26.7m) yn seiliedig ar enillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd o 4.6 y cant (2013/14: 5.9 y cant). Yn ogystal, talwyd difidend eithriadol o £100m, gan adael diffyg o £82.5m am y flwyddyn, gan leihau'r cyfanswm agregedig o gronfeydd wrth gefn a gadwyd yn y cyfrif incwm a gwariant o £267.3m.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol yn parhau'n gadarn, gan olygu y gellir talu'r ail ddifidend eithriadol o £100m fel y cynlluniwyd. O ganlyniad, gostyngodd asedau net i £360.3m (2013/14: £444.4m). Yr all-lif arian net oedd £66.9m (2013/14 £7.9m) ac mae'n cynnwys y taliad arian o'r difidend eithriadol, y gweddill £6.7m o ddifidend 2013/14 a £15m o'r difidend £19.1m 2014/15. Y gweddill arian parod wrth gau oedd £397.8m (2013/14: £464.6m).

## Asedau anghyfredol

Cafodd yr ystad ei phrisio'n allanol gan y Swyddfa Brisio. Roedd y symudiad cyffredinol yn ostyngiad mewn gwerth o £3.6m, ac erbyn hyn mae gwerth ein hystad yn y cyfrifon, yn dilyn gwerthu Drakes Hill Court yn Plymouth, yn £72.9m ac eithrio asedau a ddelir i'w gwerthu.

Ein cyfanswm gwariant cyfalaf, sef offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bennaf, oedd £3.2m.

## Rheolaeth y Trysorlys

Mae rheolaeth asedau hylifol yn cael ei llywodraethu gan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993, y Gorchymyn Asedau Ychwanegol 1996, y Gorchymyn Estyn a Diwygio 2003 a *Dogfen Fframwaith 2012*. Mae gweddillion arian anweithredol yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n dwyn llog yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gyda'r gweddill yn cael ei gadw gyda banc masnachol y DU.

## Perfformiad

Cyflawnwyd chwech o'n saith targed DPA (gweler tudalennau 30 a 31).

## Gweithgareddau yn y dyfodol: Strategaeth Fusnes a Chynllun Busnes

Mae ein gweithgareddau yn y dyfodol wedi'u llywio gan y Strategaeth Fusnes a gafodd ei chymeradwyo gan weinidogion yn Rhagfyr 2012. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i hymgorffori o fewn ein Cynllun Busnes cyffredinol ar gyfer 2013/18, yn cynnwys ein hamcanion a gweledigaeth sy'n amlinellu'r uchelgais i sicrhau newid arwyddocaol gan gynnwys:

- cynnydd mewn cynhyrchiant a lleihau ein costau rhedeg
- 99 y cant o wasanaethau gwybodaeth a 60 y cant o wasanaethau cofrestru i'w hanfon yn electronig erbyn 2017/18
- digideiddio data Pridiannau Tir Lleol mewn 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr- ehangu ein rôl a gwneud trawsgludo yn haws ac yn rhatach.

Byddwn yn defnyddio'r cyfleoedd sy'n codi o'r Llywodraeth newydd a newidiadau yn y tîm uwch reoli i adolygu a gloywi ein Strategaeth Fusnes yn 2015/16.

Mae'r targedau am y flwyddyn yn cael eu cyhoeddi yn adran adroddiadau Corfforaethol ein gwefan: www.gov.uk/government/organisations/land-registry. Mae'r targedau wedi cael eu hadolygu gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

## Y prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol

Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel gweithgarwch y farchnad dai. Caiff hyn ei hadolygu'n gyson gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion o ffynonellau mewnol ac allanol. Ein rhagdybiaeth ar gyfer y flwyddyn 2015/16 yw y bydd gweithgarwch yn 11.8m o unedau gan gynnwys diweddariadau cofrestr swmpus o 0.9m o unedau. Mae hyn yn uwch na'r gweithgarwch ar gyfer 2014/15 (11.6m o unedau gan gynnwys 0.7m o ddiweddariadau cofrestr swmpus). Mae'r rhagolygon refeniw wedi'u hadeiladu ar y niferoedd hyn i gadw gwarged cyn difidend o £28.7m.

## Cyfarwyddiaethau a buddiannau o bwys

Nid oes unrhyw fuddiannau o bwys i'w datgelu.

## Cysylltiadau allweddol

Rydym yn cynnal cysylltiad agos â'n cyflenwyr drwy ein prosesau caffael a rheoli contractau. Mae ein prif gyflenwyr yn cynnwys TNT, Carillion ac IBM. Mae perfformiad y prif gyflenwyr hyn yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod y gwasanaeth dan gontract yn cael ei ddarparu'n effeithiol, bod cyfleoedd gwella yn cael eu ceisio a'n bod yn parhau i gael gwerth da am arian.

Mae ein prif gyflenwyr yn cael eu monitro yn unol â'r risg strategol berthnasol ac rydym yn cymryd camau pellach i wella ein gweithgarwch rheoli contractau llyfr agored.

Gwneir defnydd arwyddocaol o gontractau trawslywodraethol, yn unol â pholisi caffael Swyddfa'r Cabinet.

## Pensiynau

Mae manylion sy'n dangos sut y caiff costau a rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon i'w gweld yn nodiadau 1.8 a 4.4 yn y cyfrifon ac yn yr adroddiad Tâl.

## Taliadau

Cydymffurfiwn â Deddf Hwyrdalu Dyled Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu'n Well. Yn ystod y flwyddyn talwyd 93.1 y cant o anfonebau diamheuol a dderbyniwyd gan gyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith (2013/14: 95.4 y cant).

## Prif risgiau ac ansicrwydd

Wynebwn heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a busnes. Mae'r risgiau strategol cyfredol allweddol yn ymwneud â'n Strategaeth Fusnes a'r gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflenwi ein rhaglen uchelgeisiol o newid busnes.

Mae risgiau strategol yn cael eu monitro gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'u rheoli gan y Bwrdd Gweithredol. Mae risg i'r Gyfarwyddiaeth yn cael ei rheoli gan bob cyfarwyddwr. Mae risg i raglenni a phrosiectau yn cael ei rheoli o fewn y ffiniau a osodwyd ar gyfer y byrddau perthnasol. Mae risg i wybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â chanllawiau CESG (yr awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer sicrwydd gwybodaeth). Mae risg yn cael ei huwchgyfeirio os yw'r archwaeth risg wedi'i ragori a gall fod effaith andwyol ar dargedau, enw da neu weithrediadau.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Y gost ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol ar gyfer 2014/15 oedd £65,000 (2013/14: £65,000).

**Catherine Vaughan**
Cyfarwyddwr Cyllid
17 Mehefin 2015



# Adroddiad strategol

## a) Strategaeth

Cymeradwywyd ein Strategaeth Fusnes gyfredol gan y gweinidog yn Rhagfyr 2012. Mae'r amcanion wedi'u hamlinellu o fewn y datganiad Llywodraethu yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae manylion pellach i'w gweld yn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid.

Ar gyfer 2014/15 cyhoeddwyd ein dangosyddion perfformiad allweddol gerbron y Senedd ar 8 Mai 2014.

Nid oedd unrhyw dargedau cyhoeddedig ar y Strategaeth Fusnes ei hun, er mwyn osgoi achub y blaen ar benderfyniadau yn y dyfodol pe bai'r gweinidog wedi penderfynu ar fodel gweithredu arall. Gwnaethpwyd cynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth trwy gynllunio a gwaith pellach ar y rhaglen LR Connect, datblygu'r pwerau ehangach a deddfwriaeth Pridiannau Tir Lleol a'i achos busnes, a gwelliannau gweithredol fel datblygu'r gwasanaeth Ystafell Bost Rithwir sy'n troi ceisiadau papur yn ddogfennau electronig.

## b) Newidiadau pwysig

Yn ystod 2014/15 cefnogwyd datblygiad deddfwriaeth i alluogi pwerau ehangach ar gyfer darparu gwasanaethau cofrestru tir a'n grymuso i ddatblygu cofrestr Pridiannau Tir Lleol ddigidol, wedi'i chanoli. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil ar 12 Chwefror 2015.

Bydd datblygu'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol a throsglwyddo data o'r awdurdodau lleol yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Mae achos busnes wedi cael ei gyflwyno i Drysorlys EM yn amlinellu'r buddsoddiad sylweddol a'r effaith ariannu fyrdymor ar ein cronfeydd wrth gefn. Bydd yr holl gostau yn cael eu hadennill o ffioedd dros y cyfnod gweithredu arfaethedig. Arhoswn am yr ymateb.

Roedd y gwaith o gyflawni ein Strategaeth Fusnes bum mlynedd (2013-18) wedi parhau trwy'r portffolio o brosiectau LR Connect. Ymysg pethau eraill rydym wedi cyflwyno cam cyntaf rhai o'n prosiectau gwasanaeth digidol, wedi recriwtio ein prentisiaid cyntaf erioed, wedi uwchraddio ein prif-ffrâm a gweithredu Ystafell Borth Rithwir. Rydym hefyd wedi dechrau'r gyfres nesaf o brosiectau a fydd yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd trwy leihau costau neu nifer y staff a bydd hefyd yn cynnig modd gwneud gwaith trawsnewidiol yn y dyfodol.

Ar 23 Ionawr 2014 lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar greu cwmni cyflenwi gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cofrestru tir gan gadw swydd y Prif Gofrestrydd Tir yn y llywodraeth. Ar 14 Gorffennaf 2014 cyhoeddodd y Llywodraeth ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn. Mae'n datgan: "Yn wyneb pwysigrwydd y Gofrestrfa Tir i weithrediad effeithiol marchnad eiddo'r DU, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai ystyriaeth bellach yn werthfawr. Felly, ar yr adeg hon, nid yw unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i newid model y Gofrestrfa Tir."

## c) Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad ar gyfer 2014/15 a hefyd yn dangos ein perfformiad yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth. Dyma'r flwyddyn olaf i ni adrodd yn erbyn yr ymrwymiadau cyfredol. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd trwy achrediad i ISO 14001.

Adroddir drwy:

- yr adroddiad hwn
- mewnbynnu data ar ePIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo electronig)
- adroddiadau cynaliadwyedd cyffredinol i'r llywodraeth, trwy'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau
- adrodd fel y bo angen yn ôl Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

### Crynodeb o berfformiad

Dyma'r flwyddyn olaf o'r targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth cyfredol ac rydym wedi cyrraedd pob un o'r prif dargedau erbyn y dyddiad gofynnol sef diwedd Mawrth 2015. Mae'r gostyngiadau canlynol wedi cael eu gwneud yn erbyn gwaelodlin 2009/10.

### Perfformiad allweddol yn erbyn targedau

| | **Cyflawnwyd** | **Targed** | **Targed wedi'i gyflawni** |
|---|---|---|---|
| Carbon | gostyngiad o 41% | gostyngiad o 25% | Ie |
| Gwastraff | gostyngiad o 54% | gostyngiad o 25% | Ie |
| Dŵr | gostyngiad o 33% | gostyngiad o 25% | Ie |

Yn ogystal bodlonwyd y gofynion canlynol o fewn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

- Rydym wedi parhau i adrodd ar nifer y swyddfeydd sy'n bodloni'r arferion gorau o ran defnyddio dŵr o 4m³ y person (gweler isod).
- Bodlonwyd y gofyniad i dorri allyriadau carbon o swyddfeydd y llywodraeth ganol gan 10 y cant yn 2010/11 a adroddwyd ar hyn trwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar yr adeg briodol.
- Bodlonwyd y gofyniad i dorri'r defnydd o bapur gan 10 y cant yn 2011/12 ac adroddwyd am hyn yn y flwyddyn briodol. Mae'r defnydd cyfredol o bapur yn cael ei nodi isod yn unol â gofynion adrodd Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.
- Mae caffael papur dolen gaeedig yn ffurfio rhan o'n proses prynu papur.
- Roedd ein cyflenwr Steria wedi bodloni'r gofyniad i sicrhau bod offer TGCh yn cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu'n gyfrifol. Disgwylir i gontract newydd gael ei osod i gyflawni'r gofyniad hwn.
- Rydym wedi gwella a chyhoeddi data ar effeithiau cadwyn gyflenwi. Mae data am garbon, dŵr a gwastraff yn cael ei adrodd. Mae'r hyrwyddwr caffael cynaliadwy, ynghyd â'r rheolwyr contract priodol, yn ymgysylltu â'n prif gyflenwyr effaith i bennu effeithiau cadwyn gyflenwi eraill. Ar ôl eu pennu, caiff y rhain eu cyhoeddi hefyd.
- Rydym wedi cynnwys Safonau Prynu'r Llywodraeth ym mhob contract caffael. Mae mabwysiadu Safonau Prynu'r Llywodraeth, lle y bo'n berthnasol, wedi'i gynnwys yn ein dogfennaeth model safonol, a ddefnyddir wrth baratoi gwahoddiadau newydd i dendro.

Ni chyrhaeddwyd y garreg filltir ar hediadau domestig o ostyngiad o 20 y cant dros y flwyddyn waelodlin o 2009/10. Nid oedd y data gwaelodlin oedd ar gael ar y pryd mor fanwl-gywir â'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd oherwydd y system gofnodi. Fodd bynnag mae hyn wedi gwella'n sylweddol erbyn hyn.

## Data perfformiad yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

| **Maes** | | **Perfformiad** | |
|---|---|---|---|
| | | **Gwirioneddol** | **targed gostyngiad 25% 2015** |
| **Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas** | Allyriadau carbon (tunelli) | 8,656 | 10,745[1] |
| | Gwariant (£) | 2,982,397 | |
| **Gwastraff** | Treuliant (tunelli) | 907 | 1,484[1] |
| | Gwariant (£) | 279,405 | |
| **Dŵr** | Defnydd ($m^3$) | 38,153 | 42,911 |
| | Gwariant (£) | 188,777 | |

1. Targed wedi'i ailosod yn unol â gwaelodlin Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

## Strategaeth ar gyfer y dyfodol

Ni ddisgwylid i'r lefel nesaf o dargedau cynaliadwyedd gael ei chyhoedd tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ac unrhyw gyhoeddiad dilynol am dargedau. Bernir y bydd y targedau hyn yn parhau i gymell llywodraeth ganol at fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau bod gofynion Deddf Newid Hinsawdd 2008 o ostyngiad o 34 y cant erbyn 2020 mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu bodloni.

Mae ein harolygon cyflwr adeiladau a'n blaengynlluniau cynnal a chadw yn helpu i sicrhau bod gwaith adnewyddu a chyfnewid mor gynaliadwy â phosibl.

Mae'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unol â gofynion Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth fel y nodir yng nghanllawiau'r Trysorlys.

# Carbon

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli cyfatebol o CO2)** | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpas 1 a 2 | 8,048 | 8,404 | 10,447 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 2,306 | 2,780 | 2,265 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpas 1 a 2 (h.y. wedi tynnu elfennau adnewyddadwy) | 6,839 | 5,624 | 8,182 |
| Allyriadau gros cwmpas 3 teithio[1] | 608 | 724 | 893 |
| **Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd** | **8,656** | **9,128** | **11,340** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | | |
| Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig, ac anadnewyddadwy) | 12,902 | 12,200 | 15,943 |
| Trydan: adnewyddadwy | – | – | – |
| Nwy | 6,989 | 8,355 | 11,567 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **19,892** | **20,555** | **27,510** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | |
| Gwariant ar ynni | 1,684 | 1,810 | 2,043 |
| Gwariant ar gredydau achrededig (e.e. Cronfa Credydau Carbon y Llywodraeth) | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,142 | 1,240 | 1,127 |

1. Mae allyriadau gros cwmpas 3 yn cynnwys yr holl deithio busnes sydd ar gael.

Nodyn: Mae data yn cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n meddiannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos gostyngiad mewn allyriadau carbon yn erbyn targed Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o 25 y cant erbyn Mawrth 2015.

Nodyn: Mae'r Arolwg Ordnans a'r GIG, sy'n defnyddio gwasanaethau canolfan ddata'r Gofrestrfa Tir, yn adrodd ar eu treuliant carbon yn uniongyrchol i'r llywodraeth. Mae hyn yn gyfystyr â 2,287,090kWh, sy'n golygu dileu 1,219 tunnell o garbon.

Nodyn: Trwy gydol yr adroddiad hwn mae ein data treuliant yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

| | Targed allyriadau nwyon tŷ gwydr flwyddyn ar ôl blwyddyn | Rhagolygon allyriadau nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys cymhellion) | Canran gostyngiad a ragwelir | Nwyon Tŷ Gwydr Gwirioneddol | Canran gostyngiad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 14,326.6 | 14,326.6 | – | 14,326.6 | – |
| 2010/11 | 13,610.3 | 14,326.6 | – | 13,099.0 | - 9% |
| 2011/12 | 12,893.9 | 14,326.6 | – | 11,211.0 | - 22% |
| 2012/13 | 12,177.6 | 14,326.6 | – | 11,340.0 | - 21% |
| 2013/14 | 11,461.3 | 14,326.6 | - 8% | 9,128.0 | - 36% |
| 2014/15 | 10,745.0 | 13,176.6 | - 9% | 8,656 | - 41% |

Mae'r llywodraeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i adroddiadau carbon gael eu disgrifio fel Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr. Defnyddiwn y gair carbon er hwylustod.

## Gwastraff

| | | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | 105 | 101 | 379 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ ailgylchu | 802 | 858 | 1,042 |
| | Ynni o wastraff | – | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **907** | **959** | **1,421** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | – | 144 | 197 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ ailgylchu | 180 | 146 | 218 |
| | Ynni o wastraff | 99 | – | – |
| | **Cyfanswm costau gwastraff** | 279 | **290** | **415** |

Mae'r tabl a'r graff drosodd yn dangos y tuedd ar gyfer gwastraff yn erbyn y targed gostyngiad Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o 25 y cant erbyn Mawrth 2015. Cyflawnwyd gostyngiad o 54 y cant. O'r gwastraff sy'n codi, mae 698 tunnell ohono yn bapur a anfonir i'w brosesu trwy'r ddarpariaeth ailgylchu papur dolen gaeedig o fewn y llywodraeth. Mae'r papur hwn yn cyfateb i 70 y cant o'r cyfanswm gwastraff sy'n codi.

Mae rheoli gwastraff yn cael ei gyflenwi trwy ddau lwybr. Mae gwastraff papur yn cael ei reoli trwy'r contract cyflenwi deunyddiau ysgrifennu â Banner sy'n gyfrifol o fewn y llywodraeth am y broses ailgylchu papur dolen gaeedig. Mae'r holl reoli gwastraff arall yn cael ei gyflenwi trwy'r contract rheoli cyfleusterau â Carillion

Mae tua 88 y cant o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu. Er nad oes unrhyw darged gan y llywodraeth ar hyn o bryd ar gyfer ailgylchu derbynnir yn gyffredinol mai'r meincnod delfrydol yw targed o 75 y cant.

Rydym yn gweithio gyda'r contractwyr gwastraff i sicrhau bod gofynion adrodd ychwanegol ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf ar wastraff wedi'u llosgi a gwastraff peryglus.

| | Targed gwastraff flwyddyn ar ôl blwyddyn (tunelli) | Gwastraff a ragwelir (gan gynnwys cymhellion) | Canran gostyngiad a ragwelir | Gwastraff gwirioneddol (tunelli) | Canran gostyngiad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 1,979.0 | 1,979 | – | 1,979 | – |
| 2010/11 | 1,880.1 | 1,979 | – | 1,443 | - 27% |
| 2011/12 | 1,781.1 | 1,979 | – | 1,689 | - 15% |
| 2012/13 | 1,682.2 | 1,979 | – | 1,421 | - 28% |
| 2013/14 | 1,583.2 | 1,679 | - 15% | 959 | - 51% |
| 2014/15 | 1,484.3 | 1,679 | - 15% | 907 | - 54% |

## Dŵr

| | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | | |
| **Defnydd** | | | |
| Wedi'i gyflenwi | 38,153 | 36,037 | 31,230 |
| Wedi'i dynnu | – | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **38,153** | **36,037** | **31,230** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **188** | **228** | **236** |

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos gostyngiad yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o 25 y cant erbyn Mawrth 2015. Cyflawnwyd gostyngiad o 33 y cant.

Mae ail linyn i reoli dŵr sy'n ymwneud â bodloni arfer gorau o lai na 4m$^3$ y person y flwyddyn. Mae pum swyddfa yn cyflawni hyn.

| | Targed dŵr flwyddyn ar ôl blwyddyn (m3) | Dŵr a ragwelir (gan gynnwys cymhellion) | Canran gostyngiad a ragwelir | Dŵr gwirioneddol (m3) | Canran gostyngiad gwirioneddol cronnus |
|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 57,214.0 | 57,214 | – | 57,214 | – |
| 2010/11 | 54,353.3 | 57,214 | – | 54,644 | - 4% |
| 2011/12 | 51,492.6 | 57,214 | – | 37,413 | - 35% |
| 2012/13 | 48,631.9 | 57,214 | – | 31,230 | - 45% |
| 2013/14 | 45,771.2 | 56,984 | – | 36,037 | - 37% |
| 2014/15 | 42,910.5 | 56,984 | – | 38,153 | - 33% |

## Defnydd o bapur

Rydym yn symud tuag at ddarparu gwasanaethau yn ddigidol ac o ganlyniad rydym wedi lleihau ein defnydd o bapur. Gostyngodd y defnydd o bapur A4 gan 31 y cant yn 2014/15.

## Addasu i newid hinsawdd

Mae ein Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd yn cael ei adolygu'n barhaus a chaiff ei ddiweddaru gyda gwybodaeth o'r arolygon cyflwr adeiladau sydd ar y gweill, sy'n cynnwys cyngor ar gyfer gwella mesurau gwrthsefyll newid hinsawdd. Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Mae gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu gwneud trwy'r contract rheoli cyfleusterau â Carillion. Yn arbennig mae gwelliannau wedi cael eu gwneud trwy nifer o fentrau cynnal a chadw tiroedd. Mae newidiadau i'r prosesau plannu wedi golygu bod y contractwr wedi gallu darparu rhywogaethau sy'n hybu bioamrywiaeth ehangach o ran annog gwenyn a gloÿnnod byw. Mae cynefinoedd sy'n ystyriol o bryfed wedi cael eu creu ac mae gwaith wedi cael ei gwblhau i sicrhau sefydlogrwydd y coed ar yr ystad.

## Caffael cynaliadwy yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

Mae ymdrech barhaus gan y Tîm Caffael Corfforaethol, ar y cyd â'u budd-ddeiliaid busnes a phrif gyflenwyr, yn golygu bod y tîm wedi cadw Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd y Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy. Mae mabwysiadu Safonau Prynu Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer pob eitem briodol a brynir yn cael ei gorffori fel 'busnes fel arfer' yn ein prosesau caffael.

Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'n prif gyflenwyr i adnabod a gwneud cynnydd ar gyfleoedd i wneud gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol, ac rydym wedi parhau i weithio ar faterion cynaliadwyedd. Rydym wedi parhau â'n gwaith o helpu elusen leol sy'n ceisio integreiddio pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i'r gymuned ehangach, ac wedi cymryd rhan gyda rhai o'n prif gyflenwyr mewn digwyddiadau codi arian elusennol.

## System Rheolaeth Amgylcheddol

Mae'r System Rheolaeth Amgylcheddol wedi'i hachredu i ISO 14001 ac mae wedi bod yn ei lle ers Ionawr 2001. Mae'r System Rheolaethau Amgylcheddol yn cwmpasu'r ystad swyddfeydd ac adeiladau eraill (canolfannau data). Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae'r system wedi bod yn destun archwiliadau mewnol ym mhob eiddo ac archwiliad allanol gan DNV mewn saith eiddo. Roedd ardystiad ISO 14001 wedi parhau yn dilyn yr archwiliadau. Mae'r archwiliadau allanol wedi cael eu

huno eleni â'r archwiliadau Iechyd a Diogelwch OHSA 18001 oherwydd mae synergedd sylweddol sy'n arwain at effeithlonrwydd cyfatebol.

## Llywodraethu

Mae perfformiad amgylcheddol yn destun archwiliad fel rhan o archwiliadau mewnol parhaus y System Rheolaeth Amgylcheddol. Mae'r archwiliadau yn gwirio cydymffurfiaeth pob eiddo a meysydd o effaith arwyddocaol ar berfformiad cynaliadwyedd fel TGCh Glasu'r Llywodraeth, Caffael Cynaliadwy a chyflenwi a rheoli cyfleusterau. Mae'r rhaglen archwilio mewnol yn cael ei harchwilio fel rhan o'r archwiliadau ardystio allanol i sicrhau bod camau unioni yn cael eu cwblhau.

Mae gwybodaeth am y defnydd o drydan a nwy yn cael ei chymryd yn uniongyrchol o'r anfonebau a dderbynnir gan gyflenwyr.

Mae pob mesurydd cyfleustodau yn cael ei ddarllen bob mis gan y contractwr rheoli cyfleusterau ac mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Rheolwr Cynaliadwyedd. Mae'r defnydd o ddŵr yn cael ei gymryd o'r wybodaeth hon a defnyddir darlleniadau eraill i wirio dilysrwydd anfonebau yn achlysurol.

Mae'r data yn cael ei gasglu a'i gofnodi yn unol â gofynion Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a'i roi ar ePIMS bob mis yn ôl yr angen.

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwy. Fe'i rheolir drwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan ein Huwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a Carillion.

# ch) Busnes cyfrifol

Rydym wedi ymrwymo i berfformio fel busnes cyfrifol, a darparu anogaeth a chymorth i'n pobl er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y nod hwnnw.

Rydym yn cydweithio'n agos â Busnes yn y Gymuned i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo a chorffori ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad. Gyda chymorth Busnes yn y Gymuned, a thrwy eu hymdrechion eu hunain, mae pobl y Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli yn y gymuned, ac rydym yn parhau i'w hannog a'u cefnogi i wneud hynny gyda chymorth ein polisi gwirfoddoli a rheolwyr cefnogol. Yn 2014/15, roedd 150 o aelodau staff wedi gwirfoddoli ar draws amrywiaeth o weithgareddau.

Er enghraifft, gan weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr o sefydliadau eraill yn yr ardal, mae aelodau staff o Swyddfa Plymouth wedi parhau i fod yn weithgar iawn yn y gymuned, gan wirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi gyda Shekinah Mission fel rhan o raglen Barod am Waith sy'n ceisio helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Mae'r rhaglen yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar gyflogadwyedd, gan ganolbwyntio ar sgiliau gwaith hanfodol fel gweithio mewn tîm a gwrando gweithredol, sy'n helpu i fagu hunanhyder ar gyfer lleoliadau gwaith dilynol. Mae ein gwirfoddolwyr yn cael cyfle i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau y gallant ddod yn ôl gyda nhw i'r gweithle.

Mae codi arian elusennol wedi parhau i fod yn rhan amlwg o'n hymrwymiad i fusnes cyfrifol, gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar draws ein swyddfeydd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain wedi cynnwys cymryd rhan mewn rasys hwyl a digwyddiadau chwaraeon eraill, gwerthu cacennau a chasglu ar gyfer banciau bwyd, yn ogystal â chefnogi digwyddiadau cenedlaethol fel Diwrnod Trwyn Coch, Plant mewn Angen a Tashwedd.

Gan barhau â llwyddiant blynyddoedd blaenorol, daeth timau o Swyddfa Hull yn gyntaf ac yn ail yn Her Gerdded flynyddol yr Elusen i Weision Sifil, gan helpu i godi arian hollbwysig i'r elusen. Ar y thema o les staff, mae Pwyllgor Iechyd a Lles penodedig ym mhob un o'n swyddfeydd, sy'n datblygu mentrau ac yn cefnogi gweithgareddau i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a lles corfforol ac emosiynol ein pobl.

Yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, rydym yn parhau i weithredu fel busnes cyfrifol mewn ffyrdd eraill, fel sicrhau ein bod yn talu anfonebau ein cyflenwyr yn brydlon i helpu gyda'u llif arian a chynllunio busnes. Mae cynaliadwyedd a rheolaeth amgylcheddol yn parhau i chwarae rôl amlwg yn ein hymagwedd at berfformiad busnes cyfrifol. Rydym wedi rhannu syniadau ac arbenigedd mewn busnes cyfrifol â chydweithwyr o adrannau eraill y llywodraeth, yn arbennig ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

# d) Incwm a pherfformiad busnes

**Incwm**
Mae incwm yn cael ei gynhyrchu gan ein gwasanaethau statudol a'n gwasanaethau masnachol fel a ganlyn.

Mae adran 102 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn datgan y gall ffioedd gael eu rhagnodi ar gyfer 'deliadau' â'r Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn cwmpasu ffioedd ar gyfer ein gwasanaethau statudol, sef y ceisiadau i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer cofrestru tir, fel ceisiadau i gofrestru trosglwyddiad neu arwystl eiddo neu gael copi swyddogol o'r gofrestr.

Mae'r awdurdod ar gyfer y lefel ffioedd ar geisiadau i'r Gofrestrfa Tir yn deillio o'r gorchymyn ffi a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau o dan adran 102. Mae gorchmynion yn cael eu gwneud gyda chyngor a chymorth Pwyllgor Rheolau Cofrestru Tir (corff cyhoeddus anadrannol cynghorol sy'n cynrychioli buddiannau budd-ddeiliaid a chyfreithiol) a chydsyniad Trysorlys EM. Pan fydd y gorchymyn wedi cael ei wneud, mae'n cael ei roi gerbron y Senedd. Sefydlwyd y ffioedd cyfredol o dan Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013.

Mae'r gorchymyn ffi yn gymwys i geisiadau ar gyfer: cofrestru'r teitl i dir am y tro cyntaf ('cofrestriadau cyntaf'); prydlesi cyntaf gwaredol; trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig; ceisiadau sy'n effeithio ar deitl cofrestredig ('deliadau'); ac amrywiaeth o wasanaethau sy'n ymwneud ag archwilio, copïau a chwiliadau o'r gofrestr.

**Pridiannau tir a chredydau amaethyddol**
O dan y Ddeddf Pridiannau Tir 1972, rydym yn cadw cofrestri o bridiannau tir, gweithredoedd sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo, sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. O dan adran 16 o'r Ddeddf, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yr awdurdod i osod ffioedd trwy gyfrwng offeryn statudol gyda chydsyniad Trysorlys EM. Mae'r ffioedd cyfredol wedi'u pennu yn Rheolau Ffioedd Pridiannau Tir 1990 fel y'u diwygiwyd gan Reolau Ffioedd Pridiannau Tir (Diwygiad) 1994.

Yn ogystal, o dan y Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928 rydym yn cadw cofrestr o bridiannau amaethyddol a wnaed o dan Ran II o'r Ddeddf. O dan Adran 9 o'r Ddeddf, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yr awdurdod i osod ffioedd trwy gyfrwng offeryn statudol gyda chydsyniad Trysorlys EM. Mae'r ffioedd cyfredol wedi'u gosod yng Ngorchymyn Ffioedd Credydau Amaethyddol 1985.

**Incwm masnachol**
Yn deillio o'r fenter Marchnadoedd Ehangach a sefydlwyd gan Drysorlys EM yn 1998, roedd adran 105 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, yn rhoi awdurdod i'r Prif Gofrestrydd Tir i "ddarparu, neu drefnu i ddarparu, gwasanaethau ymgynghori neu gynghori ynghylch cofrestru tir yng Nghymru a Lloegr neu fan arall". Mae adran 35 o'r Ddeddf Seilwaith 2015 yn ehangu'r pwerau hyn er mwyn galluogi'r Gofrestrfa Tir i ddarparu (a) gwasanaethau ymgynghori a chynghori am dir ac eiddo arall yng Nghymru a Lloegr neu fan arall a (b) gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau sy'n ymwneud â dogfennau neu gofrestri, sy'n gysylltiedig â thir neu eiddo arall yng Nghymru a Lloegr.

Rydym wedi cydnabod ers amser bod y data rydym yn ei gadw yn gallu darparu a hybu buddion economaidd sylweddol yn yr economi ehangach trwy ei ailddefnyddio. Yn 2004 sefydlwyd ein swyddogaeth Gwasanaethau Masnachol o dan awdurdod adran 105, at y dibenion o adnabod ffyrdd o roi mynediad mwy effeithiol i'r data a hefyd ychwanegu gwerth trwy greu gwasanaethau penodol.

Yng Ngorffennaf 2011 symudom i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a dod yn aelod sefydlol o'r Grŵp Data Cyhoeddus ochr yn ochr â Thŷ'r Cwmnïau, y Swyddfa Fetereolegol ac Arolwg Ordnans. Un o brif nodau'r grŵp yw cefnogi Agenda Tryloywder y Llywodraeth, y mae ei egwyddorion wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Fusnes bum mlynedd a gymeradwywyd gan weinidogion yn Rhagfyr 2012.

Yn dilyn hyn mae ffocws y gweithgarwch masnachol wedi symud o ddatblygu gwasanaethau masnachol newydd a chodi refeniw i ddarparu mynediad gwell i ddata trwy gyhoeddi setiau data. Yn 2012/13 cyrhaeddodd nifer y gwasanaethau masnachol (a refeniw dilynol) fan gwastad ond rhyddhawyd pum set data agored.

Mae'r portffolio masnachol presennol, a gynhyrchodd incwm o £4.6m eleni, yn cael ei gynnig i amrywiaeth o farchnadoedd o dan fodel prisio cymysg. Mae'r portffolio yn cynnwys 17 o gynhyrchion gan gynnwys amrywiaeth o wasanaethau glanhau data, dilysu gofodol a dilysu data.

Cydymffurfiwn â'n dyletswydd i beidio â chroes-gymorthdalu ein gwasanaethau masnachol ag incwm ffioedd mewn perthynas â'n gwasanaethau statudol. Gall costau datblygu ar gyfer cynhyrchion newydd gael eu cyllido, o bryd i'w gilydd, gan enillion arian parod

ond mae'r costau hyn yn cael eu hadennill o refeniw yn y dyfodol. Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Atodiad 6.2 Codi Tâl am Wybodaeth, mae'r taliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwasanaethau masnachol ar sail 'cost plws', ond mae rhai yn adlewyrchu cyfradd y farchnad. Mae prisio cyhoeddi data yn seiliedig ar y tair egwyddor o ddata agored (am ddim), adennill costau a threialu mynediad.

**Perfformiad busnes**
Ein pwrpas yw galluogi rhyddhau gwerth economaidd mewn tir ac eiddo a marchnadoedd data cysylltiedig.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n arwain y byd ym maes gwasanaethau cofrestru tir digidol a rheoli ac ailddefnyddio data tir ac eiddo.

Mae ein pedwar amcan strategol - effeithlonrwydd, data, sicrwydd a gallu - wedi'u nodi uwchben pob un o'r targedau perthnasol rydym yn adrodd arnynt isod.

Ar 8 Mai 2014 cyhoeddwyd ein saith targed dangosydd perfformiad allweddol busnes fel arfer yn y datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar gyfer 2014/15. Mae ein perfformiad wedi'i grynhoi isod.

| | Dangosydd perfformiad allweddol/amcan | Perfformiad |
|---|---|---|
| | **Effeithlonrwydd** | |
| | *Byddwn yn datgloi effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus ac yn y farchnad tir ac eiddo* | |
| E1 | Cost yr uned i fod yn £19.68 yn seiliedig ar niferoedd arfaethedig o 11.65 miliwn o unedau | Cyflawnwyd 19.29 |
| E2 | Cyflawni o leiaf 12 uned wedi'u prosesu, y person, y dydd, ar sail asiantaeth gyfan | Cyflawnwyd 12.2 |
| | **Data** | |
| | *Byddwn yn ailddefnyddio data i'r eithaf er budd yr economi ehangach* | |
| D1 | Argaeledd e-wasanaeth allanol ar gyfartaledd yn 99.6 y cant neu'n uwch yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddedig | Cyflawnwyd 99.93% |
| D2 | Cynyddu nifer y deliadau (â'r cyfan o deitl cofrestredig) a anfonwyd yn electronig i gyrraedd 65 y cant o berfformiad misol erbyn Mawrth 2015 | Cyflawnwyd 83.93% |
| | **Sicrwydd** | |
| | *Byddwn yn cynyddu ac yn ehangu'r sicrwydd a'r gydymffurfiaeth a ddarperir i'r farchnad* | |
| S1 | Canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog i gyrraedd 96 y cant | Heb ei Gyflawni 94% |
| S2 | Cofrestriadau safonol i basio o leiaf 98 y cant o'r gwiriadau ansawdd diffiniedig | Cyflawnwyd 98.2% |
| | **Gallu** | |
| | *Byddwn yn tyfu ac yn manteisio i'r eithaf ar fudd ein gallu sefydliadol* | |
| G1 | Cynnal sgôr mynegai gyson wedi'i chyfrifo o fasged o bedwar mesur sy'n ceisio mesur cymhelliad a pherfformiad ein gweithlu | Cyflawnwyd 9.8 |
| | Nodyn: Mae'r dangosydd hwn yn mesur dangosyddion iechyd sefydliadol fel diwrnodau datblygu, salwch a thegwch wrth ddosbarthu marciau perfformiad ar draws grwpiau nodweddion gwarchodedig. Y sgôr pasio yw llai nag 11. | |

## Sylwebaeth

Cyrhaeddwyd chwech o'r saith targed heriol.  Dilyswyd hyn gan Archwilio Mewnol.

At ei gilydd rydym wedi gwneud cyflawniadau sylweddol mewn blwyddyn a welodd gynnydd yn ein llwythi gwaith a rhywfaint o ansicrwydd ynghylch ein dyfodol yn y misoedd cynnar.

## Amrywiaeth

Gwnaethpwyd cynnydd da yn erbyn ein dau amcan cydraddoldeb pedair blynedd. Ymysg y pigion ar gyfer yr amcan allanol oedd sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn cynnwys dewisiadau ystyriol o amrywiaeth a'u bod yn bodloni ymrwymiadau'r Llywodraeth o dan ei strategaeth cynhwysiant digidol.  Roedd y pigion ar gyfer yr amcan mewnol yn cynnwys darparu hyfforddiant rhagfarn anymwybodol i bob rheolwr llinell.

**Amcan cydraddoldeb mewnol**
Hybu diwylliant o gynhwysiant a pharch o fewn ein sefydliad a cheisio gwella ymgysylltu â staff sydd â nodweddion gwarchodedig cyffredin mewn ffordd gadarnhaol.

**Amcan cydraddoldeb allanol**
Galluogi ein staff i adnabod, rhagweld a bodloni anghenion amrywiol ein cwsmeriaid drwy ddarparu cynhyrchion, gwasanaethau a sianeli am bris y gall y ddau ohonom ei fforddio.

Rydym yn monitro ein cynnydd o ran cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn yn ôl pa mor dda rydym yn clirio'r gweithredoedd manwl drwy'r Pwyllgor Amrywiaeth. Adroddwn yn allanol trwy'r Adroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb blynyddol sydd i'w weld ar dudalen Cydraddoldeb ac amrywiaeth ein gwefan www.gov.uk/government/organisations/land-registry.

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015



Catrina Holme
Cyfarwyddwr Anweithredol



John Peaden
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro



Gerard Connell
Cyfarwyddwr Anweithredol



Tim Franklin
Cyfarwyddwr Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Catherine Vaughan
Cyfarwyddwr Cyllid



Leo Geddes
Cyfarwyddwr Anweithredol, cynrychiolydd y Weithrediaeth Cyfranddalwyr

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## a) Rhwymedigaethau pensiwn

Mae manylion trin rhwymedigaethau pensiwn ar gael yn nodyn 1.8 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad Tâl.

## b) Manylion y cyfarwyddwyr ac aelodau Bwrdd

### Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn un goruchwyliol yn bennaf. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus, yn gosod strategaeth y Gofrestrfa Tir ac yn helpu'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei gyfrifoldeb pennaf fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu a pherfformiad y Gofrestrfa Tir.

Cymeradwywyd cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn haf 2012 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cwrdd yn ffurfiol 10 gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd ychwanegol fel a phryd y bo angen. Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y Bwrdd 11 cyfarfod. Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cynnal cyfarfodydd cyfranddalwyr bob tri mis â'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

Ymunodd Graham Farrant a'r Gofrestrfa Tir ar 1 Mehefin 2015.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Leo Geddes | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 22 Gorffennaf 2014) |
| Kirsty Pearce | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 13 Gorffennaf 2014) |
| Ed Lester | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (tan 18 Mawrth 2015) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac (o 19 Mawrth 2015) Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 9 Mai 2014) |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 28 Ebrill 2014 tan 16 Ionawr 2015) |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid (o 5 Ionawr 2015) |
| Mike Westcott-Rudd | Ysgrifennydd Cwmni |



Mark Boyle
Cadeirydd Anweithredol

# Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Rheoli Blynyddol y Gofrestrfa Tir ac am reoli gweithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 12 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl i Ed Lester adael ymgymerodd John Peaden â'r swydd. Cafodd y swydd Cyfarwyddwr Cyllid ei llenwi yn barhaol yn dilyn dau Gyfarwyddwr Cyllid dros dro.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Ed Lester (Cadeirydd) | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (tan 18 Mawrth 2015) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac (o 19 Mawrth 2015) Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro |
| Maggie Telfer | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro (o 19 Mawrth 2015) |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 28 Ebrill 2014 tan 16 Ionawr 2015) |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 9 Mai 2014) |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid (o 5 Ionawr 2015) |
| Caroline Anderson | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro (o 5 Ionawr 2015) |
| Eddie Davies | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro (tan 5 Medi 2014) |
| Paul Dowse | Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro |
| Mike Westcott-Rudd | Ysgrifennydd Cwmni |


Alasdair Lewis
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir


Caroline Anderson
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol


Rowland Coombs
Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth


Maggie Telfer
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro



Jon Parry
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro



Mike Westcott-Rudd
Ysgrifennydd Cwmni



Paul Dowse
Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r pwyllgor yn cefnogi Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a safonau allanol a gofynion statudol.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Tim Franklin (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol |
| **Mynychwyr** | |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (tan 9 Mai 2014) |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (o 12 Mai 2014 tan 16 Ionawr 2015) |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid (o 5 Ionawr 2015) |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ed Lester | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (tan 18 Mawrth 2015) |

## Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth dâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil y Gofrestrfa Tir ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer dilyniant i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

| **Aelodaeth** | |
|---|---|
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Ed Lester | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr (tan 18 Mawrth 2015) |
| John Peaden | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 19 Mawrth 2015) |

## c) Data absenoldeb salwch a cholli gwybodaeth

Mae manylion absenoldeb salwch i'w gweld ar y dudalen Gwybodaeth yn gryno (gweler tudalen 37). Mae digwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u cwmpasu o fewn y datganiad Llywodraethu (tudalen 41).

## ch) Gwybodaeth i'r archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwiliwr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015



# Gwybodaeth yn gryno

## Pobl

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth | 4,428 | 4,462 |
| Cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth | 3,968 | 3,999 |
| Diwrnodau salwch fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 6.3 | 6.2 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 5.2 | 4.3 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis (Hydref - Mawrth) | 35.7 | N/A |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 2.7% | 2.6% |
| Gweithwyr benyw | 60% | 61% |
| Gweithwyr rhan-amser | 37% | 37% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 4% | 4% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 8% | 7% |

### Adnoddau

Mae ein trefniadau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn destun monitro mewnol.

Yn 2014/15 cafodd 12 gweithiwr eu recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil i swyddi arbenigol parhaol ac un i'r Uwch Wasanaeth Sifil; trosglwyddodd 11 yn barhaol i'r Gofrestrfa Tir ac ymunodd 18 ar fenthyciad o adrannau eraill o'r llywodraeth; trosglwyddodd 10 gweithiwr i'r Gofrestrfa Tir o dan Reoliadau TUPE o ganlyniad i'r adolygiad o'n contractau seilwaith TG. Yn ogystal, cafodd 29 o weithwyr eu recriwtio yn ystod y flwyddyn ar gontractau cyfnod sefydlog.

Mae gweithgarwch adnoddau wedi rhoi sylw i nifer o ofynion.

- Uwch benodiadau allweddol i sicrhau bod tîm arweinyddiaeth sefydlog gennym yn ei le.
- Gwella meysydd cymhwysedd penodol, yn enwedig ym maes rheoli rhaglen a sgiliau caffael/masnachol.
- Rhoi sylw i anghenion rheng-flaen i gynnal safonau cyflenwi gwasanaeth ar adeg sy'n gweld ein gweithlu yn heneiddio.
- Lleihau lefelau adnoddau mewn meysydd sgiliau sydd wedi gwasanaethu'r sefydliad yn dda yn y gorffennol ond nid oes eu hangen mwyach


Penodwyd Cyfarwyddwr Cyllid parhaol ac ymgymerodd â'i rôl yn Ionawr 2015. Aildrefnwyd y swyddogaeth rheoli rhaglenni a phrosiectau a rhoddwyd sylw i'r bylchau sgiliau gyda'r penodiadau parhaol newydd ac ychwanegu staff ar gyfer cyfnod penodedig. Mae penodiadau gradd gweinyddol dros dro wedi cael eu gwneud i roi sylw i anghenion byrdymor i ddarparu adnoddau ar gyfer categori gwaith sy'n crebachu.

Mae cynllun prentisiaeth wedi cael ei gyflwyno sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ennill cymhwyster mewn Gweinyddu Busnes a dysgu'r sgiliau technegol a allai arwain at gyflogaeth barhaol yn y dyfodol gyda'r Gofrestrfa Tir, gan felly creu'r sail i weithlu cynaliadwy yn y dyfodol. Derbyniwyd 80 o brentisiaid i gychwyn. Mae'r Gymdeithas Rheolwyr Pobl y Gwasanaeth Sifil wedi cynnwys ein hymgyrch recriwtio ar restr fer ar gyfer gwobr.

Mae contractwyr oddi ar y gyflogres wedi cael eu defnyddio i ateb anghenion byrdymor mewn meysydd arbenigol. Mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth a datgeliadau wedi'i chynnwys yn yr adroddiad Tâl ar dudalen 59. Ar 31 Mawrth 2015 roeddem yn defnyddio 27 o gontractwyr.

Mae nifer o becynnau ymadael gwirfoddol wedi ein galluogi i ryddhau pobl sydd â'r sgiliau nad oes eu hangen mwyach ac adfywio meysydd arbenigol bach o'r gweithlu.

**Gweithwyr: cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn**




## Iechyd a lles

Mae iechyd a lles ein staff yn bwysig i ni. Eleni rydym wedi parhau i ddarparu mentrau sydd wedi adeiladu ar sylfeini ein strategaethau iechyd, lles a phresenoldeb. I gydnabod y newidiadau sy'n digwydd i'r Gofrestrfa Tir hyn o bryd, mae gwaith wedi canolbwyntio ar hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd meddwl er mwyn rhoi cymorth effeithiol i'n staff.

Yn 2014/15 roeddem wedi:

- cymryd rhan yn Her Gerdded flynyddol yr Elusen i Weision Sifil am y trydydd tro yn olynol. Unwaith eto ni oedd yn o'r tair adran orau gyda thimau buddugol a thimau a ddaeth yn ail
- cyrraedd lefel absenoldeb salwch o 6.3 o ddiwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd
- hyrwyddo a chymryd rhan yn nigwyddiadau diwrnod iechyd meddwl Amser Newid, Amser Siarad
- cyflwyno amrywiaeth o fforymau sy'n rhoi canllawiau a chyngor i reolwyr llinell ar sut i helpu staff i ddelio â phroblemau iechyd meddwl, galar a salwch difrifol, a chamddefnyddio sylweddau.

Mae lles staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o'r gweithgareddau allweddol canlynol.

- Sesiynau sgrinio iechyd a 'gwybod eich rhifau' sy'n cynnig cyfle i staff fonitro pwysau gwaed, mynegai màs y corff a cholesterol.
- Hyrwyddo a chymryd rhan mewn cynllun beicio i'r gwaith.
- Cynnig gwasanaeth cymorth i weithwyr a rheolwyr i helpu staff a rheolwyr i ddelio â phroblemau emosiynol, iechyd a chymdeithasol.
- Darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol, gyda gwefan iechyd a lles gysylltiedig a darparu deunyddiau hyrwyddo misol.
- Ymgyrchoedd iechyd adrannol a chyhoeddi amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth iechyd a lles trwy'r fewnrwyd, gan gynnwys calendr iechyd a lles a blogiau rheolaidd.

## Gallu

Rhoddwyd pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ein pobl. Rydym wedi canolbwyntio ar y pedwar maes â blaenoriaeth a nodwyd gan Gynllun Gallu'r Gwasanaeth Sifil - arweinyddiaeth newid, masnachol, digidol a rheoli prosiectau - i hwyluso newid, adeiladu gallu arweinyddiaeth a datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i greu sefydliad hyblyg, effeithiol ac effeithlon.

Yn 2014/15 cymerwyd camau cadarnhaol tuag at greu ymagwedd hyfforddi at drosglwyddo gwybodaeth yn fwy effeithiol a defnyddiwn y wybodaeth gyffredin honno i adeiladu sgiliau a gallu. Rydym yn paratoi ar gyfer yr heriau sydd o'm blaenau trwy adeiladu darlun o'r gallu sydd ei angen i gefnogi datblygiad timau ystwyth a gwasanaethau digidol newydd a thrwy barhau i ddatblygu rheolaeth ac adeiladu tîm arweinyddiaeth. Mae ein cynllun prentisiaeth wedi cael ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Doniau Ifanc PPMA sy'n cydnabod rhagoriaeth ym maes datblygu pobl.

Buom yn gweithio i gynyddu dealltwriaeth ein staff o sut y mae dysgu'n digwydd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gan arwain at fwy o amrywiaeth o weithgarwch dysgu yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gyson yn anffurfiol ac yn ffurfiol â staff a'u cynrychiolwyr.

Estynnir gwahoddiad agored i staff e-bostio'r Bwrdd Gweithredol gyda chwestiynau ac atebion yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd.

Rydym wedi parhau i gydweithio â thimau rheoli i ddatblygu ac ehangu cyfarfodydd tîm strwythuredig rheolaidd. Y nod yw creu amgylchedd lle mae perfformiad yn cael ei drafod yn agored, wedi'i gynnal gan ddata ystyrlon, a chroesewir syniadau ar gyfer gwelliannau i arferion gwaith.

Mae rheolwyr hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cyfarfodydd hyn i siarad â'u staff am faterion sefydliadol ehangach a newid ac i drafod pryderon staff am y rhain. Mae'r ymagwedd at gyfathrebu ar ddyfodol y Gofrestrfa Tir wedi cynnwys lansio'r cylchlythyr LR Connect a gyhoeddir bob pythefnos, diweddariadau uniongyrchol gan uwch reolwyr, trafodaethau â staff a gwybodaeth gan gynnwys cwestiynau ac atebion wedi'u cyhoeddi ar y fewnrwyd.

Rydym yn cwrdd â'n hundebau yn rheolaidd. Ddwywaith y flwyddyn bydd y Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd adrannol Cyngor Whitley. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd Whitley lleol, a byddwn hefyd yn ymgynghori â nhw ar faterion penodol. Mae meysydd o bryder i'r ddwy ochr yn cael eu trafod, ac er nad ydynt bob amser yn cael eu datrys, mae barn yn cael ei cheisio os yw'n bosibl cyn gwneud y newidiadau terfynol a'u gweithredu. Rydym wedi ymgysylltu â'r undebau mewn rhai ffyrdd mwy arloesol ynghylch yr ymagwedd at ein rhaglenni newid presennol yn ogystal â siarad am faterion sy'n cael eu codi gan staff i'w cynrychiolwyr.

Mae wedi bod yn flwyddyn o heriau i'r sefydliad ac felly, er ei fod yn siomedig, roedd efallai'n ddealladwy bod canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn dangos bod ein sgoriau ymgysylltu wedi gostwng ym maes arweinyddiaeth a rheoli newid. Rydym wedi ymrwymo i wella hyn ac wedi penodi arweinydd ar y Bwrdd Gweithredol i fod yn gyfrifol am ddangosydd perfformiad allweddol ar ymgysylltu. Bydd amrywiaeth o ymagweddau a gweithredoedd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn gydweithio fel sefydliad i greu amgylchedd lle mae staff a rheolwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi ac wedi'u cysylltu.

Mae cynnal trafodaethau adeiladol â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a lles, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol) ac ymweliadau cyfarwyddwyr â sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol i sicrhau bod barn ein gweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Amrywiaeth

Gwnaethpwyd cynnydd da yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb strategol pedair blynedd (gweler tudalen 31), a oedd yn rhedeg tan 31 Mawrth 2016.

Un o'r prif weithgareddau eleni oedd darparu hyfforddiant rhagfarn anymwybodol i bob rheolwr llinell, gan ganolbwyntio ar sicrhau eu bod nhw'n adnabod ac yn deall unrhyw ragfarn wrth ddelio â materion pobl, yn enwedig o ran recriwtio a rheoli perfformiad.

Mae ein Gweithgor Amrywiaeth, sy'n cyfuno grwpiau rhwydwaith staff ar gyfer gweithwyr lleiafrifoedd ethnig, anabl a lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth adnabod a chodi materion cysylltiedig ag amrywiaeth sy'n effeithio ar weithwyr a chwsmeriaid. Cafodd ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Rhwydwaith Gweithwyr y Flwyddyn y Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Mae aelodau'r grŵp rhwydwaith wedi:

- helpu ein datblygwyr digidol i feddwl am ein cwsmeriaid amrywiol wrth ddylunio gwasanaethau newydd
- cymryd rhan mewn gweithdai sy'n adolygu cynhyrchion digidol newydd i sicrhau eu bod yn bodloni ymrwymiadau'r Llywodraeth o dan ei strategaeth cynhwysiant digidol
- cynorthwyo gyda'n rhaglen fentora o chwith newydd ar gyfer hyrwyddwyr Bwrdd amrywiaeth newydd ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol/crefydd, anabledd ac ethnigrwydd
- hyrwyddo Mis Hanes Du, Mis Hanes Anabledd a Mis Hanes pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol.

Mae deall proffil demograffig ein gweithwyr yn agwedd bwysig ar ein gwaith amrywiaeth, gan sicrhau ein bod yn symud unrhyw rwystrau i gynhwysiant, ac mae ein prosiect datganiad wedi ffurfio gweithgaredd allweddol ar ein hamcan cydraddoldeb mewnol. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld ychydig o gynnydd yng nghyfraddau datganiad gweithwyr ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Rydym yn dadansoddi data ar draws holl weithgarwch AD a chyhoeddwyd ein trydydd Adroddiad Gwybodaeth Cydraddoldeb ym mis Medi (www.gov.uk/government/organisations/land-registry>Corporate information>Equality and diversity).

Mae monitro amrywiaeth yn ein helpu ni i adnabod rhaglenni gweithredu cadarnhaol ac rydym wedi parhau i ddarparu ein cwrs Pathways sydd wedi'i anelu at staff lleiafrifoedd ethnig, anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol iau gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth o fewn y graddau rheolwyr canol.

Mae gwaith ar ein hamcan cydraddoldeb allanol wedi canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid amrywiol. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion cwsmeriaid am gydraddoldeb, ynghyd ag adolygu ein canllawiau staff ar gyfer delio â chwsmeriaid sydd ag anghenion arbennig, a gweithdai ymwybyddiaeth amrywiaeth i staff ar y rheng flaen sy'n gweithio yn ein canolfannau cyswllt cwsmeriaid a dinasyddion

## Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein canllawiau, prosesau a pholisïau iechyd a diogelwch, gyda chymorth gan Carillion. Rydym wedi adolygu a diwygio ein meddalwedd asesu offer sgrin arddangos mewn ymateb i'r lefel gynyddol o weithio ar-lein a gyflwynwyd gan y newidiadau i'r ffordd y mae gwaith yn cael ei brosesu. Rydym wedi parhau i fonitro staff sy'n gyrru i'r gwaith hefyd er mwyn sicrhau bod eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles wedi'u diogelu y tu allan i'r swyddfa.

Cyfanswm y damweiniau a adroddwyd gan staff y Gofrestrfa Tir yn y gwaith oedd 104, i lawr o 112 y flwyddyn flaenorol. Cafodd dwy ddamwain eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus, lleihad o ddwy ers 2013/14. Mae'r Strategaeth Lleihau Damweiniau dair blynedd wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o barhau i leihau'r lefelau o ddamweiniau a adroddir ar safleoedd y Gofrestrfa Tir.

Roeddem yn hynod falch i dderbyn ardystiad i OHSAS 18001, y Safon Brydeinig ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Cynhaliwyd yr archwiliad ardystio ym Mehefin 2014 a chafodd ein hardystiad parhaus i'r safon ei gadarnhau eto gan archwiliad allanol yn Ionawr 2015. Mae hyn yn cael ei gweld yn gam pwysig ymlaen yn natblygiad ein system rheoli iechyd a diogelwch ac yn rhoi sicrwydd parhaus ein bod yn cyd-fynd â'r model arfer gorau cydnabyddedig hwn.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae digwyddiadau sydd ym marn y rheolwr data heb eu cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn yr adran, i'w gweld isod. Nid yw digwyddiadau bach cyfyngedig yn cael eu cofnodi'n ganolog ac nid ydynt wedi'u nodi yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y llywodraeth | 3 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y llywodraeth | 6 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | 0 |
| IV | Datgeliadau heb eu hawdurdodi | 7 |
| V | Arall | 3 |
| **Cyfanswm** | | **19** |

Mae achosion yn cael eu cwmpasu gan y Tîm Corfforaethol Cyfreithiol a Sicrwydd a'u hadrodd i'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth. Mae argymhellion a gymeradwyir gan y Pwyllgor yn cael eu rhoi ar waith.

## Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus drwy ddilyn y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae diogelu gwybodaeth yn cael ei gymryd o ddifrif ac mae hyfforddiant Cyfrifol am Wybodaeth blynyddol yn orfodol ar gyfer ein staff. Rydym hefyd wedi hyrwyddo dealltwriaeth glir o'r Polisi Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth newydd. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio'r broses rheoli risg gwybodaeth, sy'n cael ei mesur trwy achrediad allanol (ISO 27001) a hunanasesiad sy'n cael ei herio'n annibynnol (drwy ddefnyddio Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth - IAMM).

## Cofrestru tir

Cofrestrwyd 281,992 hectar am y tro cyntaf, gan gymryd cyfanswm yr arwynebedd cofrestredig i 13,274,602 hectar neu 86.1 y cant o Gymru a Lloegr. Mae hyn er gwaetha'r cyflwr marchnad anodd a'r gyfraith o enillion llai ar gyfer cofrestriadau cyntaf.

# Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

**Yr Adran Pridiannau Tir**
Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai o Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

**Yr Adran Credydau Amaethyddol**
Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Gweler Atodiad C ar gyfer niferoedd a llwythi gwaith y ddwy adran.

# Deddfwriaeth

**Pridiannau Tir Lleol a Phwerau Ehangach**
Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Seilwaith ar 12 Chwefror 2015. Mae ei darpariaethau yn caniatáu i'r Gofrestrfa Tir fod yr unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol a darparwr canlyniadau chwilio swyddogol Pridiannau Tir Lleol ac yn rhoi pwerau ehangach i ni ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, dogfen a chofrestr sy'n ymwneud â thir ac eiddo arall.

# Y Pwyllgor Rheolau

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond ers trosglwyddo cyfrifoldeb gweinidogol am y Gofrestrfa Tir i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf.

Ni ofynnwyd i'r pwyllgor roi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd ni chafodd unrhyw reolau cofrestru tir neu orchmynion ffi eu llunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Ddeddf Seilwaith 2015, a gafodd ei phasio ar 12 Chwefror 2015, yn diwygio Deddf Cofrestru Tir 2002 felly mae pŵer yr Arglwydd Ganghellor i enwebu aelod materion defnyddwyr y pwyllgor yn cael ei drosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol. Daeth y ddarpariaeth berthnasol i rym ddau fis ar ôl pasio'r Ddeddf.

# Gwybodaeth agored a llawn

Croesawn agendâu tryloywder a data agored y Llywodraeth gan ddiogelu gwybodaeth yn briodol yr un pryd. Mae ein Rhaglen Ddata wedi ymrwymo i ryddhau setiau data - am ddim, o dan drwydded a thrwy gytundebau rhannu data - gyda'r nod o hybu'r economi ehangach. Cydnabyddwn hefyd yr angen i lunio barn gytbwys am y bygythiadau i'n gwybodaeth a'n setiau data i ddefnyddio'r atebion lletya a storio mwyaf cost-effeithiol. I'r diben hwn rydym wedi cynnal dosbarthiad trwyadl o'r setiau data, gan asesu'r effeithiau busnes sy'n ymwneud â'u cyfrinachedd, eu cywirdeb a'u hargaeledd.

Derbyniwyd 371 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chafodd 368 ohonynt eu hateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

# Safonau gwasanaeth

Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/about-our-services.cy

# Gwasanaeth Cymraeg

Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www.gov.uk/government/ organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy

## Cwynion

Cofnodwyd 4,262 o gwynion yn 2014/15 o'i gymharu â 4,576 yn 2013/14.

Er i ni weld gostyngiad bach yn nifer y cwynion a gofnodwyd, daliwyd mwy o sylwadau ac adborth gan gwsmeriaid nag erioed o'r blaen.

Mae dadansoddiad o sampl o'r adborth yn dangos bod cyfran y cwynion a gafodd eu cynnal wedi cynyddu i 41 y cant o'i gymharu â 26 y cant yn 2013/14. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i gofnodi mwy cyson o ganlyniadau cwynion ond hefyd cynnydd yn yr adborth am ein cyflymdra gwasanaeth ar geisiadau cofrestru, sef y maes mwyaf cyffredin o gwynion ac mae'n codi o gynnydd sylweddol yn y gwaith a dderbyniwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Y materion cyffredin eraill a arweiniodd at gwynion oedd problemau gyda chanlyniadau ceisiadau a chofnodion yn y gofrestr, a sut rydym yn delio â cheisiadau sydd heb fod mewn trefn.

Mae adolygiad o'n gweithdrefn adborth cwsmeriaid, gan gynnwys gwelliannau i'n dyfais Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ystod y flwyddyn, wedi arwain at fewnwelediad gwell i ganlyniad cwynion, boed wedi'u datrys ar y 'rheng flaen' neu os oedd angen eu huwchgyfeirio, a'r adnoddau a ddefnyddiwyd. Mae hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu o bryderon cwsmeriaid a gweithredu arnynt, a gwella ein gwasanaeth yn gyffredinol. Cafwyd sawl enghraifft o hyn yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- gwella ein gwefan yn dilyn ei symud i GOV.UK, gan gynnwys rhwyddineb llywio a hygyrchedd gwybodaeth a darparu ffurflenni a deunyddiau cyfarwyddyd mewn fformatau ychwanegol
- cymryd nifer o fesurau i wella ein hyblygrwydd gweithredol a chyflymdra gwasanaeth, gan gynnwys recriwtio staff newydd, staff presennol yn achub ar y cyfle i gynyddu eu horiau, ymdrin â rhai mathau o geisiadau yn ganolog a mwy o hyblygrwydd a chydlyniad yn nosbarthiad ein gwaith
- postio canllawiau fideo ar-lein ar ein tudalennau GOV.UK a thudalen YouTube i helpu'r cyhoedd i gael hyd i'r ateb i ymholiadau cyffredin a chwblhau ffurflenni cyffredin.

## Yr Uned Ryngwladol

Mae dwy swyddogaeth graidd gan yr Uned Ryngwladol: cysylltiadau rhyngwladol a datblygu busnes.

Mae'n sicrhau bod ein buddiannau wedi'u cynrychioli'n briodol ar gyrff llunio polisïau tir byd-eang, bod pwysigrwydd cofrestru tir yn cael ei hyrwyddo i eraill a bod ein cysylltiadau â chyrff dramor wedi'u rheoli'n dda, yn briodol ac yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau.

I'r diben hwn mae uwch aelodau staff ar gael i ymgymryd â swyddi gyda sefydliadau gan gynnwys Pwyllgor Tai a Rheoli Tir Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE), Gweithgor UNECE ar Weinyddu Tir, Bwrdd Rheoli EuroGeographics a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd. Rydym hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Parhaol ar Stentiau, Sefydliad Cyfraith Ewrop a'r Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Cofrestru Tir.

Cafodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Alasdair Lewis ei ailethol yn Llywydd Cymdeithas Cofrestru Tir Ewrop.

I gefnogi polisi tramor Prydain rydym yn cynorthwyo gyda gweinyddu tir dramor. Gwnaethom ni gymryd rhan mewn cenhadaeth UNECE i Uzbekistan ym Mehefin a chwblhau ein hadroddiad yn dilyn cenhadaeth i Moldova.

Yn Rhagfyr croesawyd Cynulliad Cyffredinol ELRA i Lundain, gydag 80 o notarïaid a gweithwyr proffesiynol cyfreithiol eraill yn bresennol o bob cwr o Ewrop.

Mae'r uned hefyd yn gyfrifol am lywio gwaith ymgynghori masnachol tramor y Gofrestrfa Tir, cymryd rhan mewn prosiectau a gyllidir gan gymorth a chroesawu ymweliadau astudio, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi nodau datblygu tramor Prydain.

Cafodd ymweliadau â Malawi a Thiriogaethau Meddianedig Palestina, a sawl daith i Rwanda, eu cyllido gan Gyfleusterau Buddsoddi ar gyfer Defnyddio Arbenigedd y DU (iFUSE) yr Adran Datblygu Rhyngwladol. Cafodd ymweliad astudio gan gynrychiolwyr o Weinidogaeth Tir Tanzania ei gyllido hefyd gan iFUSE, ac mae Tanzania yn bartner G8 y Llywodraeth ar gyfer Nodau Datblygu'r Mileniwm.

Rydym wedi helpu Awdurdod Adnoddau Naturiol Rwanda hefyd i ddatblygu eu systemau a'u prosesau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi croesawu ymweliadau astudio addysgol ar gyfer cynrychiolwyr o nifer o awdurdodaethau gan gynnwys Botswana, Tsieina, Malaysia, De Corea a Tanzania. Roeddem hefyd wedi cymryd rhan mewn dwy genhadaeth fasnach a noddwyd gan UKTI, y cyntaf i Nairobi yng Nghenia ac Addis Ababa yn Ethiopia, a'r ail i Kigali yn Rwanda.

# Yr ystad

Roedd y 14 adeilad swyddfa roeddem yn eu meddiannu ar ddiwedd y flwyddyn yn gyfanswm o 72,008 metr sgwâr. Roedd ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, trethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys cyfleustodau, post a reprograffeg) tua £25.9m. Roedd ein gwariant ar wasanaethau contractau allanol â Carillion yn £11.7m.


Mae Drakes Hill Court, Plymouth, wedi cael ei werthu am £1.45m, gan leihau'r ystad gyffredinol gan 7,613 metr sgwâr. Mae contractau amodol wedi cael eu cyfenwid ar gyfer gwerthu 25 erw yn Chalfont Drive, hen safle Swyddfa Nottingham. Mae gwerthu'r safle yn amodol ar benderfyniad ynghylch caniatâd cynllunio, a disgwylir ei gwblhau yn 2015.

Rydym yn parhau i rannu lle dros ben yn ein hadeiladau ag adrannau eraill o'r llywodraeth ac eleni gwelwyd cyd-leoliadau eraill gan gynnwys gyda Chyllid a Thollau EM yn Swyddfa Caerloyw a'r Asiantaeth Swyddfa Brisio a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn Hull.

Mae ein tenantiaid yn meddiannu 20,915 metr sgwâr (21.5 y cant ) o'r ystad gyfan erbyn hyn. Mae hyn wedi arwain at leihad pellach yn yr ystad a feddiannir fesul gweithiwr amser llawn, sydd wedi gostwng o 14.05 metr sgwâr i 13.67 metr sgwâr. Mae'r ystad weithredol wedi'i meddiannu 75 y cant ar hyn o bryd.

Erbyn hyn mae gwerth ein hystad yn £72.9m ac eithrio asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu o £12.2m.

**Maint yr ystad gyfan 2008-2015 (m²)**




Mae'r siart isod yn crynhoi'r cynnydd a wnaed o ran lleihau maint yr ystad ers 2008. Mae'n adlewyrchu ein hymateb cyffredinol i'r dirywiad economaidd a'n hymrwymiad i ddangos gwelliannau cyson yn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein hystad o dan Agenda Effeithlonrwydd a Diwygio'r Llywodraeth.

Mae'r siart yn cynnwys ein canolfannau data, eiddo a ddelir i'w werthu ac eiddo a brydlesir i adrannau eraill o'r llywodraeth a thenantiaid eraill.

# Y Gronfa Indemniad

Yn 2014/15 talwyd £8.4 miliwn ar gyfer 968 o hawliadau, o'i gymharu ag £11.2m ar gyfer 1,034 o hawliadau yn 2013/14. Yr hawliad mwyaf a dalwyd eleni oedd ar gyfer trosglwyddiad ffug o'r cyfan, wedi'i setlo am £0.8m. Roedd yr hawliad arbennig hwn yn cynnwys ffeithiau cymhleth, ac roedd y setliad yn lleihau'r hawliad cychwynnol yn sylweddol i adlewyrchu ansicrwydd yr achos. Twyll (fel arfer trwy gyfrwng ffugio) yw'r achos mwyaf arwyddocaol o hyd o daliadau indemniad ac mae hyn yn adlewyrchu'r tuedd cyffredinol dros y degawd diwethaf.


Uchafswm gwerth gwreiddiol yr hawliadau o sylwedd a dalwyd oedd £10m ond cafodd y rhain eu setlo am £6.5m, gan arbed £3.4m. Yn ystod y flwyddyn cafodd 456 o hawliadau eraill gwerth £18.8m eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain roedd 53 ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £5.9m. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 1,136 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £23m, gan gynnwys 64 o hawliadau twyll gwerth £9.3m

Adenillwyd £0.1m o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £2.2 miliwn y flwyddyn ddiwethaf. Gellir esbonio'r anghysondeb hwn gan y ffaith (yn wahanol i'r ddwy flynedd flaenorol) nad ydym wedi cael un cais mawr a allai fod wedi arwain at hawl i adennill. Mae hawl i adennill yn ddibynnol iawn fel rheol ar ffeithiau arbennig yr achos, a sut y maent yn cydberthyn â'r gyfraith sy'n ymwneud â dyletswyddau proffesiynol. Nid yw'n hawdd bob amser i ragweld amseriad yr adenillion hyn nac, yn wir, pa dystiolaeth allai ddod i'r amlwg gan y broses o ddatgelu mewn unrhyw achos arbennig.  Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau ar gyfer hawliadau cyfredol heb eu talu a hawliadau anhysbys posibl yn y dyfodol i'w gweld yn nodyn 17.2 o'r datganiadau ariannol

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled o sylwedd (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 138 | 739,859 | 374,477 | 13.3 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 81 | 396,589 | 333,805 | 8.7 |
| Gwallau mewn cynlluniau amrywiol | 9 | 38,197 | 14,478 | 0.6 |
| Twyll a ffugio | 54 | 5,248,622 | 666,051 | 70.6 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 9 | 4,212 | 7,039 | 0.1 |
| Gwallau methdaliad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwiliadau swyddogol | 3 | 5,000 | 4,596 | 0.1 |
| Copïau swyddogol | 1 | 0 | 192 | 0 |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) | 15 | 31,697 | 29,009 | 0.7 |
| Gwallau mewn darnau wedi'u ffeilio | 204 | 270 | 37,550 | 0.5 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 454 | 76,476 | 374,849 | 5.4 |
| Gwallau Pridiannau Tir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **968** | **6,540,922** | **1,842,046** | **100** |
| **Taliad gros** | **£8,382,968** | | | |
| Llai symiau a adenillwyd o dan ein hawliau digolledu statudol | £126,237 | | | |
| **Indemniad net** | £8,256,731 | | | |

# Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch corfforol yn cael ei orchwylio gan y Pwyllgor Diogelwch Corfforol a Personél. Cofnodwyd 70 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys dau ddigwyddiad arwyddocaol (Dosbarth 1).



# Cyfrifon

## Datganiad llywodraethu

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir rwyf yn gyfrifol, ar y cyd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir, am gynnal llywodraethu corfforaethol sy'n ategu cyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Gofrestrfa Tir, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r Gofrestrfa Tir yr un pryd.

Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*. Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth drwy Fwrdd y Gofrestrfa Tir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau gyda chyfrifoldeb o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Menter.

Mae'r prif ddyletswyddau yn ymwneud â chynnal y gofrestr o deitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol a phridiannau wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 (gweler *Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud*).

Yn ystod y flwyddyn cefnogodd y Gofrestrfa Tir ddatblygiad y Bil Seilwaith a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Chwefror 2015. Mae mesurau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf sy'n caniatáu i'r Gofrestrfa Tir ddarparu gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol digidol sengl. Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi Pwerau Ehangach sy'n ein galluogi i adeiladu ar y gwasanaethau eiddo rydym eisoes yn eu darparu.

### Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod y Gofrestrfa Tir yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau priodol o reolaeth fewnol effeithiol a rheoli risg. Mae'n seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth y Gofrestrfa Tir, yr amcanion strategol a'r targedau. Ei nod yw gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r cyfleoedd a'r risgiau hynny (a'r effaith os cânt eu gwireddu) a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae hefyd yn ceisio cyfateb â nodau strategol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'n dyletswyddau statudol a amlinellir yn *Nogfen Fframwaith 2012*. Mae'r fframwaith yn cydymffurfio â'r cod a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, *Llywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganol: Cod ymarfer da 2011*. Mae'r fframwaith a ddisgrifir wedi bod yn ei le drwy gydol 2014/15 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.

### Elfennau allweddol y fframwaith

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn gronfa fasnachu ac yn asiantaeth weithredol. Fel cronfa fasnachol mae nawdd yn cael ei oruchwylio gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

Ar 20 Mai cyhoeddwyd y bydd cyfrifoldeb am y Weithrediaeth Cyfranddalwyr yn cael ei drosglwyddo o'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i Ganghellor y Trysorlys. Bydd y Weithrediaeth Cyfranddalwyr yn cadw ei model gweithredu cyfredol lle mae'n gweithredu'n uniongyrchol ar gyfer ysgrifenyddion gwladol adrannol ac ysgrifenyddion parhaol yn ei gweithgareddau llywodraethu a chyllid corfforaethol.  Felly bydd mynediad y Gofrestrfa Tir i'r gweinidog yn parhau i gael ei hwyluso gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr.

Mae Strategaeth Fusnes y Gofrestrfa Tir yn amlinellu'r amcanion pum mlynedd a nodwyd yn y 12 targed penodol a chafodd ei chyflwyno i'r gweinidog yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn Hydref 2012. Mae'n rhoi awdurdod i'r mentrau strategol gwirioneddol ac arfaethedig ac i gyfeiriad cyffredinol y busnes. Fe'i datblygwyd yn 2012/13, yn dilyn trosglwyddo nawdd o'r Arglwydd Ganghellor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, gyda mewnbwn gan y Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Roedd wedi ystyried y sefyllfa ariannol, yr angen i gynyddu gwaith digidol a'r angen i newid systemau gwybodaeth sy'n heneiddio er mwyn gwasanaethu'r farchnad cofrestru tir yn fwy effeithiol ac am lai o gost i'r cwsmer gan sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'n data. Cafodd y Strategaeth Fusnes ei chymeradwyo yn Rhagfyr 2012.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys:

- *Dogfen Fframwaith 2012*
- cylch gorchwyl a chofnodion Bwrdd y Gofrestrfa Tir
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Archwilio
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Tâl ac Enwebu
- cofnodion a phwyntiau cyfathrebu eraill
- cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer yr amcanion sy'n sail i'r Strategaeth Fusnes
- gwybodaeth am y Strategaeth Fusnes a llinynnau portffolio cysylltiedig
- dirprwyo'r gyllideb
- dirprwyo awdurdodau gan geisio adlewyrchu'r fframwaith allanol a osodwyd gan reolaethau Swyddfa'r Cabinet a'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr yn ystod 2014/15 yng Ngorffennaf, Awst, Chwefror a Mawrth
- is-bwyllgorau dan arweiniad cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol.

# Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys y Cadeirydd Anweithredol Mark Boyle, pedwar cyfarwyddwr anweithredol arall a minnau fel y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, a hefyd y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Ysgrifennydd Cwmni. Mae strwythur y Bwrdd yn sicrhau cydbwysedd rhwng aelodaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol. Mae'r aelodaeth anweithredol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr. Rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw darparu arweiniad, goruchwyliaeth strategol ac arbenigedd.

Mae'r aelodau anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth a allai greu gwrthdaro buddiannau posibl â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd.

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, tasg Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw rhoi cyngor ar bum brif faes, a'u goruchwylio.

- Eglurder strategol.
- Synnwyr masnachol.
- Pobl dalentog.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Gwybodaeth rheoli.

**Tabl o bresenoldeb bwrdd a phwyllgor 2014/15**

| | Teitl | Cyfnod | Bwrdd | | Pwyllgorau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd y Gofrestrfa Tir | Y Bwrdd Gweithredol | Archwilio | Tâl ac Enwebu |
| **Anweithredol** | | | | | | |
| Mark Boyle | Cadeirydd Anweithredol | | 11/11 | – | – | |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 9 Gorff 2012 | 11/11 | – | 4/4 | – |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 9 Gorff 2012 | 9/11 | – | – | 2/2 |
| Kirsty Pearce | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 1 Tach 2012 | 2/3 | – | – | – |
| Leo Geddes | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 22 Gorff 2014 | 7/8 | – | – | – |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 1 Medi 2013 | 10/11 | – | 4/4 | 1/2 |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol (Pwyllgor Archwilio) | O Fawrth 2013 | – | – | 4/4 | – |
| **Bwrdd Gweithredol** | | | | | | |
| Ed Lester | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | | 10/11 | 10/11 | 4/4 | 2/2 |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | | – | 10/12 | – | – |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | 11/11 | 11/12 | – | – |
| Maggie Telfer | Cyfarwyddwr Gweithrediadau dros dro | O 19 Mawrth 2015 | 1/1 | 1/1 | – | – |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro) | O 27 Awst 2013 tan 9 Mai 2014 | 1/1 | 1/1 | – | – |
| Stephen Park | Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro) | O 28 Ebrill 2014 tan 16 Ionawr 2015 | 7/7 | 7/8 | 3/3 | – |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid | O 5 Ionawr 2015 | 2/3 | 3/3 | 1/1 | – |
| Mike Westcott-Rudd | Ysgrifennydd Cwmni | | 10/11 | 10/12 | 1/4 | – |
| Eddie Davies | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid (dros dro) | O 1 Ionawr 2013 tan 5 Medi 2014 | – | 2/5 | – | – |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol (dros dro) | O 5 Ionawr 2015 | – | 3/3 | – | – |
| Paul Dowse | Cyfarwyddwr Strategaeth (dros dro) | | – | 10/12 | – | – |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | | – | 10/12 | – | – |
| Jon Cocking | Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol | Wedi mynychu ar ran y Cyfarwyddwr AD | – | – | – | 1/1 |
| Caroline Anderson | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | – | 12/12 | – | 1/1 |
| Nicky Heathcote | Pennaeth Swyddfa'r Prif Weithredwr | | – | 12/12 | – | – |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol | | – | – | 4/4 | – |
| Archwilio Allanol | Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | – | – | 4/4 | – |

# Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r swyddogion anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes Bwrdd y Gofrestrfa Tir drwy eu presenoldeb a'u cyfraniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ategol fel y crynhoir uchod. Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi chwarae rhan weithredol a chadarn wrth gefnogi a herio datblygiad y Strategaeth Fusnes a'i gweithredu.

Yn ogystal roedd y Bwrdd wedi cynnal adolygiad annibynnol o'i effeithiolrwydd o ran gweithredu argymhellion gan gynnwys penodi uwch gyfarwyddwr annibynnol

## Penderfyniad gweinidogol - model gweithredu

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2014/15 roedd y Gofrestrfa Tir yn aros am ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2013/14 yn cynnig modelau gweithredu gwahanol. Ar 14 Gorffennaf cyhoeddwyd *Ymateb y Llywodraeth: Cyflwyno cwmni cyflenwi gwasanaeth Cofrestrfa Tir.* Roedd hyn yn cyhoeddi nad oedd unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud i newid y model gweithredu.

## Pridiannau Tir Lleol - cyflenwi strategaeth

Cafodd y Strategaeth Fusnes ei gweithredu trwy fesurau oedd yn cynnwys datblygu pwerau i ymgymryd â Phridiannau Tir Lleol, trwy'r Bil Seilwaith. Cyhoeddwyd bod y cam deddfwriaethol wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ar 12 Chwefror 2015. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd yr achos busnes amlinellol er mwyn cael y cliriad allanol priodol ar gyfer y cam gweithredu.

Roedd yr achos busnes yn amlinellu goblygiadau cyllido datblygiad Pridiannau Tir Lleol ar gronfeydd wrth gefn y Gofrestrfa Tir ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr achos ariannol (ac achosion llyfr gwyrdd eraill). Roedd yn ceisio caniatâd ar gyfer buddsoddiad i ddatblygu Pridiannau Tir Lleol trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Cafodd ei lywio a'i gymeradwyo gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir cyn gwneud cais am awdurdod gan y Trysorlys trwy'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Arhoswn am ganlyniad yr adolygiad, yn dilyn yr etholiad.

## LR Connect - cyflenwi strategaeth

Cafodd amcanion eraill o fewn y strategaeth eu rheoli trwy Fwrdd Rhaglen LR Connect a orchwyliodd rhaglenni oedd yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau digidol, er mwyn galluogi ein gwasanaethau ar gyfer e-gyflenwi, datblygu ein pobl a'n gallu a moderneiddio ein sylfeini TG. Mae hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

Mae'r Rhaglen LR Connect yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr o'r Bwrdd Gweithredol (AD) ac wedi sefydlu cylch gorchwyl o fewn y fframwaith llywodraethu.

## Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn derbyn cerdyn sgorio cytbwys o wybodaeth perfformiad. Mae'r wybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu gan systemau ategol sefydledig a weithredir gyda rheolaethau priodol.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd trwy ddefnyddio adroddiadau misol yn seiliedig ar ein system ariannol. Mae gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi'r oruchwyliaeth a'r sicrwydd priodol i Fwrdd y Gofrestrfa Tir.

# Pwyllgorau Bwrdd y Gofrestrfa Tir

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r pwyllgor yn cynorthwyo Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd drwy gyfrwng gwybodaeth ac adroddiadau ar:

- y broses strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu hwn
- y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr i'r archwilwyr allanol
- gweithgareddau seiliedig ar risg arfaethedig a chanlyniadau'r Archwiliad Mewnol a'r Archwiliad Allanol
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr sylwadau'r Archwiliad Allanol
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol i'r sefydliad
- polisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd. Cwblhawyd yr adolygiad diwethaf ym Mawrth 2015.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd.

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu ddwywaith yn ystod 2014/15, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Anweithredol Catrina Holme.

**Y Bwrdd Gweithredol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fy nghynorthwyo gyda'm cyfrifoldebau dros reolaeth a chyfeiriad gweithredol, datblygu strategaeth, rheoli risg strategol, perfformiad yn erbyn targedau cyhoeddedig, dyletswyddau statudol, penderfyniadau a datblygu cynllunio portffolio buddsoddi'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gorchwylio'n fanwl berfformiad a sefyllfa weithredol ac ariannol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd wedi parhau i oruchwylio cynnydd y busnes, trwy gynnal cyfarfodydd adolygu wythnosol a'r cyfarfodydd ffurfiol o'r byrddau bob mis. Ers 2015 mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cynyddu amlder cyfarfodydd ffurfiol y byrddau i gwrdd bob pythefnos.

Roedd yr anawsterau a gafwyd i recriwtio staff parhaol ar lefel y tîm gweithredol yn pwysleisio'r angen i ddirprwyo cyfrifoldebau swyddogaethol yn fwy penodol a chyflwynwyd llythyron dirprwyo o ddechrau 2015.

Mae gwaith pellach yn yr Adran Gyllid yn cael ei wneud i wella rheolaeth ariannol a chymorth deiliaid cyllideb mewn cysylltiad â busnes fel arfer a newid gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys gloywi'r broses o ddirprwyo awdurdodau cyllideb a gwario, a chynyddu gallu a chapasiti partner busnes cyllid.

Mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth yn adrodd i mi ac yn fy helpu i sicrhau cynnydd da yn erbyn targedau ac amcanion cydraddoldeb yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol yn rhoi sicrwydd i mi fod cyfrifoldebau cymunedol ehangach y Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni'n briodol.

**Pwyllgor Llywodraethu Masnachol**
Ffurfiwyd y Pwyllgor Llywodraethu Masnachol yn 2014 i ddarparu haen ychwanegol o lywodraethu mewnol ar gyfer gwariant ar nwyddau a gwasanaethau allanol dros £50,000. Mae'r pwyllgor yn cefnogi dirprwyaethau awdurdod y Gofrestrfa Tir, gan roi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Weithredwr ar gyfer yr holl wariant sydd wedi'i gynnwys o fewn eu terfynau gwariant. Mae'n sicrhau y bydd yr holl wariant a'r llwybr caffael arfaethedig yn darparu gwerth gorau am arian ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael cyhoeddus a rheoliadau Swyddfa'r Cabinet.

Mae adnoddau a gwaith pellach wedi cael eu neilltuo i gryfhau'r systemau rheoli a'r adnoddau a ddefnyddir i gaffael a rheoli contractau a rheolaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyllid.

**Archwilwyr**
Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n adrodd i'r Senedd, wedi archwilio'r cyfrifon (gweler adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid).

**Risg**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn dilyn egwyddorion archwaeth risg Swyddfa'r Cabinet. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried risgiau strategol. Yr Ysgrifennydd Cwmni yw hyrwyddwr risg y Bwrdd Gweithredol. Gofynnir i'r Bwrdd Gweithredol ystyried a chofnodi'r archwaeth ar gyfer pob risg strategol ac adolygu'r rhain yn rheolaidd. Gwerthuswyd yr archwaeth risg yn ystod adolygiad o'r prif risgiau strategol. Bob mis mae'r risgiau strategol yn cael eu hadrodd a'u hadolygu yn y Bwrdd Gweithredol; mae adolygiad risg mwy trylwyr yn cael ei gwblhau bob chwarter hefyd. Mae dangosyddion arweiniol yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau yn y risg strategol.

Mae'r amgylchedd risg cyffredinol wedi datblygu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda phwyslais mawr ar y risgiau sy'n codi wrth ddarparu'r buddion o fewn y Strategaeth Fusnes; gyda ffocws cynyddol ar risg cysylltiedig â newid.

Nodwyd risgiau newydd yn ymwneud â'r seilwaith gwaddol TG, effeithiolrwydd a llywodraethu'r uwch arweinyddiaeth (yn wyneb yr anawsterau a gafwyd i benodi Cyfarwyddwr Cyllid parhaol a'r cyhoeddiad bod y Prif Weithredwr ar y pryd yn gadael) a risgiau i enw da neu niwed i'r berthynas â budd-ddeiliaid hanfodol. Mae risgiau blaenoriaeth uchaf (coch) yn ymwneud â Phridiannau Tir Lleol, oherwydd ansicrwydd deddfwriaethol, a Phobl a Gallu, yn wyneb y bylchau a nodwyd o ran adnoddau a'r gallu sydd ei angen i gyflawni'r Strategaeth Fusnes. Roedd risg Pridiannau Tir Lleol wedi lleihau i ambr pan gafodd y Bil Seilwaith Gydsyniad Brenhinol. Mae risgiau'n cael eu rheoli gyda gwrth-fesurau priodol, gan gynnwys monitro adolygiad ac ymgysylltu'n rheolaidd â budd-ddeiliaid, datblygu strategaethau recriwtio a chynllunio'r gweithlu ar gyfer y gwasanaethau digidol a gynlluniwyd.

Mae cyflwyno ein gwasanaeth Ystafell Bost Rithwir i wella e-weithio wedi cyflwyno heriau newydd o ran risg, gan gynrychioli un pwynt methiant posibl o'r holl wasanaethau ystafell bost. O ganlyniad mae cynlluniau parhad busnes newydd yn cael eu datblygu a'u profi.

Roedd gwerthuso risgiau ail haen ar lefel y gyfarwyddiaeth wedi adnabod bod y risgiau allweddol yn ymwneud â Phobl a Gallu wedi'u dilyn gan risgiau i wireddu'r buddion o'r Strategaeth Fusnes.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu rwy'n goruchwylio'r risgiau strategol a reolir gan y tîm gweithredol ac yn ceisio sicrwydd ar reolaeth risg y gyfarwyddiaeth i ddarparu'r cyfle ar gyfer uwchgyfeirio. Mae systemau rheoli risg yn ceisio bod yn gymesur ac yn effeithiol o ran risgiau perthnasol. Mae'r strategaeth rheoli risg sydd yn ei lle yn sicrhau ar bob lefel y sefydliad bod risgiau'n cael eu lliniaru'n effeithiol. Mae system ddiwygiedig o reoli risg yn cael ei datblygu a chafodd y swyddogaeth ei chryfhau trwy recriwtio Rheolwr Risg amser llawn. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod perthynas ddynamig yn cael ei chynnal rhwng budd-ddeiliaid busnes y rheolwr risg.

Mae'r Rheolwr Risg newydd wedi sefydlu Pwyllgor Risg annibynnol ar gyfer y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol a bydd yn sefydlu corff tebyg ar gyfer y Rhaglen LR Connect.

Drwy ddirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol caf fy sicrhau gan waith y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Gwarchod y Gofrestr, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestr Tir, risg o dwyll a dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u cyfeirio ataf fel y bo'n briodol, yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor.

**Risg gwybodaeth**
Mae risg gwybodaeth yn cael ei rheoli drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth o dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael sicrwydd gan y ffurflenni risg gwybodaeth sy'n cael eu cwblhau gan ein Perchnogion Asedau Gwybodaeth a disgrifiadau asedau wedi'u dogfennu'n llawn. Mae ein Proses a Pholisi Rheoli Risg i Systemau Gwybodaeth wedi cael eu harchwilio a'u dilysu'n annibynnol trwy archwiliadau mewnol CMMI, ISO 20000 ac ISO 2700. Caf fy sicrhau trwy achrediad mewn perthynas â Chod Cysylltiad GSi/PSN ac IAMM lle mae ein sgoriau wedi gwella gan gynnwys ymysg cyflenwyr allanol lle mae 74 y cant o gyflenwyr yn cyrraedd aeddfedrwydd lefel 3.

**Diogelu gwybodaeth**
Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r lefelau priodol o'r modiwl Cyfrifol am Wybodaeth ar Civil Service Learning. Yn 2014/15 rydym wedi cryfhau'r dysgu Cyfrifol am Wybodaeth hwn gyda deunyddiau mewnol ychwanegol i wella ymwybyddiaeth o atal datgelu heb ganiatâd. Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr lofnodi cytundeb methu â datgelu.

**Colli data**
Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Roedd tri digwyddiad o wybodaeth yn cael ei datgelu heb ganiatâd o'r sefydliad, gan gynnwys datgelu cofnodion Mawrth 2014 Bwrdd y Gofrestrfa Tir, gwybodaeth am ein defnydd arfaethedig o ddata yn cael ei datgelu i'r *Guardian* ond heb ei chyhoeddi, a gwybodaeth am ein hymagwedd at gontractwyr oddi ar y gyflogres yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau gwe *Computer Weekly*. Cynhaliwyd ymchwiliad trwyadl i'r achosion hyn o ddatgelu gwybodaeth heb ganiatâd ac o ganlyniad cafodd rheolaethau ar gyfer caniatáu mynediad i blygellau a chymwysiadau eu gwella a chryfhawyd y telerau cytundebol mewn contractau oddi ar y gyflogres.

**Adolygiad cydymffurfio treth cyflogwyr CThEM**
Yn Chwefror 2015 fe'n hysbyswyd gan CThEM fod y Gofrestrfa Tir wedi cael ei dewis i gael adolygiad o'i chofnodion a'i systemau TWE a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau treth fel cyflogwr. Roedd ein dewis yn ganlyniad i faterion a gododd o Gytundeb Setliadau TWE 2013/14 y Gofrestrfa Tir â CThEM ynghylch trin treuliau arbennig sy'n cael eu talu i staff.

Bydd yr adolygiad cydymffurfio, sydd ar ei gam casglu gwybodaeth, yn canolbwyntio ar ein cyflogres, treuliau a buddion a byddwn yn adrodd yn ddiweddarach yn 2015/16. Mae'n bosib y bydd yr adolygiad yn nodi meysydd lle nad ydynt yn cydymffurfio neu lle y gellid gwella cydymffurfio, a gall hyn yn ei dro gael canlyniadau ariannol, gan gynnwys y posibilrwydd o adennill treth heb ei thalu a/neu gosbau. Ar y cam hwn, nid yw'n bosibl meintioli tebygolrwydd neu swm unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o'r adolygiad hwn.

**Ymateb i'r sancsiwn ariannol ar gyfer contractwyr oddi ar y gyflogres**
Yn 2014/15 gosododd y Trysorlys sancsiwn o £1,030,176 ar y Gofrestrfa Tir. Yn dilyn adolygiad o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus mae gofyniad i gyfyngu unrhyw gontract oddi ar y gyflogres ein haelodau staff uchaf i ddim mwy na chwe mis. Aeth y Gofrestrfa Tir dros y terfyn hwn ar gyfer contract â'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro o ganlyniad i'r anawsterau a gafwyd i lenwi'r swydd a sicrhau parhad yn y rôl allweddol hon. Mae manylion y contract hwn i'w gweld yn yr adroddiad Tâl.

Yn dilyn y sancsiwn, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro a'i olynodd gadarnhau ein bod yn cydymffurfio ag argymhellion yr adolygiad a chanllawiau cysylltiedig mewn perthynas â chontractau ein haelodau staff uchaf i roi sicrwydd bod pob contractwr a gyflogir gan y Gofrestrfa Tir yn cydymffurfio â'r rheoliadau treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol priodol. Rwyf wedi cael fy sicrhau bod pob un o'n haelodau staff uchaf ar y gyflogres bellach a'n bod yn cydymffurfio â'r adolygiad yn hyn o beth.

Cynhaliwyd adolygiad o gontractwyr oddi ar y gyflogres yn Awst 2014. Os na ddarparwyd sicrwydd ynghylch cydymffurfio â'r rheoliadau treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol priodol gan gontractwyr, daeth y berthynas gytundebol i ben. Cynhaliwyd ail ymarfer sicrwydd yn Chwefror 2015 gan gymryd camau tebyg i'r rhai oedd heb ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol. Mae canlyniad yr ymarferion hyn yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Cyfarwydd Cyllid a'r Cyfarwyddwr AD yn fy sicrhau bod gan y Gofrestrfa Tir brosesau cadarn yn eu lle erbyn hyn ar gyfer monitro'n barhaus pob contractwr oddi ar y gyflogres ac am geisio'r sicrwydd treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol perthnasol ar sail dreigl.

**Ymgyfreitha**
Yn ystod y flwyddyn collodd y Gofrestrfa Tir achos tribiwnlys mewn perthynas â dilyniant tâl awtomatig (yn seiliedig ar gyfnod gwasanaeth). Cyhoeddwyd y penderfyniad ar 14 Gorffennaf 2014. Daeth y Gofrestrfa Tir yn atebol yn gytundebol i wneud taliadau dilyniant i staff cymwys o Ebrill 2011 hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ariannol hon. Cafodd taliadau ar gyfer yr atebolrwydd hwn effaith sylweddol ar berfformiad ariannol fel y disgrifir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid. O ganlyniad, rhoddwyd trefniadau llywodraethu newydd yn eu lle rhwng Cyfreithiwr y Trysorlys a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol Cyfreithiol a Sicrwydd a'r Gyfarwyddiaeth AD a Datblygu'r Sefydliad.

Yn ogystal collodd y Gofrestrfa Tir achos tribiwnlys a thribiwnlys apêl cyflogaeth mewn perthynas â chadw'n ôl gwobrau perfformiad corfforaethol lle roedd nifer fach o hawlwyr (oedd wedi'u cwmpasu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) wedi cael rhybudd ffurfiol o dan y weithdrefn rheoli presenoldeb. Cafodd ein hymagwedd at ddyfarnu'r wobr perfformiad corfforaethol o ran rheoli absenoldeb ei beirniadu yn y dyfarniad. Mae'r Gofrestrfa Tir yn ystyried ei hymateb ar hyn o bryd.

Mae goblygiadau penderfyniad y Llys Apêl yn achos Swift 1st Limited v Prif Gofrestrydd Tir wedi cael eu hystyried yn ofalus iawn. Bydd yr achos yn cael effaith ar daliadau indemniad ac mae'r Gofrestrfa Tir wedi sicrhau ei bod wedi gwneud darpariaeth indemniad briodol gan ddefnyddio cyngor gan ein hymgynghorwyr allanol, ac mae gwybodaeth am hyn i'w gweld ar dudalen 90.

**Y Fforwm Sicrwydd**
Mae'r Fforwm Sicrwydd wedi gwella ansawdd ein cynllunio sicrwydd trwy gyfathrebu rheolaidd rhwng uwch reolwyr cyfrifol o bob cyfarwyddiaeth. Roedd hefyd wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Archwilio ac i'r tîm gweithredol ar gywirdeb y ffynonellau sicrwydd a nodwyd ym mhob un o fapiau sicrwydd y gyfarwyddiaeth.

**Llywodraethu ac effeithiolrwydd gan gynnwys ffynonellau sicrwydd eraill**
Rhagorwyd ar ein Hymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a chaf fy sicrhau gan yr ailachrediad i ISO 14001.

Roedd ffynonellau sicrwydd eraill yn cynnwys yr Adolygiad o Reolaeth Ariannol, gan ddefnyddio Model Rheoli Ariannol CIPFA. Roedd yr adolygiad hwn yn cydnabod rheolaeth a chryfder wrth brosesu trafodion ac adrodd ariannol, ond mae wedi arwain at argymhellion i wella atebolrwydd ar gyfer rheoli cyllideb a chryfhau ffurfio strategaeth ariannol a'r cynllunio ariannol tymor canolig.

Fel rhan o ddadgyfuno'r Seilwaith TG Gwasgaredig, ceisiodd y Gofrestrfa Tir sicrwydd trwy gyfrwng gwerthusiad annibynnol o gontract Steria gan ddefnyddio cyngor annibynnol gan gyfrifwyr dan

gontract. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn ystod yr adolygiad llyfr agored hwnnw ond nodwyd bylchau yn y sgiliau a'r adnoddau a gymhwysir i reoli contractau ariannol. Felly mae'r swyddogaeth fasnachol wedi cael ei chryfhau gydag adnodd medrus priodol.

**Rheoli cyllideb**
Ar ddechrau'r flwyddyn, cyhoeddwyd llythyrau dirprwyo cyllideb fewnol. Yn hwyr yn y flwyddyn, adolygwyd y fframwaith allanol o awdurdod dirprwyedig, rheolaethau Swyddfa'r Cabinet yn bennaf, a chyhoeddwyd llythyrau dirprwyaethau o awdurdod yn chwarter pedwar. Yn chwarter pedwar gwerthusodd y Cyfarwyddwr Cyllid y fframwaith dirprwyo mewnol gan geisio sicrwydd ychwanegol gan Archwilio Mewnol. Arweiniodd hyn at adolygu'r rheolaethau dirprwyo mewnol. Byddwn yn gweithredu ar yr argymhellion hyn yn 2015/16.

**Sicrwydd caffael/rheoli contract**
Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Caffael, o leiaf yn flynyddol, bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Trysorlys a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r rhain a chanllawiau caffael penodol y Gofrestrfa Tir.

**Ar ddata a chywirdeb y sefyllfa o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
Caf fy hysbysu ynghylch cywirdeb perfformiad y sefydliad yn erbyn targedau cyhoeddedig gan yr adroddiad archwilio ar ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gwerthuso'r systemau a'r dulliau sylfaenol ar gyfer adrodd. Rwy'n fodlon bod y system i ddarparu gwybodaeth am berfformiad yn gadarn ac yn darparu gwybodaeth amserol briodol i sicrhau rheolaeth effeithiol o berfformiad. Cyfraniad allweddol i'r casgliad hwn yw'r gwerthusiad a roddir i mi gan Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd systemau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae pob un o gyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth risg a rheolaethau cysylltiedig sy'n ceisio rheoli risg a sicrhau'r perfformiad a stiwardiaeth effeithiol o asedau yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 gyda sicrwydd ganol blwyddyn.

**Rôl archwilio mewnol**
Rôl archwilio mewnol yw darparu gwasanaeth cymorth archwilio a sicrwydd i'r rheolwyr, gan archwilio ac adrodd ar systemau rheolaeth a rheoli risg y Gofrestrfa Tir ar draws ei holl swyddogaethau. Mae Archwilio Mewnol yn ategu gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n archwilio risg a rheolaeth ac yn fy nghynghori fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Mae ein harchwilwyr mewnol yn gweithredu yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Yn unol â'r safonau hyn dylai effeithiolrwydd archwilio mewnol gael ei hadolygu a disgwylir cynnal adolygiad yng Ngorffennaf 2015. Bydd gwaith pellach yn cael ei gwblhau yn 2015 i wella cydymffurfiaeth gan gynnwys y rhaglen gwella sicrhau ansawdd.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw "yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn 2014/15, rwy'n gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod fframwaith risg, rheolaeth a llywodraethu'r Gofrestrfa Tir wedi cynnig modd iddi gyflawni ei hamcanion, a bod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol yn gyffredinol". Caf fy hysbysu ar effeithiolrwydd rheolaeth hefyd gan y sicrwydd ysgrifenedig a ddarperir gan Ed Lester a John Peaden.

**Graham Farrant**
Swyddog Cyfrifyddu
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a osodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 75. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson

— llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol

— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro pwysig yn y datganiadau ariannol, a

— pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.



# Adroddiad tâl

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae Pwyllgor Tâl y Gofrestrfa Tir, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer uwch weision sifil y Gofrestrfa Tir, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk/recruitment/working/pay-and-reward/scs-pay

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd: Catrina Holme (Cadeirydd), Gerard Connell ac Ed Lester (hyd at 18 Mawrth 2015). Cynhaliwyd cyfarfod olaf y pwyllgor ar 10 Mawrth 2015.

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Roedd rhewi tâl Swyddfa'r Cabinet yn 2010 yn gorchymyn na allai adrannau dalu dilyniant blynyddol oni bai ei fod yn gytundebol. Ceisiodd y Gofrestrfa Tir gyngor cyfreithiol gan Gyfreithiwr y Trysorlys a Chwnsel annibynnol, ac roedd y ddau wedi cynghori nad oedd dilyniant yn y Gofrestrfa Tir yn gytundebol. Felly nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu talu taliadau dilyniant. Yn dilyn hyn cyflwynwyd hawliad gan PCS i dribiwnlys gyflogaeth yn 2014 a ddyfarnodd yn 2014 fod dilyniant yn y Gofrestrfa Tir yn gytundebol. Yn dilyn y penderfyniad hwn, cafodd yr holl ôl-daliadau dilynol eu talu yn ystod y flwyddyn ariannol ac roedd rhaid i gynigion Tâl ar gyfer 2014/15 gael eu hailgyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cymeradwyo ac ni chawsant eu talu tan ar ôl 31 Mawrth 2015.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'n gynnar ar gyfer y cyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw ar sail camymddygiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

## Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Cafodd penodiad y Cadeirydd Mark Boyle ei estyn tan 22 Ebrill 2016.

## Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

Ymddiswyddodd Ed Lester o'i benodiad fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn weithredol o 18 Mawrth 2015, ar ôl iddo dderbyn y penodiad ar 13 Mai 2013. Penodwyd John Peaden yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro o 19 Mawrth 2015 hyd nes i Graham Farrant ymgymryd â'i benodiad ar 1 Mehefin, am gyfnod o dair blynedd i gychwyn.

## Cyfarwyddwr Cyllid

Penodwyd Camilla Black yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro o 27 Awst 2013 ar sail tymor byr drwy asiantaeth swyddogion gweithredol dros dro. Daeth ei chontract i ben ar 9 Mai 2014.

Penodwyd Stephen Park yn Gyfarwyddwr Cyllid dros dro o 28 Ebrill 2014 trwy asiantaeth swyddogion gweithredol dros dro. Cafodd ei drosglwyddo i gontract cyflogres o 1 Mehefin 2014 a daeth ei gontract â'r Gofrestrfa Tir i ben ar 16 Ionawr 2015.

Penodwyd Catherine Vaughan yn Gyfarwyddwr Cyllid parhaol ar 5 Ionawr 2015.

## Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro

Dechreuodd Jon Parry yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro ar 5 Ionawr 2015.

## Cyfarwyddwyr anweithredol

Roedd penodiadau Tim Franklin a Catrina Holme o 8 Gorffennaf 2012 am gyfnod o dair blynedd i gychwyn a chawsant eu hestyn gan ddwy flynedd.

Mae penodiad Leo Geddes o 22 Gorffennaf 2014 am gyfnod na fydd fel rheol yn fwy na thair blynedd. Mae'n cynrychioli buddiannau'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan y Gofrestrfa Tir. Roedd Leo wedi cymryd lle Kirsty Pearce ar ôl i'w phenodiad fel cynrychiolydd y Weithrediaeth Cyfranddalwyr ddod i ben ar 13 Gorffennaf 2014.

Mae penodiad Gerard Connell o 1 Medi 2013 ar gyfer cyfnod na fydd fel rheol yn fwy na thair blynedd.

## Datgeliad oddi ar y gyflogres

Mae ymrwymiadau oddi ar y gyflogres fel ar 31 Mawrth 2015, ar gyfer mwy na £220 y dydd ac sy'n para dim hwy na chwe mis

| | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau sy'n bodoli fel ar 31 Mawrth 2015** | **8** | 5 |
| Ac o'r rhain y rhai sy'n bodoli | | |
| – am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | **7** | 5 |
| – rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd | **1** | – |
| – rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | – | – |
| – rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | – | – |
| – am bedair blwyddyn neu ragor ar adeg adrodd | – | – |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para yn hwy na chwe mis | | |
| **Ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015** | **29** | 5 |
| – sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran wneud cais i ofyn am sicrwydd o ran treth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol | **26**[1] | 5 |
| – y mae sicrwydd wedi cael ei geisio ar eu cyfer | **23**[2] | 5 |
| Ac o'r rhain y rhai: | | |
| – y mae sicrwydd wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer | **16** | – |
| – nid yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer | **7** | 5[3] |
| – sydd wedi cael eu terfynu oherwydd nad yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer | **7** | – |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 | | |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol | **2**[4] | 2 |
| Unigolion yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | **12** | 13 |

1 Roedd contractau uniongyrchol tri chontractwr â'r Gofrestrfa Tir wedi hepgor y cymal datgeliad gofynnol. Mae gweithdrefnau wedi cael eu cryfhau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

2 Roedd contractau tri chontractwr wedi cael eu terfynu cyn yr ymarfer dwyflynyddol cyntaf i geisio sicrwydd.

3 Derbyniwyd sicrwydd ar gyfer pob un o'r pum contractwr ar ôl dyddiad llofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14.

4 Daeth swydd Camilla Black fel Cyfarwyddwr Cyllid dros dro i ben ar 9 Mai 2014. Daeth trefniant oddi ar y gyflogres Stephen Park fel Cyfarwyddwr Cyllid dros dro i ben ar 31 Mai 2014 ac ar ôl hynny cafodd ei gyflogi'n uniongyrchol gan y Gofrestrfa Tir am gyfnod penodol ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2014 i 16 Ionawr 2015.

## Cyflog a thâl perfformiad - cyfarwyddwyr gweithredol[1]

| | 2014/15 | | | | 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Buddion pensiwn | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Buddion pensiwn |
| | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £ | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £ |
| Ed Lester[2] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 130 – 135 | 15 – 20 | – | 50,000 | 125 – 130 | – | – | 50,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (135 – 140) | – | – | – | (135 – 140) | – | – | – |
| John Peaden[3] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro | 0 – 5 | – | 100 | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (100 – 105) | – | – | – | – | – | – | – |
| John Peaden[4] Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 85 – 90 | 10 – 15 | – | 22,000 | 90 – 95 | 10 – 15 | – | 76,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | – | – | – | – |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 95 – 100 | 0 – 5 | – | 20,000 | 95 – 100 | 10 – 15 | – | 8,000 |
| Catherine Vaughan[5] Cyfarwyddwr Cyllid | 30 – 35 | – | – | 11,000 | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (120 – 125) | – | – | – | – | – | – | – |
| Stephen Park[6] Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | 20 – 25 | – | – | – | – | – | – | – |
| Stephen Park[7] Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | 120 – 125 | – | – | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (195 – 200) | – | – | – | – | – | – | – |
| Camilla Black[8] Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | 25 – 30 | – | – | – | 150 – 155 | – | – | – |
| Maggie Telfer[9] Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 0 – 5 | – | – | 14,000 | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (80 – 85) | – | – | – | – | – | – | – |
| Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 85 – 90 | 0 – 5 | – | 33,000 | 25 – 30 | – | – | 10,000 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | (90 – 95) | – | – | – |
| Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 75 – 80 | 10 – 15 | – | 22,000 | 70 – 75 | 0 – 5 | – | 47,000 |
| Paul Dowse[10] Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro | 80 – 85 | 0 – 5 | 300 | 49,000 | – | – | – | – |
| Jon Parry[11] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro | 55 – 60 | – | – | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | (235 – 240) | – | – | – | – | – | – | – |
| Eddie Davies[12] Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro | 30 – 35 | 0 – 5 | 300 | 17,000 | 65 – 70 | 0 – 5 | 300 | 88,000 |
| Blynyddol cyfatebol | (75 – 80) | – | – | – | – | – | – | – |

1. Wedi'i archwilio
2. Gadawodd Ed Lester y Gofrestrfa Tir gyda dyddiad gadael o 18 Mawrth 2015; mae ei ystod cyflog a adroddwyd yn cynnwys gwyliau blynyddol heb eu cymryd.
3. Penodwyd John Peaden yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir dros dro o 19 Mawrth 2015.
4. Ymddiswyddodd John Peaden dros dro fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 18 Mawrth 2015.
5. Penodwyd Catherine Vaughan yn Gyfarwyddwr Cyllid o 5 Ionawr 2015.
6. Penodwyd Stephen Park yn Gyfarwyddwr Cyllid dros dro ar 28 Ebrill 2014. O 28 Ebrill i 31 Mai 2014 cafodd ei dalu trwy asiantaeth swyddogion gweithredol. O dan y telerau yn ystod y cyfnod hwn derbyniodd asiantaeth swyddogion gweithredol dros dro £24,940 ar gyfer gwasanaethau safonol, ac o'r rhain cadwodd yr asiantaeth £3,366.90. Hefyd talodd y Gofrestrfa Tir yr asiantaeth TAW o £4,988, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu adennill hwn.
7. Trosglwyddwyd Stephen Park i'r gyflogres o 1 Mehefin 2014 a thalwyd ffi drosglwyddo o £17,760 i asiantaeth swyddogion gweithredol. Hefyd talodd y Gofrestrfa Tir yr asiantaeth TAW o £3,552, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu adennill hwn. Gadawodd Stephen Park y Gofrestrfa Tir gyda dyddiad gadael o 16 Ionawr 2015.
8. Gadawodd Camilla Black y Gofrestrfa Tir ar 9 Mai 2014. O dan delerau'r penodiad hwn derbyniodd asiantaeth swyddogion gweithredol dros dro £30,160 ar gyfer gwasanaethau safonol, ac o'r rhain cadwodd yr asiantaeth £4,071.60. Hefyd talodd y Gofrestrfa Tir yr asiantaeth TAW o £6,032, ac nid oedd y Gofrestrfa Tir yn gallu adennill hwn.
9. Penodwyd Maggie Telfer yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau dros dro o 19 Mawrth 2015.
10. Penodwyd Paul Dowse yn Gyfarwyddwr Strategaeth dros dro o 1 Ebrill 2014.
11. Penodwyd Jon Parry yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol dros dro o 5 Ionawr 2015.
12. Ymddiswyddodd Eddie Davies fel Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro ar 5 Medi 2014.
13. Nid yw un o'r cyfarwyddwyr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid.

**Cyflog - cyfarwyddwyr anweithredol[1]**

| | 2014/15<br>£'000 | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|
| Mark Boyle<br>Cadeirydd Anweithredol | 60 – 65 | 60 – 65 |
| Tim Franklin<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – |
| Catrina Holme<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – |
| Leo Geddes[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | – | – |
| Gerard Connell<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 10 – 15 |
| Blynyddol cyfatebol | – | (20 – 25) |

1. Wedi'i archwilio.
2. Mae Leo Geddes yn weithiwr amser llawn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau; nid yw'n cael unrhyw dâl ychwanegol gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer ei rôl fel cyfarwyddwr anweithredol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y codir treth y DU arnynt. Mae'r tabl ar dudalen 60 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau perfformiad yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae dyfarniadau perfformiad yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn pan gawsant eu talu i'r unigolyn. Mae'r dyfarniadau perfformiad a nodwyd yn 2014/15 yn ymwneud â pherfformiad yn 2013/14 ac mae'r dyfarniadau perfformiad cymharol a nodwyd ar gyfer 2013/14 yn ymwneud â pherfformiad yn 2012/13.

### Buddion pensiwn[1]

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 | | Cyfanswm a gronnwyd Mawrth 2015 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | 2015 | 2014[2] | |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Ed Lester[3] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 2.5 – 5.0 | – | 5 – 10 | – | 107 | 51 | 43 |
| John Peaden[4] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 40 – 45 | 130 – 135 | 940 | 877 | 20 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 35 – 40 | 110 – 115 | 761 | 708 | 17 |
| Catherine Vaughan[5] Cyfarwyddwr Cyllid | 0.0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 6 | – | 4 |
| Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 0.0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 35 | 8 | 19 |
| Maggie Telfer[6] Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 0.0 – 2.5 | 0.0 – 2.5 | 25 – 30 | 80 – 85 | 459 | 428 | 9 |
| Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 30 – 35 | 100 – 105 | 696 | 645 | 19 |
| Paul Dowse Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro | 0.0 – 2.5 | 5.0 – 7.5 | 25 – 30 | 85 – 90 | 425 | 375 | 30 |
| Jon Parry[7] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro | – | – | – | – | – | – | – |
| Eddie Davies Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid Dros Dro | 0.0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 20 – 25 | 70 – 75 | 372 | 344 | 9 |

1. Wedi’i archwilio
2. Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn 2013/14. Mae’r gwerthoedd ar 31/3/14 a 31/3/15 wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio’r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae’r gwerthoedd ar 31/3/14 yn wahanol i’r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio’r ffactorau blaenorol.
3. Ed Lester tan 18 Mawrth 2015.
4. John Peaden Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir dros dro o 19 Mawrth 2015, Cyfarwyddwr Gweithrediadau cyn hynny.
5. Catherine Vaughan o 5 Ionawr 2015.
6. Maggie Telfer o 19 Mawrth 2015.
7. Nid yw Jon Parry yn aelod o gynllun pensiwn y Gofrestrfa Tir.
8. Nid oedd unrhyw gyfarwyddwr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau budd wedi'i ddiffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5 y cant a 6.85 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ac 8.85 y cant ar gyfer cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium a classic plus a 65 oed ar gyfer aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

Bydd trefniadau pensiwn Tâl Cyfartaledd Gyrfa newydd yn cael eu cyflwyno o 1 Ebrill 2015 a bydd y mwyafrif o aelodau classic, premium, classic plus a nuvos yn ymuno â'r cynllun.

Mae manylion pellach am y cynllun newydd hwn ar gael ar www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn gŵr neu wraig sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i aelodau o ganlyniad iddynt brynu budd pensiwn ychwanegol o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill - pecynnau ymadael**[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2014 | 2015 | 2014 | 2015 | 2014 |
| £0–£10,000 | – | – | 2 | – | 2 | – |
| £10,001–£25,000 | – | – | 10 | 2 | 10 | 2 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 27 | 15 | 27 | 15 |
| £50,001–£100,000 | – | – | 25 | 2 | 25 | 2 |
| £100,001–£150,000 | – | – | 4 | 2 | 4 | 2 |
| £150,001–£200,000 | – | – | 1 | – | 1 | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | – | – | 69 | 21 | 69 | 21 |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£3,621,025** | **£1,004,362** | **£3,621,025** | **£1,004,362** |

1. Wedi'i archwilio

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw'r Gofrestrfa Tir wedi cytuno i ymddeoliadau cynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia yn 2014/15 (2013/14: dim).

## Digolledu am golli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i ymadael. Os yw'n gymwys, mae'r costau ychwanegol o brynu allan budd pensiwn is yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cymarebau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau, yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 150 – 155 | 135 – 140 |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | **28,359** | **27,394** |
| Cymhareb tâl | 5.4 | 5.0 |

Yn 2014/15, ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £150,000 - £155,000 i £15,000 - £20,000, (2013/14: £135,000 - £140,000 i £15,000 - £20,000).

Roedd y cyflog canolrif wedi cynyddu'n rhannol oherwydd dilyniant tâl lle y bo'n gymwys yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys Cyflogaeth. Cynyddodd tâl y Prif Weithredwr yn sgil dyfarnu bonws perfformiad am y flwyddyn 2013/14.

Byddai defnyddio tâl cyfarwyddwr dros dro a benodwyd yn Ionawr 2015 am gyfnod byr i ddarparu arbenigedd mewn rôl allweddol yn ystod cyfnod o newid mawr yn ystumio'r gymhareb tâl dros y tymor hwy, ac felly nid yw wedi'i ddangos uchod.

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015



# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Prif Gofrestrydd Tir a'r archwilydd**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Gofrestrydd Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad pwysig, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cofrestrfa Tir EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ei bod yn anghywir neu'n anghyson yn faterol â'r wybodaeth a gafwyd gennyf i wrth gyflawni'r archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau pwysig rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn :

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2015 a'i gwaged a gadwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn :

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu nid yw manylion priodol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu a'r manylion, neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

18 Mehefin 2015



# Datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | | **2015** | 2014 |
|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | £'000 |
| Incwm - gweithrediadau parhaus | 2 | **297,080** | 381,278 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(236,571)** | (227,871) |
| Gwarged gros | | **60,509** | 153,407 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(12,968)** | (12,053) |
| **Gwarged gweithredu** | | **47,541** | 141,354 |
| (Colled)/Elw ar waredu asedau anghyfredol | | **(10)** | 66 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **1,881** | 1,622 |
| Costau cyllid | 6 | **(899)** | (953) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | 8.1, 9.1 | **(3,530)** | (5,357) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(5,347)** | (1,630) |
| Costau datblygu | 3.3 | **(3,028)** | – |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **36,608** | 135,102 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(19,114)** | (26,654) |
| Difidend arbennig | 7 | **(100,000)** | (100,000) |
| **(Colled)/gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **(82,506)** | 8,448 |
| (Colled)/Enillion ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **(1,074)** | 1,373 |
| **(Colled)/gwarged cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **(83,580)** | 9,821 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 97 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | | 2015 | | 2014 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **80,262** | | 87,334 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **7,590** | | 11,194 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **1,357** | | 1,771 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **89,209** | | 100,299 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **2,489** | | 1,615 | |
| Masnach ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **7,818** | | 9,616 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **397,752** | | 464,639 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **408,059** | | 475,870 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **12,150** | | 12,950 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **509,418** | | 589,119 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **48,173** | | 46,393 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 15.1 | **621** | | 1,376 | |
| Darpariaethau byrdymor | 17.1 | **10,218** | | 10,015 | |
| | | | **59,012** | | 57,784 |
| Y Gronfa Indemniad | 17.2 | | **73,600** | | 64,900 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **132,612** | | 122,684 |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **376,806** | | 466,435 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 15.1 | **5,215** | | 6,548 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17.1 | **11,265** | | 15,466 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **16,480** | | 22,014 |
| **Asedau net** | | | **360,326** | | 444,421 |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa ailbrisio | | | **31,474** | | 32,680 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **267,307** | | 350,196 |
| | | | **360,326** | | 444,421 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 97 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
17 Mehefin 2015

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | Cronfa ailbrisio | Cronfa Incwm a Gwariant | Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2013 | 61,545 | 32,494 | 341,470 | 435,509 |
| Newidiadau mewn cronfeydd 2013/14 | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | – | (278) | 278 | – |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | – | (909) | – | (909) |
| Gwarged cynhwysfawr | – | 1,373 | 8,448 | 9,821 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2014 | 61,545 | 32,680 | 350,196 | 444,421 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd 2014/15** | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | **–** | **(132)** | **271** | **139** |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | **–** | **–** | **(654)** | **(654)** |
| Diffyg cynhwysfawr | **–** | **(1,074)** | **(82,506)** | **(83,580)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | **61,545** | **31,474** | **267,307** | **360,326** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 97 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | **2015** £'000 | 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **57,932** | 139,599 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(1,976)** | (1,725) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(467)** | (77) |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **1,450** | 1,755 |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,656** | 1,139 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **663** | 1,092 |
| **Gweithgareddau cyllido** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(121,654)** | (145,960) |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(2,929)** | (1,722) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(899)** | (953) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(125,482)** | (148,635) |
| **Gostyngiad net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **(66,887)** | (7,944) |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **464,639** | 472,583 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **397,752** | 464,639 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 97 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014/15 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6) (a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol.

Mae un safon IFRS wedi cael ei chyhoeddi ond nid yw'n weithredol eto, am y cyfnod cyfrifyddu dan sylw, sef IFRS 13 Gwerth Teg - Mesur, sydd wedi cael ei pharatoi i ddarparu cyfarwyddyd cyson ar fesur gwerth teg. Mae'n amodol ar adolygiad pellach gan Drysorlys EM cyn ei mabwysiadu, ond ni ddisgwylir iddi gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Technegau amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r barnau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad pwysig i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yw

Nodyn 17.2 - darpariaeth a amcangyfrifir ar gyfer hawliadau indemniad.

Nodyn 8 - amhariad o asedau anghyfredol.

Nodyn 17.1 - ymddeoliad cynnar a darpariaethau taliad diswyddo.

Nodyn 13 - incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw.

### 1.4 Incwm

Mae incwm o ffioedd a thaliadau yn cael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus wedi cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Yn achos rhai gwasanaethau rhaid anfon y tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel 'ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw' a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol. Mae ffioedd yn cael eu cydnabod pan fydd y gofrestr wedi cael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Segmentau gweithredu

Mae segmentau gweithredu'r Gofrestrfa Tir wedi'u trefnu o gwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac fe'u hadroddir mewn ffordd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r prif benderfynwr gweithredu. Y tri phrif segment busnes yw Cofrestru Teitl, Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ac Incwm Masnachol. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol y grŵp a'r strwythur rheoli, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif benderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu'r Gofrestrfa Tir yw Graham Farrant.

*Pridiannau Tir Lleol*

Yn dilyn pasio Deddf Seilwaith 2015, mae'r Gofrestrfa Tir wedi cael cyfrifoldeb am gofrestru pridiannau tir lleol. Wrth baratoi ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn, mae gwariant cysylltiedig yn cael ei fynegi fel gwariant sydd wedi codi oherwydd nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu. Fe'i cofnodir yn y cyfrifon o dan 'Costau Datblygu'.

### 1.6 Yswiriant

Codir yswiriant ar y datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd i yswirio eiddo, lifftiau, defnyddio ceir llog a theithio dramor.

**1.7 Buddion gweithwyr**
Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr byrdymor fel traul yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynllun neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

**1.8 Pensiynau**
Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae'r Gofrestrfa Tir wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r Cynllun o dan IAS 19 fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar y Cynllun.

**1.9 Eiddo, offer a chyfarpar**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Cafodd prisiad bwrdd gwaith ei gynnal yn Ionawr 2015.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai brasamcan o werth gweddillol asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys TG ac offer swyddfa a pheiriannau. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r gwerth lleiaf ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi'r Gofrestrfa Tir yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn berthnasol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | | cyfnod y brydles |
| Offer telegyfathrebu | | 20 y cant |
| Offer swyddfa | | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm | 20 y cant |
| | cyfrifiaduron personol | $33^{1}/_{3}$ y cant |
| Ceblo strwythuredig | | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.10 Amhariad o asedau anghyfredol**
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw dâl dros ben wedi'i nodi yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth wrth ddefnyddio. Wrth asesu gwerth wrth ddefnyddio mae'r llifoedd arian parod a amcangyfrifir yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.11 Asedau anniriaethol**
*Trwyddedau meddalwedd*
Mae asedau anniriaethol a gafaelwyd ar wahân yn cael eu dangos am gost hanesyddol. Mae'r costau sy'n codi i brynu a defnyddio'r asedau hyn wedi'u cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau contractwyr, deunyddiau, llafur i'w briodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o

| | |
|---|---|
| Prif-ffrâm | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron personol | $33^{1}/_{3}$ y cant |

*Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, gall y gwariant ar ddatblygu is-adeiledd TG newydd (yn cwmpasu costau trydydd parti a'r costau uniongyrchol o ymdrechion staff mewnol) gael ei gyfalafu. Mae costau datblygu na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw wedi'u rheoli gan y Gofrestrfa Tir yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni.

- Mae'n ymarferol yn dechnegol i gwblhau'r cynnyrch meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio.
- Mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio neu ei werthu.
- Gellir defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd.
- Gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol.
- Mae adnoddau technegol, ariannol ac eraill digonol ar gael i gwblhau'r gwaith datblygu neu ddefnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd.
- Gall y gwariant i'w briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei ddatblygiad gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi'u cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Mae gwariant datblygu arall sydd heb fodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod fel cost a gododd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel treuliau yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

*Porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway*
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio bellach i ddarparu e-wasanaethau. Mae costau datblygu'r systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael eu cyfalafu fel asedau anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r asedau hyn yn cael eu hamorteiddio bellach ar sail llinell syth, ar gyfradd o 12.5 y cant dros oes ddefnyddiol ddiwygiedig y systemau, sydd wedi cael ei phennu drwy gyfeirio at oes ddefnyddiol asedau tebyg sy'n cael eu defnyddio yn y Gofrestrfa Tir. Os yw gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud i'r systemau hyn, mae'r costau sy'n codi yn cael eu trin fel cydran ar wahân a gellir eu cyfalafu (yn amodol ar fodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu o fewn IAS 38). Mae'r cydrannau hyn yn cael eu hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol.

**1.12 Stocrestrau**
Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gost a gwerth realeiddio net. Mae'r gost yn cynnwys costau mewnol staff a gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wrth baratoi tystysgrif y Gofrestrfa Tir i'r cwsmer. Mae gwerth realeiddio net yn seiliedig ar y ffi a godir ar y cwsmer llai'r costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r gwasanaethau.

**1.13 Masnach i'w dderbyn**
Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi yng nghostau gweinyddol o fewn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

Os yw symiau i'w derbyn yn disgwyl cael eu casglu o fewn blwyddyn neu lai cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

**1.14 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS), arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol. Mae'r banc masnachol a'r adneuon GBS yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith. Mae adneuon y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn fuddsoddiadau byrdymor o chwe mis neu lai ac ni ellir eu had-dalu nes bydd y benthyciad yn aeddfedu.

**1.15 Masnach i'w dalu**
Mae masnach i'w dalu yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon i'w talu wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm sy'n cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

**1.16 Deilliadau wedi'u corffori**
Mae deilliadau wedi'u corffori mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân. Nid yw adolygiad o brif gontractau'r Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u corffori ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.17 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Os yw effaith disgowntio yn berthnasol, mae darpariaethau yn cael eu disgowntio i'r gwerth presennol disgwyliedig o'u llifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfradd disgownt rhydd o risg. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. (Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys materion sensitifrwydd, yn Nodyn 17.)

**1.18 Y Gronfa Indemniad**
Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a cholli dogfennau gan y Gofrestrfa. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau indemniad y Gofrestrfa Tir yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i dwyllo dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn wahanol. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan y Gofrestrfa Tir i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran amseriad a swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi'i sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o wariant sy'n ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r brasamcan o gost hawliadau yn cynnwys treuliau sydd wedi codi wrth setlo'r hawliadau hyn.

Mae swm sy'n cario o'r Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn cael eu hadolygu bob chwarter gan y Gofrestrfa Tir, gyda chymorth ei hactiwarïaid Lane, Clark & Peacock LLP.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, mae adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) yn cael ei wneud i weld a yw'r gronfa indemniad wedi'i phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setliad tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn nodyn 17.2 o'r adroddiad hwn.

**1.19 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler nodyn 19.1).

**1.20 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a gwobrwyon perchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.21 Prydlesi gweithredu**
Prydles weithredu yw unrhyw brydles heblaw prydles gyllid. Codir taliadau a wnaed o dan brydlesi gweithredu, yn glir o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd gan y prydleswr, (gan gynnwys contractau gyda chymalau uwchgyfeirio sefydlog), i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**1.22 Taliadau i gyflenwyr Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat**
Daeth cytundeb rhwng Sorpa Steria a'r Gofrestrfa Tir i ddarparu offer cyfrifiadurol a'r seilwaith TG sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid, ynghyd â chynnal a chadw'r offer, i ben ar 22 Gorffennaf 2014, a'r pryd hynny trosglwyddwyd y gwasanaeth i dîm gwasanaeth rheoli TG mewnol. Mae taliadau o dan y contract hyd at 22 Gorffennaf 2014 wedi'u dyrannu rhwng taliadau ar gyfer yr asedau a'r taliadau ar gyfer cynnal a chadw yn seiliedig ar werthoedd perthynol y gwasanaethau a ddarperir.

O 22 Gorffennaf 2014, cafodd unrhyw brydlesi heb eu cymryd eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r Gofrestrfa Tir ac maent yn parhau i gael eu trin o dan gyfarwyddyd IAS 17 Prydlesi. Mae IAS 17 yn ei gwneud hi'n ofynnol i eiddo, offer a chyfarpar, os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw'n sylweddol holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchen ar yr asedau hynny, gael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles ar yr isaf o werth teg yr eiddo a brydlesir a gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf.

Mae pob taliad prydles yn cael ei ddyrannu rhwng atebolrwydd a thaliadau cyllid. Mae'r rhwymedigaethau rhentu, yn glir o daliadau cyllid, wedi'u cynnwys yn y symiau taladwy hirdymor eraill. Codir elfen llog y gost

gyllid i'r datganiad o incwm cynhwysfawr dros gyfnod y brydles. Mae'r offer a brynwyd o dan y brydles cyllid gyda Steria yn cael eu dibrisio dros y byrraf o oes ddefnyddiol yr ased a chyfnod y brydles.

**1.23 TAW**

Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau y Trysorlys. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu'n cael ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.24 Trethu**

Fel cronfa fasnachu, nid yw'r Gofrestrfa Tir yn atebol i dalu Treth Gorfforaeth.

**1.25 Incwm llog**

Mae incwm llog yn cynrychioli'r llog i'w dderbyn ar yr adneuon banc byrdymor ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail croniadau.

**1.26 Difidend y Trysorlys**

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 4.6 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith berthnasol os yw'r ffigur hwn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio dull arall e.e. cyfartaledd misol.

**1.27 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**

O dan IAS 8 *Newidiadau polisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu*, mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau, neu gamddatganiadau.

Ni chafwyd unrhyw ailddatganiadau cyfnod blaenorol yn 2014/15.

# 2 Segmentau busnes

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 (IFRS 8) - Adrodd am Segmentau Gweithredu, yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddadansoddi incwm a gwariant yn ôl prif weithgareddau busnes.

Mae tri maes ar wahân ar gyfer y gwasanaethau statudol a gyflenwir gan y Gofrestrfa Tir: cofrestru teitl; cofrestru pridiannau tir; a chofrestru morgeisi a wneir o dan y Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. At ddibenion gweithredol, mae'r Gofrestrfa Tir yn cyfuno cyflawni'r ddau wasanaeth olaf hyn ac adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad hwn o segmentau.

Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau masnachol a ddangosir ar wahân fel segment busnes.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am yr incwm o ffioedd statudol a thaliadau masnachol, cost y gwasanaeth a'r gwarged net ar gyfer pob un o'r segmentau busnes. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu nodi ar wahân gyda'r gwasanaeth neu fel arall cânt eu dosrannu yn ôl yr incwm a gynhyrchir gan bob segment.

| | **Statudol** | | **Anstatudol** | **2015** | Statudol | | Anstatudol | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannau tir a chredydau amaethyddol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannau tir a chredydau amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **286,696** | **5,749** | **4,635** | **297,080** | 371,777 | 5,585 | 3,916 | 381,278 |
| Cost gwasanaeth | **(228,716)** | **(5,253)** | **(2,602)** | **(236,571)** | (219,047) | (5,083) | (3,741) | (227,871) |
| Costau gweinyddol | **(12,376)** | **(260)** | **(332)** | **(12,968)** | (11,505) | (279) | (269) | (12,053) |
| **Gwarged gweithredu (diffyg)** | **45,604** | **236** | **1,701** | **47,541** | 141,225 | 223 | (94) | 141,354 |

Mae dadansoddiad mwy manwl o'r incwm ar gyfer pob segment i'w weld yn Nodyn 2.1

Mae'r gwarged am y flwyddyn ar incwm masnachol o £1.7m yn uwch na'r disgwyl. Roedd refeniw yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd o ganlyniad i ohirio digomisiynu rhai gwasanaethau a chynnydd annisgwyl yn y galw am wasanaethau roeddem wedi barnu eu bod yn crebachu. Yn ogystal, roedd costau ein gwasanaethau yn is na'r disgwyl o ganlyniad i oedi wrth ddatblygu gwasanaethau newydd arfaethedig a lleihad yn nifer y staff. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu model prisio cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau masnachol dros y tymor hwy ac felly bydd y gwarged uwch na'r disgwyl ar gyfer 2014/15 yn cael ei ddefnyddio i gyllido datblygiadau a gynlluniwyd, er bod hynny'n hwyrach nag yr amserlenwyd ar ei gyfer yn flaenorol.

## 2.1 Incwm

Roedd incwm y Gofrestrfa Tir ar gyfer 2014/15 sy'n deillio o ffioedd a thaliadau, wedi'i ddadansoddi yn ôl segment busnes a math o wasanaeth, fel a ganlyn:

### Dadansoddiad Refeniw

| | **Statudol** | | **Anstatudol** | | Statudol | | Anstatudol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannau tir a chredydau amaethyddol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannau tir a chredydau amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | | | | **2015** | | | | 2014 |
| **Incwm: Ffioedd** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd Gwasanaethau Ymholiad | **17,349** | **–** | **–** | **17,349** | 16,101 | – | – | 16,101 |
| Ffioedd Deliadau | **165,456** | **–** | **–** | **165,456** | 249,868 | – | – | 249,868 |
| Ffioedd Cofrestriad Cyntaf | **15,398** | **–** | **–** | **15,398** | 17,343 | – | – | 17,343 |
| Ffioedd Trosglwyddiad o Rannau | **23,593** | **–** | **–** | **23,593** | 21,310 | – | – | 21,310 |
| Ffioedd Prydles Gyntaf (DFL) | **20,174** | **–** | **–** | **20,174** | 19,902 | – | – | 19,902 |
| Ffioedd Pridiannau Tir | **–** | **5,749** | **–** | **5,749** | – | 5,585 | – | 5,585 |
| Ad-daliadau Ffioedd | **(2,057)** | **–** | **–** | **(2,057)** | (3,072) | – | – | (3,072) |
| Ffioedd Copi Swyddfa | **38,363** | **–** | **–** | **38,363** | 41,140 | – | – | 41,140 |
| Ffioedd Chwiliadau | **6,928** | **–** | **–** | **6,928** | 6,751 | – | – | 6,751 |
| Ffioedd Map Mynegai (SIM) | **1,484** | **–** | **–** | **1,484** | 2,422 | – | – | 2,422 |
| Ffioedd Eraill | **8** | **–** | **–** | **8** | 12 | – | – | 12 |
| **Ffioedd Statudol** | **286,696** | **5,749** | **–** | **292,445** | 371,777 | 5,585 | – | 377,362 |
| **Incwm Masnachol** | | | | | | | | |
| Data Anofodol | **–** | **–** | **156** | **156** | – | – | 181 | 181 |
| Data Gofodol | **–** | **–** | **958** | **958** | – | – | 597 | 597 |
| Gwasanaethau Ymgynghorol | **–** | **–** | **1,996** | **1,996** | – | – | 1,864 | 1,864 |
| Gwasanaethau Marchnad Ariannol | **–** | **–** | **289** | **289** | – | – | 258 | 258 |
| Incwm Gwasanaethau Masnachol | **–** | **–** | **949** | **949** | – | – | 906 | 906 |
| Gwasanaethau Data | **–** | **–** | **152** | **152** | – | – | – | – |
| Dangosydd Risg Llifogydd | **–** | **–** | **135** | **135** | – | – | 110 | 110 |
| **Incwm Masnachol** | **–** | **–** | **4,635** | **4,635** | – | – | 3,916 | 3,916 |
| **Cyfanswm Incwm** | **286,696** | **5,749** | **4,635** | **297,080** | 371,777 | 5,585 | 3,916 | 381,278 |

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu at ddiben dadansoddi ffioedd a thaliadau'r Gofrestrfa Tir ac nid at ddibenion dadansoddi segmentau IFRS 8. Nid yw dadansoddiad manwl o'r taliadau yn ôl gwasanaeth yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd nid yw gwariant yn cael ei gofnodi ar y sail benodol hon. Yn 2015/16, bydd y Gofrestrfa Tir yn datblygu strategaeth ffioedd newydd drwy drafod â Thrysorlys EM. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd dulliau dal costau priodol yn cael eu datblygu. Yn achos incwm masnachol, fel Deiliad Gwybodaeth Sector Cyhoeddus, mae'r Gofrestrfa Tir yn cydymffurfio â'r dyraniad cost a'r gofynion codi tâl a nodwyd yng nghanllawiau Trysorlys EM a Gwybodaeth Sector Cyhoeddus.

# 3 Gwarged gweithredu

## 3.1 Datgenir gwarged gweithredu ar ôl codi amdano

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **165,235** | 154,099 |
| Darpariaeth ar gyfer costau indemniad | **8,700** | (2,900) |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **2,616** | 9,544 |
| Hurio peiriannau | **5,448** | 4,815 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **65** | 65 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **5,042** | 4,471 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **1,082** | 2,089 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **514** | 1,280 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **1,125** | 648 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **1,321** | 1,395 |
| Incwm amrywiol | **(2,265)** | (2,087) |

## 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | | | | **2015** | | | | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **RhTC** | **Cyfan-swm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | RhTC | Cyfan-swm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **157** | **1,348** | **982** | **2,487** | 71 | – | 712 | 783 |
| Costau a ddarparwyd/ (ryddhawyd) yn y flwyddyn | **588** | **2,272** | **–** | **2,860** | 874 | (27) | – | 847 |
| | **745** | **3,620** | **982** | **5,347** | 945 | (27) | 712 | 1,630 |
| Elw ar waredu | **–** | **–** | **–** | **–** | – | – | (56) | (56) |
| | **745** | **3,620** | **982** | **5,347** | 945 | (27) | 656 | 1,574 |

Mae'r elw ar waredu yn cyfeirio at werthu Brickdale House, Stevenage fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC).

## 3.3 Costau datblygu Pridiannau Tir Lleol

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **3,028** | – |
| | **3,028** | – |

Roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i'r Gofrestrfa Tir am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol ac rydym wrthi'n datblygu'r gwasanaeth statudol hwn fel segment busnes newydd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gwasanaeth hwn wedi'u cofnodi ar wahân a'u dangos yn y tabl. Cafodd symiau ar gyfer 2013/14 eu cynnwys o fewn costau gweithredu yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn honno oherwydd nid oedd unrhyw awdurdod statudol ar gyfer y gwasanaeth newydd y pryd hynny.

# 4 Gwybodaeth gweithwyr

## 4.1 Costau staff

| | | | **2015** | | | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **128,319** | **4,116** | **132,435** | 121,510 | 1,506 | 123,016 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **9,802** | **36** | **9,838** | 9,080 | 21 | 9,101 |
| Costau pensiwn eraill | **22,886** | **76** | **22,962** | 21,932 | 50 | 21,982 |
| Cyfanswm costau staff | **161,007** | **4,228** | **165,235** | 152,522 | 1,577 | 154,099 |

## 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

| | | | **2015** | | | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | **7** | **1** | **8** | 7 | 1 | 8 |
| Gweithredol | **3,369** | **9** | **3,378** | 3,425 | 1 | 3,426 |
| Gweinyddol | **234** | **18** | **252** | 231 | 8 | 239 |
| TG | **354** | **41** | **395** | 357 | 12 | 369 |
| | **3,964** | **69** | **4,033** | 4,020 | 22 | 4,042 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Tâl ar dudalennau 57 i 65.

## 4.4 Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer 2014/15 roedd cyfraniadau cyflogwr o £22.9 miliwn (2013/14: £21.9 miliwn) yn daladwy i'r Cynllun ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.7 y cant i 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2014/15 sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Cyfraniadau cyflogwr y Gofrestrfa Tir i bensiynau budd-ddeiliaid partneriaeth ar gyfer 2014/2015 oedd £49,316 (2013/14: £32,599). Hefyd cyfrannodd y Gofrestrfa Tir £3,208 pellach (2013/14: £2,109) i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd). Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol neu gyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw yn berthnasol. Roedd tri unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronnus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £23,558 (2013/14: £9,743).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr adroddiad Tâl ar dudalennau 57 i 65 a nodyn 1.8 ar dudalen 74.

# 5 Incwm buddsoddi

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **1,881** | 1,622 |

# 6 Costau cyllid

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **899** | 953 |

# 7 Difidend i'w dalu

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **19,114** | 26,654 |
| Difidend arbennig | **100,000** | 100,000 |
| | **119,114** | 126,654 |

Yn Chwefror 2015 talwyd difidend arbennig i Drysorlys EM.

Ym Mawrth 2015 gwnaethpwyd taliad interim o £15 miliwn mewn perthynas â'r difidend cyffredin.

Gweler nodyn 1.26 ar dudalen 77 ar gyfer y polisi cyfrifyddu sy'n ymwneud â thaliadau difidend.

# 8 Eiddo, offer a chyfarpar

## 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **13,962** | **55,373** | **28,503** | **656** | **73,061** | **4,934** | **176,489** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **2,317** | **344** | **2,661** |
| Asedau'n wedi'u dwyn i'w defnyddio | **–** | **139** | **–** | **(172)** | **17** | **–** | **(16)** |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | **(151)** | **832** | **(2,405)** | **–** | **(468)** | **–** | **(2,192)** |
| Ailddosbarthu asedau | **–** | **–** | **–** | **(484)** | **59** | **–** | **(425)** |
| Amhariad | **–** | **(2)** | **(455)** | **–** | **–** | **–** | **(457)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **(9,472)** | **(866)** | **(10,338)** |
| Ar 31 Mawrth 2015 | **13,811** | **56,342** | **25,643** | **–** | **65,514** | **4,412** | **165,722** |

| **Dibrisiad ac amhariad cronedig** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2014 | **–** | **14,232** | **7,109** | **–** | **64,036** | **3,778** | **89,155** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **–** | **1,518** | **1,287** | **–** | **4,465** | **199** | **7,469** |
| Ailbrisiad cost cyfredol | **–** | **(515)** | **(731)** | **–** | **–** | **–** | **(1,246)** |
| Ailddosbarthu asedau | **–** | **–** | **–** | **–** | **59** | **–** | **59** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **(9,118)** | **(859)** | **(9,977)** |
| Ar 31 Mawrth 2015 | **–** | **15,235** | **7,665** | **–** | **59,442** | **3,118** | **85,460** |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2015 | **13,811** | **41,107** | **17,978** | **–** | **6,072** | **1,294** | **80,262** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 13,962 | 54,999 | 27,648 | 155 | 72,897 | 5,268 | 174,929 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 664 | 1,338 | 40 | 2,042 |
| Asedau'n wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | (163) | 133 | – | (30) |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | – | 791 | 582 | – | – | – | 1,373 |
| Ailddosbarthu asedau | – | (416) | 417 | – | 2,243 | – | 2,244 |
| Amhariad | – | – | (144) | – | – | – | (144) |
| Gwarediadau | – | (1) | – | – | (3,550) | (374) | (3,925) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 13,962 | 55,373 | 28,503 | 656 | 73,061 | 4,934 | 176,489 |

### Dibrisiad ac amhariad cronedig

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2013 | – | 13,326 | 6,308 | – | 60,007 | 3,899 | 83,540 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | 1,526 | 1,298 | – | 5,146 | 228 | 8,198 |
| Ailbrisiad cost cyfredol | – | (529) | (587) | – | – | – | (1,116) |
| Ailddosbarthu asedau | – | (90) | 90 | – | 2,243 | – | 2,243 |
| Gwarediadau | – | (1) | – | – | (3,360) | (349) | (3,710) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | – | 14,232 | 7,109 | – | 64,036 | 3,778 | 89,155 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2014 | 13,962 | 41,141 | 21,394 | 656 | 9,025 | 1,156 | 87,334 |

Gweler nodyn 1.9 ar dudalen 74 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.
Gweler nodyn 1.10 ar dudalen 74 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.
Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.2 miliwn (2013/14: £3.77 miliwn). Yn y flwyddyn codwyd £0.3 miliwn o ddibrisiad, £2.1 miliwn o ailbrisiad i lawr a thâl amhariad o £0.3m ar yr asedau prydles cyllid hyn.
Codwyd £0.1 miliwn o ddibrisiad i amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth

## 8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu

Trosglwyddwyd Chalfont Drive, Nottingham i asedau a ddelir i'w gwerthu yn 2012/13 ac yn 2014/15 fe'i hailwerthuswyd am werth teg llai costau gwerthu am y swm o £12.2 miliwn.

# 9 Asedau anniriaethol

## 9.1 Cost

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **42,858** | **70,282** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | **509** | **509** |
| Asedau'n wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | **16** | **16** |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | **(59)** | **(59)** |
| Ailbrisiad | – | – | – | **(186)** | **(186)** |
| Gwarediadau | – | – | – | **(1,018)** | **(1,018)** |
| Ar 31 Mawrth 2015 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **42,120** | **69,544** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **6,057** | **9,980** | **1,104** | **41,947** | **59,088** |
| Tâl am y flwyddyn | **1,211** | **1,996** | **222** | **514** | **3,943** |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | **(59)** | **(59)** |
| Gwarediadau | – | – | – | **(1,018)** | **(1,018)** |
| Ar 31 Mawrth 2015 | **7,268** | **11,976** | **1,326** | **41,384** | **61,954** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2015** | **2,423** | **3,991** | **440** | **736** | **7,590** |

## 9.2 Cost

| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2013 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 52,002 | 79,426 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 46 | 46 |
| Asedau'n wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | 31 | 31 |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | (2,243) | (2,243) |
| Gwarediadau | – | – | – | (6,978) | (6,978) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 42,858 | 70,282 |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 4,442 | 7,319 | 544 | 49,858 | 62,163 |
| Tâl am y flwyddyn | 969 | 1,597 | 177 | 1,280 | 4,023 |
| Newid i oes ased | 646 | 1,064 | 383 | – | 2,093 |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | (2,243) | (2,243) |
| Gwarediadau | – | – | – | (6,948) | (6,948) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 6,057 | 9,980 | 1,104 | 41,947 | 59,088 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2014 | 3,634 | 5,987 | 662 | 911 | 11,194 |

Gweler nodyn 1.11 ar dudalen 74 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Codwyd £3.4 miliwn o amorteiddio i amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth.

# 10 Stocrestrau

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwaith ar y gweill | **2,489** | 1,615 |
| | **2,489** | 1,615 |

# 11 Masnach ac eraill i'w derbyn

### 11.1 Cyfredol

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dderbyn | **2,238** | 2,250 |
| Eraill i'w derbyn | **1,994** | 2,702 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **3,586** | 4,664 |
| | **7,818** | 9,616 |

Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer darparu gwasanaethau yw dau ddiwrnod. Ni chodir unrhyw log ar yr hyn sydd i'w dderbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer brasamcan o'r symiau nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad diffygdalu yn y gorffennol.

### 11.2 Anghyfredol

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Eraill i'w derbyn | **375** | 453 |
| Rhagdaliadau | **982** | 1,318 |
| | **1,357** | 1,771 |

Bernir bod y swm sy'n cario o fasnach ac eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg. Wedi'i gynnwys o fewn rhagdaliadau mae £585.6k sy'n ymwneud ag offer sganio ar gyfer yr Ystafell Bost Rithwir.

# 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **36,539** | 6,828 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **30,817** | 36,930 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | **330,396** | 420,881 |
| | **397,752** | 464,639 |

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian parod a masnach ac eraill i'w derbyn, sy'n cynrychioli'r uchafswm risg credyd mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach ac eraill i'w derbyn ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn glir o lwfansau ar gyfer symiau amheus i'w derbyn, wedi'u hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn bennaf.

# 13 Masnach ac eraill i'w talu

## 13.1 Cyfredol

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Masnach i'w dalu | **2,801** | 1,476 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **2,598** | 2,596 |
| Eraill i'w talu | **2,512** | 2,433 |
| Croniadau | **23,203** | 21,292 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - Adeiladau | **146** | 357 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - Offer Cyfrifiadurol | **475** | 1,019 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **12,945** | 11,942 |
| Difidend i'w dalu | **4,114** | 6,654 |
| | **48,794** | 47,769 |

Mae masnach ac eraill i'w talu yn cynnwys symiau sydd i'w talu ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer eitemau masnach a brynwyd yw wyth niwrnod. Bernir bod y swm sy'n cario o'r eitemau masnach i'w talu yn frasamcan o'u gwerth teg.

## 13.2 Anghyfredol

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - Adeiladau | **5,089** | 5,236 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - Offer Cyfrifiadurol | **126** | 1,312 |
| | **5,215** | 6,548 |

# 14 Gweddillion rhynglywodraethol

## 14.1 I'w derbyn

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2014 | 2015 | 2014 |
| **Gweddillion gyda** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **1,858** | 2,741 | **–** | – |
| Awdurdodau lleol | **683** | 44 | **–** | – |
| Corfforaethau cyhoeddus | **–** | 102 | **–** | – |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **2,541** | 2,887 | **–** | – |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **5,277** | 6,729 | **1,357** | 1,771 |
| **Cyfanswm i'w derbyn** | **7,818** | 9,616 | **1,357** | 1,771 |

### 14.2 Symiau i'w talu

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2015** | 2014 | **2015** | 2014 |
| **Gweddillion gyda** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **10,244** | 13,952 | **–** | – |
| Awdurdodau lleol | **95** | 47 | **–** | – |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | **31** | 1,338 | **–** | – |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **10,370** | 15,337 | **–** | – |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **38,424** | 32,432 | **5,215** | 6,548 |
| **Cyfanswm i'w dalu** | **48,794** | 47,769 | **5,215** | 6,548 |

# 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 15.1 Prydlesi cyllid

| | Isafswm taliadau prydles | | Gwerth presennol isafswm taliadau prydles | |
|---|---|---|---|---|
| | **2015** | 2014 | **2015** | 2014 |
| **Symiau i'w talu o dan brydlesi cyllid** | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **1,322** | 2,228 | **621** | 1,376 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **3,511** | 4,771 | **933** | 2,024 |
| Ar ôl pum mlynedd | **7,614** | 8,460 | **4,282** | 4,524 |
| | **12,447** | 15,459 | **5,836** | 7,924 |
| Llai: taliadau cyllid yn y dyfodol | **(6,611)** | (7,535) | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau prydlesi | **5,836** | 7,924 | | |
| Llai: swm i'w dalu ar gyfer setliad o fewn 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(621)** | (1,376) |
| Swm i'w dalu ar gyfer setliad ar ôl 12 mis | | | **5,215** | 6,548 |

### 15.2 Prydlesi gweithredu

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu a gydnabyddir yn y flwyddyn | **1,444** | 1,750 |
| Incwm o denantiaid | **(123)** | (355) |
| | **1,321** | 1,395 |

Ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau heb eu talu ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **405** | – |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **–** | 540 |
| Ar ôl pum mlynedd | **1,021** | 904 |
| Incwm sy'n ddyledus gan denantiaid | **(65)** | (123) |
| | **1,361** | 1,321 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd lleol Nottingham a Peterborough.

# 16 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2015.

# 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 17.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **Cyfranbrynu tâl dilyniant** | **Arall** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Cyfranbrynu tâl dilyniant | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2015** | | | | | 2014 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **22,789** | **726** | **–** | **1,966** | **25,481** | 28,347 | 444 | – | 2,334 | 31,125 |
| Ailbrisio darpariaeth | **588** | **2,272** | **845** | **125** | **3,830** | 874 | 726 | – | 608 | 2,208 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(5,372)** | **(726)** | **–** | **(1,160)** | **(7,258)** | (6,432) | (417) | – | (663) | (7,512) |
| Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio | **–** | **–** | **–** | **(570)** | **(570)** | – | (27) | – | (313) | (340) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **18,005** | **2,272** | **845** | **361** | **21,483** | 22,789 | 726 | – | 1,966 | 25,481 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau cyfredol | | | | | **10,218** | | | | | 10,015 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau anghyfredol | | | | | **11,265** | | | | | 15,466 |
| | | | | | **21,483** | | | | | 25,481 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £5.5 miliwn yn 2014/15, a darparwyd ar gyfer £5.4 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2014/15. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau staff hynny sy'n gadael y Gofrestrfa Tir o dan delerau rhaglen diswyddo'n gynnar ffurfiol sydd

yn ei lle ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ychwanegiadau yn y flwyddyn hon yn ymwneud ag aelodau staff sydd wedi gwneud ymrwymiad cadarn i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2014/15. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £2.3 miliwn yn 2014/15, a darparwyd ar gyfer £0.7 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2014/15.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn yn datgan: "Os yw gwerth amser yr arian yn berthnasol, dylai swm y ddarpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth." Y ffactor disgownt a gymhwysir i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 1.3 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2014/15 oedd £0.5 miliwn (2013/14: £1.1 miliwn).

Yng Nghylch Gwario 2013, gosododd y Llywodraeth y gofynion i bob Adran roi cynlluniau yn eu lle i roi'r gorau i dâl dilyniant amser a wasanaethwyd awtomatig yn y gwasanaeth sifil erbyn 2015/16. Cytunodd y Gofrestrfa Tir ei chynlluniau â Thrysorlys EM ym Mawrth 2015. Mae'r cynnig wedi cael ei dderbyn gan yr undebau llafur cydnabyddedig, a bydd tâl dilyniant amser a wasanaethwyd awtomatig yn weithredol o 31 Mai 2015. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar yr amcangyfrif cost diweddaraf sydd ar gael.

**17.2 Y Gronfa Indemniad**
Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (IBNR).

| | **Darpariaeth yn weddill** | **Darpariaeth IBNR** | **2015 Cyfanswm** | Darpariaeth yn weddill | Darpariaeth IBNR | 2014 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **11,200** | **53,700** | **64,900** | 22,100 | 45,700 | 67,800 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **8,130** | **–** | **8,130** | 9,398 | – | 9,398 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(8,130)** | **–** | **(8,130)** | (9,398) | – | (9,398) |
| Ailbrisiad hawliadau | **(2,800)** | **–** | **(2,800)** | (10,900) | – | (10,900) |
| Ailbrisiad IBNR | **–** | **11,500** | **11,500** | – | 8,000 | 8,000 |
| **Ar 31 Mawrth** | **8,400** | **65,200** | **73,600** | 11,200 | 53,700 | 64,900 |

Yn dilyn adolygiad actiwarïaidd gan Lane Clark & Peacock LLP, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo (Darpariaeth yn weddill) wedi lleihau yn 2014/15 gan £2.8m (2013/14: gostyngiad o £10.9m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer

hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (darpariaeth IBNR) wedi cynyddu yn 2014/2015 gan £11.5m (2013/14: cynnydd o £8.0m).

Mae'r Ddarpariaeth yn weddill ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a gan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw

- Cyfran yr hawliadau sy'n weddill a gaiff eu talu yn y pen draw.
- Gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud.
- Effaith unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau mawr sydd heb eu talu ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r ddarpariaeth IBNR yn fwy ac o'i hanfod yn fwy ansicr na'r Ddarpariaeth yn weddill. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth yn weddill, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau presennol, mae'r ddarpariaeth IBNR yn cwmpasu hawliadau posibl a all gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd o fewn y ddarpariaeth IBNR yw:

- Ni wyddys nifer y gwallau heb eu hadrodd sydd o fewn y gofrestr ar hyn o bryd.
- Ar ba bwynt yn y dyfodol fydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a bydd hawliadau'n cael eu gwneud.
- Faint fydd cost y ceisiadau cyfatebol.

Gall hawliadau gymryd sawl blwyddyn i'w hadrodd ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth IBNR, mae'r actiwarïaid yn rhagfynegi nifer ac amseriad adroddiadau am hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol a wyddys a chwyddiant hawliadau. Yna mae llifoedd arian parod hawliadau a ragfynegir sy'n deillio yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgownt gosodedig y Trysorlys.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcan-estyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol fel maint gweithgarwch y Gofrestrfa Tir a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwarïaid ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau - dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerth darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn amodol ar werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau sy'n aros i'w talu arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig.

Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â rhagdybiaethau ar

- Nifer yr hawliadau a gaiff eu derbyn.
- Maint cyfartalog yr hawliadau.
- Canran gwerth hawliadau a dalwyd wrth setlo (bach a mawr).
- Cyfran yr hawliadau sy'n 'fawr' (Yn weddill ac IBNR).
- Cyfradd chwyddiant a chyfraddau disgownt disgwyliedig.

Mae'r senarios hyn wedi cael eu hystyried yn unigol ac ar y cyd fel y dangosir yn y tablau isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn

- Mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth y rhwymedigaethau fod tua £0.5m (Darpariaeth yn weddill) neu £5m (Darpariaeth IBNR) yn fwy na'r disgwyl.
- Mae'n annhebygol, ond yn bosibl, y gallai gwerth rhwymedigaethau fod tua £2m (Darpariaeth yn weddill) neu £12m (Darpariaeth (IBNR) yn fwy na'r disgwyl.

Yn ôl eu natur, nid yw'r ffigurau hyn yn fanwl-gywir, a gallant roi rhyw syniad yn unig o faint yr ansicrwydd.

Rydym hefyd wedi ystyried senarios eithafol, lle mae gwerth rhwymedigaethau mor fawr â £4m (Darpariaeth yn weddill) neu £40m (Darpariaeth IBNR) yn fwy na'r disgwyl. Mae natur benagored hirdymor indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r uchafswm rhwymedigaeth posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios o'r fath yn fach.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r rhai a ddangosir yma. Gallai hyn fod am sawl rheswm, er enghraifft oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon ar hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau niweidiol ond mae hefyd yn bosibl y gallai gwerth y rhwymedigaethau fod yn sylweddol llai na'r disgwyl.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl

- Bydd y ddarpariaeth yn weddill yn codi a gostwng yn dibynnu ar faint o hawliadau sy'n cael eu hadrodd ar y pryd, yn enwedig hawliadau mawr.
- Os bydd popeth arall yn gyfartal bydd y Ddarpariaeth IBNR yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant.
- Bydd y Ddarpariaeth yn weddill a'r Ddarpariaeth IBNR yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

**Dadansoddiad Sensitifrwydd**

| | Darpariaeth yn weddill | Canran y symudiad cynnydd |
|---|---|---|
| | £m | % |
| Wedi'i ddarparu yn y cyfrifon hyn (Gweler nodyn 17.2 - gwerth rhagweladwy rhesymol) | 8.4 | |
| | | |
| **Effaith senarios:** | | |
| **Senarios niweidiol ond rhagweladwy** | | |
| (1) Hawliadau mawr y cymerir y bydd y canran tâl wedi cynyddu o 60% i 70% | 8.4 | 0.4 |
| (2) Hawliadau athreuliol a dalwyd (+3%) | 8.8 | 4.8 |
| (3) Cyfradd disgownt real ragnodedig y Trysorlys (-0.5% y flwyddyn) | 8.5 | 1.0 |
| (4) Hawliadau mawr y cymerir bod canran tâl wedi cynyddu o 60% i 100% | 8.5 | 1.4 |
| | | |
| **Senarios posibl ond annhebygol** | | |
| (2) & (3) | 8.9 | 5.8 |
| (2) & (3) & (4) | 9.0 | 7.2 |
| (5) Tâl disgwyliedig yn y dyfodol wedi cynyddu gan 20% | 10.1 | 19.6 |
| (6) Hawliad wedi'i brisio ar hyn o bryd am £100k wedi cynyddu i £2m a'i setlo am y gwerth hwnnw | 10.3 | 22.9 |
| | | |
| **Senarios eithafol** | | |
| (3) & (4) & (5) & (6) | 12.2 | 45.1 |

| | Darpariaeth IBNR | Canran y symudiad cynnydd |
|---|---|---|
| | £m | % |
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn<br>(Gweler nodyn 17.2 - gwerth rhagweladwy rhesymol) | 65.2 | |
| **Effaith senarios:** | | |
| **Senarios niweidiol ond rhagweladwy** | | |
| (1) Cynnydd yn y nifer amcanol o hawliadau IBNR athreuliol (+10%) | 68.8 | 5.5 |
| (2) Cynnydd ym maint hawliadau cyfartalog athreuliol tybiedig (+10%) | 68.8 | 5.5 |
| (3) Cynnydd ym maint hawliadau cyfartalog mawr tybiedig (o 680k i 780k) | 68.9 | 5.7 |
| (4) Cynnydd yn y nifer amcanol o hawliadau mawr (o 6.5 i 7.5 fesul blwyddyn digwyddiad) | 69.1 | 6.0 |
| (5) Cynnydd yn chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol (+1%) | 70.7 | 8.5 |
| (6) Cyfradd disgownt real ragnodedig ar lifoedd arian parod y tu hwnt i 10 mlynedd wedi'i lleihau gan 1% y flwyddyn | 68.9 | 5.7 |
| (7) Cynnydd yn nifer yr achosion heb eu hadrodd (20 i 30) | 65.9 | 1.1 |
| (8) Cynnydd ym maint hawliadau a ailagorwyd cyfartalog (£80k i £180k) | 66.5 | 2.1 |
| **Senarios posibl ond annhebygol** | | |
| (9) Cynnydd ym maint hawliadau cyfartalog mawr tybiedig (o 680k i 980k) | 76.4 | 17.2 |
| (1) & (2) | 72.7 | 11.6 |
| (1) & (5) | 74.6 | 14.5 |
| (7) & (8) | 67.2 | 3.1 |
| **Senarios eithafol** | | |
| (1) & (2) & (4) & (5) & (6) & (7) & (8) & (9) | 106 | 62.7 |

# 18 Ymrwymiadau cyfalaf

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn. | **779** | 588 |

# 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

**19.1 Indemniad**

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (IBNR) (gweler Nodyn 17.2) yn seiliedig ar y tebygolrwydd tybiedig y bydd hawliadau'n llwyddiannus.

Fel ar 31 Mawrth 2015, mae gwerth hawliadau indemniad yn yr arfaeth a wnaed i'r Gofrestrfa Tir i'w weld isod. Wedi'i gynnwys yn y cyfanswm hwn yw'r swm o £8.4m a ddarparwyd yn narpariaeth y Gronfa Indemniad. (gweler Nodyn 17.2)

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Mewn perthynas â chofnodion yn y gofrestr | **3,828** | 6,166 |
| Twyll a ffugio | **13,410** | 20,468 |
| | **17,238** | 26,634 |

**19.2 Arall**

Mae cyn swyddfeydd y Gofrestrfa Tir yn Chalfont Drive, Nottingham yn cynnwys hen ystafell ryfel ranbarthol a sedd llywodraeth (y byncer) wedi'u lleoli yn ardal ddeheuol y safle. Mae amrywiaeth o gyfrifoldebau gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau o ganlyniad i'w statws rhestredig, a hefyd halogyddion hanesyddol sydd wedi'u cynnwys o fewn y safle. Bydd rhaid i'r Gofrestrfa Tir wneud gwaith adfer a glanhau amgylcheddol i'r adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch cyfredol, gan warchod gosodiadau a ffitiadau penodol yn yr adeilad sydd o bwys hanesyddol. Ar hyn o bryd, ni fu modd meintioli gwerth y gwaith hwn yn y datganiadau ariannol hyn.

Fel y nodir ar dudalen 53 mae CThEM wrthi'n cynnal adolygiad cydymffurfiaeth treth cyflogwr.  Gall yr adolygiad hwn godi meysydd lle nad ydym yn cydymffurfio, a all gael canlyniadau ariannol, gan gynnwys y posibilrwydd o adennill tandaliadau treth a/neu gosbau.  Ar hyn o bryd, nid oes modd meintioli tebygolrwydd neu faint unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o'r adolygiad hwnnw.

# 20 Nodiadau ar y datganiad llif arian parod

### 20.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged gweithredu | **47,541** | 141,354 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(5,347)** | (2,180) |
| Costau datblygu Pridiannau Tir Lleol | **(3,028)** | – |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | **6,123** | 6,560 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **514** | 1,280 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **1,125** | 648 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | **(3,999)** | (5,291) |
| Cynnydd mewn stocrestrau | **(874)** | (161) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau i'w derbyn | **2,039** | (2,441) |
| Cynnydd mewn symiau i'w talu | **5,138** | 2,730 |
| Cynnydd(gostyngiad) yn y Gronfa Indemniad | **8,700** | (2,900) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **57,932** | 139,599 |

### 20.2 Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn arian parod net

| | **2015** | 2014 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod net ar ddechrau'r cyfnod | **464,639** | 472,583 |
| Gostyngiad mewn arian parod yn y cyfnod | **(66,887)** | (7,944) |
| **Arian parod net ar ddiwedd y cyfnod** | **397,752** | 464,639 |

# 21 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 Datgeliadau partïon cysylltiedig, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nid yw unrhyw aelodau bwrdd, aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Gofrestrfa Tir.

# 22 Partneriaeth cyhoeddus-preifat

Daeth contract â Sopra Steria i ddarparu gwasanaeth rheoli bwrdd gwaith TG i'r Gofrestrfa Tir am gyfnod o bum mlynedd i ben ar 22 Gorffennaf 2014, pan drosglwyddodd y gwasanaeth hwn i dîm gwasanaeth rheoli TG mewnol. Roedd offer Bwrdd Gwaith TG yn cael ei brydlesu trwy Sopra Steria ac ar ddiwedd y contract trosglwyddodd y prydlesi hyn gyda CHG-Meridian Computer Leasing UK Limited o Sopra Steria i'r Gofrestrfa Tir ar eu gwerth prydles gweddilliol. Y cyfanswm rhwymedigaeth sy'n weddill o'r prydlesi hyn ar 31 Mawrth 2015 yw £0.6m

# 23 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2015** | | 2014 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **8.5** | **4.6** | 30.7 | 5.9 |

# 24 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 Offerynnau ariannol: datgeliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon pwysig yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg arian gyfred.

# 25 Colledion a thaliadau arbennig

### 25.1 Taliadau arbennig


| | **2015** | | 2014 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr Achosion** | **Gwerth y Taliad £'000** | **Nifer yr Achosion** | Gwerth y Taliad £'000 |
| Nifer y taliadau arbennig llai na £300,000 | **97** | **5** | 282 | 11 |
| Nifer y taliadau arbennig dros £300,000 | **1** | **1,030** | – | – |
| **Cyfanswm** | **98** | **1,035** | 282 | 11 |

Yn 2013/14, cyflogodd y Gofrestrfa Tir Gyfarwyddwr Cyllid dros dro am gyfnod oedd yn fwy na'r chwe mis a ganiateir o dan ofynion yr Adolygiad o Drefniadau Treth Penodeion y Sector Cyhoeddus. O ganlyniad gosodwyd sancsiwn o £1.03m gan Drysorlys EM am fethu â chydymffurfio.

# 26 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd**
Dechreuodd y Prif Weithredwr newydd, Graham Farrant, ar 1 Mehefin 2015.



# Atodiad A – Maint o waith a llwythi gwaith 2013/14 a 2012/13

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymarebau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 27 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion am ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau rydym yn eu derbyn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig o 83.7 y cant i 91.2 y cant.


Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau a gyflwynir i'r Gofrestrfa Tir sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn anwadal eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn**

| | 2014/15 | | | 2013/14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | Ceisiadau a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | Ceisiadau a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein |
| Cyfanswm ceisiadau | 28,569,636 | 25,005,653 | 87.5 | 28,402,115 | 21,972,387 | 77.4 |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 1,157,728 | – | – | 2,147,373 | – | – |
| **Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | **27,411,908** | **25,005,653** | **91.2** | **26,254,742** | **21,972,387** | **83.7** |
| | | | | | | |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,724,245 | 3,431,087 | 72.6 | 4,446,473 | 1,710,139 | 38.5 |
| Ceisiadau gwasanaethau rhagarweiniol | 15,890,630 | 15,580,001 | 98.0 | 15,323,632 | 14,801,517 | 96.6 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad | 6,797,033 | 5,994,565 | 88.2 | 6,484,637 | 5,460,731 | 84.2 |
| | **27,411,908** | **25,005,653** | **91.2** | **26,254,742** | **21,972,387** | **83.7** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 120,298 | – | – | 135,103 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 207,087 | 100,234 | 48.4 | 187,351 | 2,700 | 1.4 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 158,076 | 84,779 | 53.6 | 145,573 | 1,295 | 0.9 |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig | 4,238,784 | 3,246,074 | 76.6 | 3,978,446 | 1,706,144 | 42.9 |
| | **4,724,245** | **3,431,087** | **72.6** | **4,446,473** | **1,710,139** | **38.5** |
| Ceisiadau gwasanaethau rhagarweiniol | | | | | | |
| Copïau swyddogol | 12,644,809 | 12,493,672 | 98.8 | 11,500,285 | 11,289,225 | 98.2 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,240,834 | 2,196,134 | 98.0 | 2,175,187 | 2,115,818 | 97.3 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai | 1,004,987 | 890,195 | 88.6 | 1,648,160 | 1,396,474 | 84.7 |
| | **15,890,630** | **15,580,001** | **98.0** | **15,323,632** | **14,801,517** | **96.6** |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 4,873,717 | 4,873,717 | 100.0 | 4,498,132 | 4,498,132 | 100.0 |
| Gweld cynllun teitl | 884,241 | 884,241 | 100.0 | 822,996 | 822,996 | 100.0 |
| Gweld dogfen | 76,520 | 76,520 | 100.0 | 63,624 | 63,624 | 100.0 |
| Gohebiaeth | 283,428 | 160,087 | 56.5 | 284,942 | 75,979 | 26.7 |
| Ymholiadau ffôn | 679,127 | – | – | 814,943 | – | – |
| | **6,797,033** | **5,994,565** | **88.2** | **6,484,637** | **5,460,731** | **84.2** |

# Atodiad B – Ymateb i'r hinsawdd economaidd

Roedd ein costau rhedeg busnes wedi gostwng i fan gwastad yn 2012/13 a 2013/14. Mae ffigur 2014/15 yn adlewyrchu'n bennaf symud mwy o gostau newid arferol oedd heb eu cynnwys yn flaenorol yn y costau rhedeg busnes i gostau rhedeg busnes. Mae'r dirywiad cyflym mewn costau o 2008/9 i 2012/13 yn adlewyrchu'r ailstrwythuro sylweddol trwy'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig mewn ymateb i'r cwymp yn y farchnad dai ac, yn fwy diweddar, ein targedau effeithlonrwydd a gyrhaeddwyd.




Nodyn: Nid yw'r ddarpariaeth IBNR gychwynnol o £45.9m wedi'i chynnwys yng nghostau rhedeg busnes 2011/12, yn y siart uchod, ond ar gyfer blynyddoedd dilynol mae'r symudiad yn y ddarpariaeth wedi'i gynnwys.

Mae ein gwarged/diffyg a gadwyd dros y cyfnod o saith mlynedd ers y cwymp yn y farchnad dai yn adlewyrchu adennill y diffyg wedi'i ddilyn gan effaith dau daliad difidend arbennig o £100m yn 2013/14 a 2014/15 yna effaith y gorchymyn ffioedd llai ar 2014/15 a gafodd yr effaith o leihau refeniw gan £117m.

## Gwarged/(diffyg) a gadwyd

£'000




Nodyn: Nid yw'r ddarpariaeth IBNR gychwynnol o £45.9m wedi'i chynnwys yng ngwarged a gadwyd 2011/12, yn y siart uchod, ond ar gyfer blynyddoedd dilynol mae'r symudiad yn y ddarpariaeth wedi'i gynnwys.

Talwyd difidend arbennig o £100m ym mhob blwyddyn 2013/14 a 2014/15 ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graff.

## Datganiadau incwm: saith mlynedd i 2013/14

| | (Ailddatganwyd) 2008/9 | (Ailddatganwyd) 2009/10 | (Ailddatganwyd) 2010/11 | (Ailddatganwyd) 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Saith mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm ffioedd gweithrediadau parhaus | 308,050 | 328,414 | 355,364 | 359,338 | 347,157 | 381,278 | 297,080 | 2,376,681 |
| Cost gwasanaeth | (354,634) | (292,020) | (275,675) | (289,909) | (227,751) | (227,871) | (236,571) | (1,904,431) |
| Gwarged/(diffyg) gros | (46,584) | 36,394 | 79,689 | 69,429 | 119,406 | 153,407 | 60,509 | 472,250 |
| Costau gweinyddol | (18,992) | (16,932) | (14,833) | (13,722) | (10,515) | (12,053) | (12,968) | (100,015) |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | (65,576) | 19,462 | 64,856 | 55,707 | 108,891 | 141,354 | 47,541 | 372,235 |
| Elw/(colled) ar warediadau o asedau anghyfredol | (14) | 4,037 | 39,114 | 5,170 | 3,913 | 66 | (10) | 52,276 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 12,315 | 549 | 580 | 1,170 | 1,468 | 1,622 | 1,881 | 19,585 |
| Costau cyllid | (7,830) | (784) | (870) | (878) | (936) | (953) | (899) | (13,150) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | – | (2,334) | (6,577) | (4,448) | (4,053) | (5,357) | (3,530) | (26,299) |
| Costau ad-drefnu ailstrwythuro | (50,253) | (34,609) | (87,847) | (21,000) | (10,529) | (1,630) | (5,347) | (211,215) |
| Costau datblygu | – | – | – | – | – | – | (3,028) | (3,028) |
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | (111,358) | (13,679) | 9,256 | 35,721 | 98,754 | 135,102 | 36,608 | 190,404 |
| Difidend i'w dalu | (18,572) | (15,279) | (14,006) | (13,776) | (25,960) | (126,654) | (119,114) | (333,361) |
| Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn | (129,930) | (28,958) | (4,750) | 21,945 | 72,794 | 8,448 | (82,506) | (142,957) |
| Enillion/(colledion) ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | – | (1,100) | 1,316 | (1,608) | 3,363 | 1,373 | (1,074) | 2,270 |
| Gwarged/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol | (129,930) | (30,058) | (3,434) | 20,337 | 76,157 | 9,821 | (83,580) | (140,687) |
| Staff cyfwerth ag amser llawn (cyfartaledd am y flwyddyn ariannol) | 7,350 | 6,525 | 5,322 | 4,588 | 4,325 | 4,042 | 4,033 | |

**NODIADAU**

2008/09: ailddatganwyd ar gyfer Safonau Adran Ariannol Rhyngwladol.

2009/10: ailddatganwyd ar gyfer gwariant datblygu, wedi'i ddosbarthu'n anghywir fel ased yna ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant; £0.8m wedi'i godi yn ôl i gost gwasanaeth, ac amorteiddio wedi'i leihau gan £0.2m.

2010/11: cyfanswm lleihau e-drawsgludo yn ystod y flwyddyn oedd £10.9m, sy'n cynnwys £6.4m o gost datblygu heb ei defnyddio a £4.5m o asedau sydd eisoes yn cael eu defnyddio; datgelwyd yng nghost gwasanaeth.

2010/11: ailddatganwyd yn 2011/12 gyda dau addasiad: (i) dileu cronfa grant wrth gefn y llywodraeth £4.4m a £0.5m i'r cyfrif incwm a gwariant; (ii) cafodd incwm masnachol ei osod yn erbyn gwariant a ailddatganwyd yn flaenorol fel incwm masnachol gyda chynnydd cyfatebol mewn costau £4.9m.

2011/12: ailddatganwyd yn 2012/13 gydag addasiadau blwyddyn flaenorol ar gyfer newid mewn polisi i hawliadau indemniad sydd wedi codi ond heb eu hadrodd.

2013/14: difidend arbennig o £100m wedi'i gynnwys yn ddifidend ar gyfer Strategaeth Fusnes newydd.

2014/15: difidend arbennig o £100m wedi'i gynnwys mewn difidend ar gyfer strategaeth Fusnes newydd

# Atodiad C - Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

## Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2014/15 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2013/14 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 53,577 | - 18.6% |
| Dileadau | 10,172 | - 3.2% |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| - Chwiliadau llawn | 176,028 | - 3.5% |
| - Chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,374,763 | + 2.7% |
| Copïau swyddfa | 26,575 | - 11% |
| **Cyfanswm** | **1,641,115** | **+0.9%** |

## Credydau Amaethyddol

| | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 | 2011/12 | 2010/11 | 2009/10 | 2008/9 | 2007/8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd | 796 | 772 | 645 | 840 | 737 | 917 | 1,159 | 1,267 |
| Dileadau a chywiriadau | 810 | 943 | 1,006 | 1,086 | 1,153 | 737 | 917 | 808 |
| Chwiliadau | 2,551 | 2,552 | 3,686 | 2,689 | 2,688 | 3,405 | 4,120 | 4,269 |
| **Cyfanswm** | **4,157** | **4,267** | **5,337** | **4,615** | **4,578** | **5,059** | **6,196** | **6,344** |

# Atodiad Ch – Cofnod y Trysorlys


## Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM

### Cofnod Trysorlys EM dyddiedig 24 Ebrill 2012

1. Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd Cronfa Fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff Cronfa Fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r Gronfa Fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973) ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:
   - (a) Rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:
     - (i) Yn cynnwys derbyniadau yn bennaf ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod gweithrediadau a gyllidwyd, a
     - (ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol ar y cyfrif refeniw; a
   - (b) Cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.
2. Sefydlwyd Cronfa Fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y Gronfa Fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r Gronfa Fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y Gronfa Fasnachu ei hestyn a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).
3. Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017 fydd sicrhau enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o isafswm o 3.5 y cant gwirioneddol[1] yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus. Bydd hyn ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin ar ôl eitemau eithriadol a llog (i'w talu ac i'w derbyn), ond cyn difidendau, wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.
4. Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 15 Rhagfyr 2003.
5. Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

[1] Caiff 3.5 y cant gwirioneddol ei gyfrifo'n flynyddol fel 3.5 y cant ynghyd â'r amcangyfrif chwyddiant diweddaraf am y flwyddyn honno, wedi'i ddarparu gan ONS. Drwy gyfrwng enghraifft barod, am y flwyddyn gyllidol 2012/13 bydd y targed ariannol yn 6.29 y cant. Cyfrifwyd hwn fel (1+3.5 y cant)* (1+2.7 y cant), gyda 2.7 y cant yn amcangyfrif chwyddiant 2012/13 ONS (ffigurau'r Cyfrifon Cenedlaethol gan ONS, http://www.hm-treasury.gov.uk/ data_ gdp_fig.htm, 22 Rhagfyr 2011).

Trysorlys EM
24 Ebrill 2012



ISBN 978-1-4741-1999-3
9 781474 119993